

## **ATODIAD 4**

### **DISGRIFIAD O'R ASESIADAU AMRYWIOL**

#### **RHAN 1: ARFARNIAD CYNALADWYEDD**

Yn unol â'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gofodol (2004) mae'n ofynnol i Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd sydd wrthi'n cael eu datblygu, fod yn destun Arfarniad Cynladwyedd (AC). Mae AC yn ceisio sicrhau fod polisiau a chynigion y CDLI yn gyson gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r rhan hwn yn cynnwys AC o safleoedd a pholisiau manwl sydd yn y Cynllun Adneuo. Bydd y Cyngor yn ymgynghori ar adroddiad llawn o'r AC yr un pryd â'r Cynllun Adneuo.

#### **RHAN 2: ASESIAD EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG**

Mae'r iaith Gymraeg yn elfen annatod o wead cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac mae'n adlewyrchiad o'u traddodiadau a'u diwylliant. Gall datblygiad gael effaith ddifrifol ar hyfywdra'r iaith Gymraeg. Drwy ymgymryd ag Aseiad Ardrawiad Ieithyddol o'r CDLI ar y Cyd, fe fydd unrhyw effaith andwyol sy'n deillio o ddatblygiad yn cael eu minimeiddio a'u lliniaru. Mae'r rhan hwn yn cynnwys trosolwg o'r Aseiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg o'r Cynllun Adneuo, gyda ffocws penodol ar effaith safleoedd a pholisiau.

#### **RHAN 3: ASESIAD CYDRADDOLDEB**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) o rai dogfennau yn ofyn cyfreithiol. Mae Aseiad Effaith Cydraddoldeb yn declyn sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r Cyngor yn gwahaniaethu, yn hyrwyddo cydraddoldeb ble bynnag y bo modd ac yn meithrin perthnasau cymunedol da. Mae'r rhan hwn yn cynnwys Aseiad Cydraddoldeb o'r Cynllun Adneuo.

#### **RHAN 4: ASESIAD EFFAITH AR IECHYD**

Mae'r Aseiad Effaith ar Iechyd yn declyn y gellir ei ddefnyddio i asesu effaith iechyd datblygiad ffisegol, newid arfaethedig i gyflwyniad gwasanaeth neu bolisi neu strategaeth. Mae'r rhan hwn yn cynnwys Aseiad Effaith ar Iechyd o'r Cynllun Adneuo.

## DRAFFT Asesiad Cynladwyedd o'r CDLI ar y cyd Adnau – Polisiâu

### Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Cynladwyedd o fersiwn adneuo y Cyd-gynllun Datblygu Lleol a elwir yn yr adroddiad hwn yn Gyd-gynllun Adneuo. Mae'r adran wedi ei gosod allan yn ôl 12 prif bwnc neu dopig sydd wedi cael eu cyplysu gydag Amcanion perthnasol yr Asesiad Cynladwyedd a chyda phynciau'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Mae gwerthusiad pob pwnc neu dopig wedi cael ei rannu i nifer o is-benawdau, er mwyn sicrhau bod pob agwedd o'r Cyd-gynllun Adneuo yn cael eu hystyried wrth i'r cynllun gael ei lunio, gan gynnwys polisiâu a dyraniadau safle, yn ogystal â'r gydberthynas rhwng gwahanol bynciau ac effaith grynodol y cynllun yn ei gyfarwydd.

Yn unol â'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a Rheoliadau, mae unrhyw effeithiau tebygol o bwys yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen i ddelio â hwy. Gan hynny nid yw'r Asesiad Cynladwyedd yn cynnig naratif ar natur ac arwyddocâd pob polisi unigol yn y Cynllun Lleol, gan ei bod yn bosib nad yw'r polisi hwnnw bob amser yn berthnasol i bwnc arbennig neu oherwydd ei fod yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol.

### Asesiad Cynladwyedd o'r CDLI ar y cyd Adnau

#### Tai

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Poblogaeth a Iechyd Dynol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 7: Darparu tai o ansawdd da, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n cyflawni anghenion lleol

### Gwerthusiad o Bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau

Mae polisiâu strategol a gynhwysir yn y Cyd-gynllun Adneuo yn cefnogi'r pwnc tai trwy sicrhau:

- Bod darpariaeth ddigonol o anheddau newydd (fel a ddangosir yn yr Angen a Asesir yn Wrthrychol am dai [ffigwr cyfredol o 7,902 annedd yn ystod oes y Cynllun]);
- Cymysgedd priodol o wahanol fathau o ddaliadaeth (gan gynnwys safleoedd sipsiwn a theithwyr, llety myfyrwyr, tai amldeiantiaeth a llety i'r henoed);
- Darparu Tai Fforddiadwy: a
- Hybu dyluniad o ansawdd uchel er mwyn diwallu anghenion y gymuned gyfan.

Mae Polisi PS11 yn mynnu darpariaeth o 7,902 annedd yn ystod oes y Cynllun, sydd â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol mawr o dan Amcan 7 yr Asesiad Strategol. Cynigir amrediad o wahanol fathau o anheddau a bydd hynny'n helpu i ddiwallu anghenion y gymuned gyfan, gan hybu rhagor ar yr effeithiau cadarnhaol hynny. Mae Polisi TA1/1 yn chwilio am gymysgedd briodol o dai i gynorthwyo i ddiwallu anghenion y gymuned gyfan. Hefyd mae polisiâu penodol yn ymwneud â thai gofal i'r henoed (Polisi TA1/3), llety myfyrwyr (Polisi TA1/5) a sipsiwn a theithwyr (Polisi TAI/9, TAI/9A a TAI/9B).

Bydd datbygiad tai yn cael ei ddosrannu yn ôl yr hierarchiaeth o aneddiadau a restrir yn Mholisi PS3. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn ac oddi amgylch, y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Bydd hyn yn help i ddiwallu'r angen am dai mewn ardaloedd trefol a gwledig ac yn cael effaith gadarnhaol

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

hirdymor ar y pwnc hwn. Mae Polisi TA1/4 yn cyfyngu ar lefel y datblygiad mewn mewn ardaloedd gwledig sensitif y dynodir bod ganddynt lefel gyfyngedig o wasanaethau a chyfleusterau. Nifer cyfyngedig yn unig o dai fforddiadwy fydd yn cael eu cefnogi, i helpu i gwrdd ag angen cymunedol lleol ac i amddiffyn cymeriad pentrefi gwledig.

Mae Polisiâu TA1/10 i TA1/12 yn rhestru dosraniad manwl y twf mewn tai yn ystod oes y Cynllun. Mae Polisi PS12 yn sicrhau y dynodir digon o dir i gyflawni targed o leiafswm o 1,400 o dai fforddiadwy newydd yn ystod oes y Cynllun hwn gyda Pholisi TA1/8 yn nodi'r trothwyon ar gyfer y ddarpariaeth. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gyfer y pwnc hwn.

Cydnabyddir potensial Tai Amldeiantiaeth (HMOs) i arwain at effeithiau negyddol a newid cymeriad cymdeithasol ardal. Mae Polisi TA1/2 sy'n ceisio cyfyngu'r math hwn o ddatblygiad i ardaloedd lle mae'n briodol a lle nad ydynt yn effeithio ar amwynderau'r ardal, nac yn gorfodi teuluoedd allan, cyfyngir ar newid defnydd Tai teras deulawr yn unig i dai amldeiantiaeth. Mae'r pwysau hwn i'w weld gryfaf yn nhref brifysgol Bangor, lle mae angen cadw rheolaeth dros newid defnydd o dai annedd i Dai Amldeiantiaeth, fel a amlinellir ym mholisi TA1/2. Mae'r polisi hwn hefyd yn ceisio hybu'r effeithiau cadarnhaol sy'n deillio o dai amldeiantiaeth trwy gymhwyso darpariaethau tai fforddiadwy ar gyfer tai amldeiantiaeth sy'n datblygu mwy nag un uned newydd, lle bo modd gwneud hynny.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Drwyddi draw, bydd y Cyd-gynllun Adneuo yn cael effeithiau crynodol cadarnhaol yn y maes tai yn yr hirdymor, trwy ddarparu 7,902 o dai newydd i ddiwallu'r Angen a Aseswyd yn Wrthrychol. Mae polisiâu yn sicrhau bod tai yn cael eu darparu mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig a bod cymysgedd addas o dai yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion yr holl bobl yn y dyfodol. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio sicrhau bod nifer addas o dai fforddiadwy yn cael eu cyflenwi a bod ardaloedd gwledig sensitif yn cael eu gwarchod rhag datblygu anaddas.

### ***Cydberthynas â phynciau eraill***

Gall darparu tai a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddaw yn sgil hynny gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar nifer o bynciau eraill, gan gynnwys yr economi a chyflogaeth, cymunedau ac iechyd, a thrafnidiaeth a hygyrchedd. Ochr arall y geiniog yw y gall darparu tai gael effaith niweidiol ar nifer o bynciau, gan gynnwys cymunedau ac iechyd, trafndiaeth a hygyrchedd, ansawdd yr aer a llifogydd, adnoddau ac ansawdd dŵr, yr amgylchedd naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, a gwastraff ac ailgylchu.

### **Yr Economi a Chyflogaeth**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Poblogaeth ac Iechyd Dynol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 6: Cynnal twf economaidd a hwyluso economi bywiog ac amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol

### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae gan bolisi CYF1 y potensial o gael effeithiau hirdymor cadarnhaol mawr o ran Amcan Asesiad Strategol 7 trwy ddiogelu safleoedd cyflogaeth a darparu tir cyflogaeth newydd i ddiwallu anghenion pobl o fewn ardal y

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

Cyd-gynllun Adneuo. Mae'r Arolwg o Dir Cyflogaeth<sup>1</sup> yn nodi y bydd angen 168ha o ofod cyflogaeth ar draws holl ardal y cynllun yn y cyfnod hyd at 2026, a hynny wedi ei rannu yn gyfartal i 84ha yr un yn ardaloedd y ddau awdurdod. Mae Polisiâu CYF2, CYF3, CYF4 a CYF6 yn cefnogi'r potensial ar gyfer cyflogaeth ychwanegol – nad yw'n cael ei nodi o fewn Polisi CYF1 – yn ogystal â defnydd ategol neu ddefnydd amgen o safleoedd cyflogaeth, yn amodol ar nifer o feini prawf, sydd â'r potensial o gael effaith hirdymor cadarnhaol bychan ar yr economi a chyflogaeth. Mae trosi adeiladau gwledig at ddibenion busnes hefyd yn cael ei gefnogi (Polisi CYF5), yn ogystal ag arallgyfeirio amaethyddol (Polisi CYF7), sydd â'r potensial o sicrhau effeithiau hirdymor cadarnhaol bychan ar yr economi gwledig. Mae Polisi CYF8 yn cefnogi adfywiad tir sydd wedi cael ei ddatblygu'n flaenorol o fewn ardaloedd gwledig lle bo modd.

Cefnogir Gweithio o'r Cartref mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft mae Polisi CYF5 yn caniatáu addasu adeiladau gwledig at ddibenion preswyl a busnes er mwyn caniatáu gweithio o'r cartref (lle bo'n briodol ac yn addas). Ymhellach at hyn, mae Polisi CYF7 yn cefnogi arallgyfeirio busnesau amaethyddol (yn amodol ar ddangos bod cysylltiad gyda'r gweithgaredd busnes presennol) er mwyn diogelu defnydd amaethyddol a sicrhau eu bod yn hyfyw.

Mae'r wybodaeth sylfaenol (gwaelodlin) yn dangos bod ymfudiad pobl ifanc yn broblem fawr i'r ardal. Er mwyn targedu'r broblem hon mae'r Cynllun yn ceisio gwella amrywiaeth yng nghyfleoedd cyflogaeth yr ardal, a darparu atyniadau newydd ac arloesol i deuluoedd, yn ogystal â gweithgareddau gyda'r nos.

Un ffactor economaidd o bwys mawr i'r ardal yw datblygu gorsaf ynni niwclear yn y Wylfa, sy'n debygol o gael effeithiau hirdymor cadarnhaol ar gyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal. Mae'r Cynllun yn ceisio darparu addysg a hyfforddiant sgiliau er mwyn caniatáu i drigolion lleol gael mynediad i'r buddion cyflogaeth a gynhyrchir gan y datblygiad. Ystyrir y bydd hyn yn cael effaith hirdymor gadarnhaol sylweddol iawn ar yr economi lleol a chyflogaeth. Mae Polisi CYF1 hefyd yn dynodi 'safleoedd wrth gefn' i ddiwallu anghenion y Rhaglen Ynys Ynni.

Mae adran bolisi arall ar dwristiaeth yn cefnogi'r sector hollbwysig hwn o'r economi lleol. Mae Polisi TWR/1 yn cefnogi atyniadau a chyfleusterau newydd ac estynedig/rhagorach i ymwelwyr; o fewn ffiniau aneddiadau, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, yn agos at gyfleusterau twristiaeth sy'n bodoli'n barod, neu mewn lleoliadau a ystyrir yn addas oherwydd eu nodweddion cynhenid. (e.e. adnoddau hanesyddol). Rhoddir blaenoriaeth i farchnadoedd arbenigol Twristiaeth Weithgareddau, Twristiaeth Digwyddiadau a Thwristiaeth Ddiwylliannol. Mae Polisi TWR/2 yn cefnogi datblygu llety gwyliau o ansawdd uchel, a Polisi TWR/3 yn gefnogol i ddiogelu ardaloedd tirwedd mwyaf gwerthfawr yr ardal (er enghraifft AOHNE Arfordiroedd Môn a Llŷn) trwy wahardd safleoedd carafán a chabannau gwyliau yn yr ardaloedd hynny, a thrwy gefnogi adleoli safleoedd o'r fath o'r Parth Rheoli Newid Arfordirol i ardaloedd daearyddol mwy cynaliadwy. Drwyddi draw, cyn belled â bod yr effeithiau niweidiol yn fychan, mae cefnogaeth gyffredinol i ddatblygiadau graddfa fechan ac i ymestyn safleoedd carafanau a safleoedd gwerysyla cyfredol, ac mae Polisi TWR/4 yn sicrhau na fydd unrhyw dymhorau gwyliau estynedig yn gwaethygu canlyniadau digwyddiad o lifogydd eithafol. Mae gan y polisiâu twristiaeth botensial i gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol bychan o dan Amcan Asesiad Strategol 7.

Mae dwy brif Ardal Fenter yn effeithio ar ardal y Cynllun; Ardal Fenter Ynys Môn sy'n canolbwyntio ar y sector ynni, a Gwynedd sydd wedi ei ddynodi yn ganolbwynt ar gyfer Ardal Fenter Eryri - sy'n canolbwyntio ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a mentrau digidol. Gallai'r ardaloedd hyn roi cefnogaeth ychwanegol i gadw pobl ifanc yn yr ardal trwy ddarparu cyfloed cyflogaeth fedrus a diwydiannau modern. Mae Ardaloedd Menter bychan ychwanegol mewn sawl rhan o Gaergybi, sy'n parhau i fod yn un o brif ganolfannau cyflogaeth Ynys Môn.

Yn y maes mân-werthu (Polisiau MAN/1 i MAN/7), mae Bangor yn parhau i weithredu fel canolfan siopa isranbarthol ac mae'r Cynllun yn cydnabod angen am ragor o arwynebedd llawr siopa yn rhai o'r aneddiadau ehangach. Serch hynny, i raddau helaeth mae'r ymdrechion ar gyfer mân-werthu yn canolbwyntio ar wella ansawdd y canol trefi presennol, gan gynnwys; Bangor, Caernarfon, Caergybi a Llangefni mewn ymdrech i fynd

---

<sup>1</sup> URS (2012) Economic and Employment Land Review Study for the Anglesey and Gwynedd Planning Authority Area [arlein]  
[http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1179/Gwynedd\\_and\\_Anglesey\\_Employment\\_Land\\_Review.pdf](http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1179/Gwynedd_and_Anglesey_Employment_Land_Review.pdf) [cyrchwyd ym mis Hydref 2014]

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

i'r afael â'r dirywiad yn yr amgylchiadau mân-werthu. Ymhellach, mae'r polisiâu yn rhoi cefnogaeth bellach i economïau lleol, er enghraifft mae Polisi MAN/4 yn diogelu siopau a thai tafarnau pentrefi.

Mae Polisi CYF9 yn dynodi Caergybi yn brif ardal adfywio, ac yn ceisio cynnal ei swyddogaeth fel canolfan dwristiaeth a phorth i Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig, trwy wella cysylltiadau gyda'r porthladd ac o fewn y dref, ymhlith pethau eraill. Mae'r polisi yn anelu at wella amgylchedd materol a hunan-gynhwysiant y dref, yn ogystal ag amddiffyn ei threftadaeth gyfoethog. Mae gan y gwelliannau botensial i gael effeithiau ar yr economi lleol, a hefyd ar iechyd, cymunedau a'r amgylchedd hanesyddol.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Rheng popeth, bydd y Cyd-gynllun Adneuo yn cael effeithiau crynodol cadarnhaol ar yr economi a chyflogaeth yn y byrdymor a'r hirdymor trwy ddiogelu safleoedd a thrwy ddarparu 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y cynllun. Mae polisiâu'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu cydbwysedd rhwng darparu cyflogaeth, tai ac isadeiledd ar y naill law, ac isadeiledd newydd ar y llall, gam ei ddarparu yn yr ardaloedd lle mae'r mwyafrif angen. Trwy gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac anelu at amrywiaeth economaidd, mae gan y Cynllun botensial i sicrhau canlyniadau crynodol cadarnhaol dros yr hirdymor trwy ddiogelu grwpiau oedran allweddol, sgiliau a gweithlu preswyl.

### ***Cyberthynas gyda phynciau eraill***

Mae darparu cyflogaeth yn creu'r potensial ar gyfer canlyniadau cadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd, trafnidiaeth a hygyrchedd, ansawdd yr aer, newid hinsawdd a llifogydd, adnoddau ac ansawdd dŵr, yr amgylchedd naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, a gwastraff ac ailgylchu, o ganlyniad i gynnydd yn natblygiad cyflogaeth yn ardal y Cynllun.

### **Cymunedau ac Iechyd**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Poblogaeth a Iechyd Dynol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 2: Hybu dichonoldeb, cydlyniant, iechyd a lles cymunedol

### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae'r potensial yn bodoli i bolisiau sy'n anelu at ddarparu tai a chyflogaeth gael effaith negyddol fechan ar iechyd yn y byrdymor yn ystod y cyfnodau adeiladu, oherwydd y lefelau uwch o sŵn, a llygredd aer a golau. Ond ystyrir bod mesurau lliniaru addas ar gael yn y polisiâu Rheoli Datblygu ac ar lefel safle (e.e Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu) i roi sylw i'r effeithiau byrdymor hyn. Ar y llaw arall mae gan yr un polisiâu botensial i gael effeithiau cadarnhaol hirdymor mawr yn anuniongyrchol, o ran Amcan Asesiad Strategol 2 trwy wella mynediad i amrywiaeth o wahanol fathau o dai a chyfleoedd adeiladu, yn ogystal â'r gwasanaethau a chyfleusterau cysylltiol.

Mae Polisiâu PS5 ac ISA/1 yn anelu at welliannau yn y ddarpariaeth isadeiledd a chyfraniadau datblygwyr i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gynnal yn yr ardal sy'n ei dderbyn. Gellir chwilio am gyfraniadau ar gyfer ystod o wahanol ddibenion i gynnal cymunedau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i); dai fforddiadwy, cyfleusterau addysgol, ardaloedd hamdden neu agored, cyfleusterau gofal iechyd, lliniaru risg llifogydd ac isadeiledd band eang. Mae Polisi CYFF2 hefyd yn hyrwyddo amgylcheddau diogel, yn unol ag egwyddorion 'Secured by Design'. Mae gan y rhain botensial i gael mân effeithiau cadarnhaol o ran Amcan Asesiad Strategol 2.

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

Mae Polisi ISA/2 yn cefnogi datblygiad priodol cyfleusterau cymunedol newydd lle nodir angen, yn ogystal â chadw cyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod. Ymhellach at hynny mae Polisi ISA/5 yn sicrhau mynediad addas i ardaloedd agored mewn datblygiadau tai newydd yn unol â safonau meincnodi Fields in Trust, gan annog ffordd fywiog o fyw. Mae Polisi MAN/4 yn hybu'r effeithiau cadarnhaol hyn trwy anelu at gynnal economïau lleol a chyfleusterau sy'n cynnal cymunedau pentrefi, sef yn yr achos hwn siopau pentref a thai tafarnau.

Mae polisiâu adneuo hefyd yn ceisio mynd i'r afael â chymunedau cynhwysol, er enghraifft ym Mholisi CYFF2, sy'n hybu ansawdd uchel mewn dylunio ac amgylcheddau dirwystr gyda darpariaeth ar gyfer yr anabl. Y mae hefyd y disgwyl i ddatblygiadau integreiddio rhwydweithiau trafndiaeth a chyfathrebu a hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â sicrhau cysylltiadau gyda chymunedau eraill sydd o'u hamgylch. Dylai hynny helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cymathu gyda chymunedau presennol a'u bod yn cael mân-ffeithiau cadarnhaol dros yr hirdymor.

### Effeithiau Synergol a Chrynodol

Mae potensial ar gyfer effeithiau crynodol hirdymor cadarnhaol trwy'r cyfraniadau cysylltiedig i'r isadeiledd o ganlyniad i ddatblygiad, gan gefnogi cymunedau presennol yn ogystal â rhai newydd. Mae'r fframwaith polisi yn cefnogi datblygu cyfleusterau cymunedol a fydd, os cânt eu dwyn ymlaen, yn hybu'r effeithiau cadarnhaol hirdymor ac, ar y cyd â datblygiadau eraill a gynllunnir (er enghraifft tai a chyflogaeth) a fydd yn cyfrannu'n grynodol at sefydlu cymunedau iach, cynaliadwy a chydlynol.

### Cydberthynas â phynciau eraill

Gall natur ac arwyddocad yr effeithiau a geir ar y rhan fwyaf o bynciau eraill effeithio yn anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd. Gall effeithiau cadarnhaol ar dai, cyflogaeth, a thrafnidiaeth a hygyrchedd arwain at effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd. Gall effeithiau ar bynciau amgylcheddol, megis ansawdd yr aer, adnoddau ac ansawdd dŵr, a'r amgylchedd naturiol, effeithio yn anuniongyrchol, yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar gymunedau ac iechyd.

### Trafnidiaeth a Hygyrchedd

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Poblogaeth a Iechyd Dynol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 10: Hybu a gwella cysylltiadau trafndiaeth da i gynnal y gymuned a'r economi

### Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau

Mae Polisiâu tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Gallai hyn gynyddu lefelau trafndiaeth ar y rhwydwaith briffyrdd bresennol gyda'r potensial o ddrwg-ffeithiau. Bydd datblygiad tai yn cael ei ddsrannu yn ôl yr hierarchaeth o aneddiadau a restrir ym Mholisi PS3. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Bydd hyn yn helpu i ddiwallu'r angen am dai mewn ardaloedd trefol a gwledig ac yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar y pwnc hwn. Mae Polisiâu TA1/10 i TA1/12 yn rhestru union ddsraniad y twf mewn tai yn ystod oes y Cynllun.

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

Mae ardal y Cynllun yn cynnwys trefi, pentrefi a chefn gwlad agored, gyda phob un yn cynrychioli gwahanol broblemau o ran trafndiaeth a hygyrchedd. Yr ardaloedd sy'n darparu orau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yw'r Ganolfan Isranbarthol, sef Bangor, a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol, sef Amlwch, Caergybi, Llangefni, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog a Phyllheli. Mae'n anochel bod y Canolfannau Gwasanaeth Lleol mwy gwledig, y Pentrefi a'r Aneddiadau Clwstwr yn fwy dibynnol ar geir preifat. Mae'r Cynllun yn cydnabod yr angen i leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat tra ar yr un pryd yn cyflawni twf angenrheidiol mewn tai a chyflogaeth.

Mae Polisi TRA1 yn anelu at welliannau i isadeiledd presennol, yn ogystal â chyfnwid rhwng gwahanol ddulliau trafndiaeth er mwyn lleihau'r galw am deithio a dibyniaeth ar geir, ynghyd ag asesiadau trafndiaeth i'w cyflwyno gyda chynigion datblygu. Mae'r polisi hefyd yn ceisio gwelliannau i'r rhwydwaith drafnidiaeth strategol trwy ddiogelu a darparu tir ar draws tri chynllun, yr A487 Caernarfon i Bontnewydd, Ffordd Gyswllt Llangefni, a'r A5025 o Ddyffryn i Wylfa Newydd / Amlwch i Wylfa Newydd. Mae'r cynlluniau hyn yn gysylltiad strategol rhwng y datblygiad cyflogaeth arfaethedig ym Mhrosiect yr Wylfa a'r rhwydwaith drafnidiaeth ac aneddiadau cyfagos, gyda photensial o effeithiau cadarnhaol hirdymor.

Mae gan Bolisi TRA4 y potensial o gael mân-effeithiau cadarnhaol byrdymor neu hirdymor gan ei fod yn anelu at sicrhau bod pob datblygiad newydd yn rhoi sylw priodol o i'r galw am effeithiau teithio, yn cyfrannu at leihau dibyniaeth ar geir preifat, yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer hygyrchedd ac yn osgoi niwed annerbyniol i'r isadeiledd trafndiaeth presennol. Mae'r polisiâu eraill sy'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol yn cynnwys Polisi ISA/1, sy'n caniatáu datblygu dim ond lle mae capasiti digonol eisoes yn bodoli yn yr isadeiledd trafndiaeth, neu lle mae'n cael ei ddarparu yn amserol. Mae Polisi TRA3 yn amddiffyn hen lwybrau rheilffyrdd fel y gellir adfer y llwybrau i'w defnyddio yn y dyfodol. Mae hyn yn creu'r potensial o wella'r rhwydwaith trafndiaeth cyhoeddus dros yr hirdymor, a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol.

Mae'r polisiâu trafndiaeth yn cael eu cefnogi gan bolisiâu cyffredinol, megis polisi PS1 ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n ailddatgan y gobaith am well hunan-gynhwysiant mewn Canolfannau a Phentrefi, wedi eu cefnogi â dewis o ddulliau teithio, a Pholisi PS2 sy'n anelu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy annog teithio trwy ddulliau eraill heblaw ceir.

Bydd y polisiâu hyn yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar drafnidiaeth trwy gefnogi dulliau amgen o drafnidiaeth gynaliadwy a thrwy sicrhau bod datblygiad yn digwydd ochr yn ochr â gwelliannau priodol i'r isadeiledd trafndiaeth. Oherwydd natur wledig ardal y Cynllun bydd yn anodd i'r Cynllun sicrhau gostyngiad sylweddol yn yr angen i deithio ac i leihau dibyniaeth ar geir preifat. Mae'n debygol y bydd angen i gymunedau gwledig barhau i deithio i gyrchu gwaith a chyfleusterau cymunedol a byddant yn parhau i ddibynnu ar ddefnyddio cerbydau preifat. Bydd polisiâu'r Cyd-gynllun Adneuo yn lliniaru rhywfaint ar hyn ac yn sicrhau na cheir effaith sylweddol ar lefelau trafndiaeth.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Mae polisiâu'r Cyd-gynllun Adneuo yn ceisio mynd i'r afael ag effeithiau datblygiad arfaethedig ar y rhwydwaith ffyrdd bresennol gan geisio sicrhau bod isadeiledd priodol yn cael ei ddarparu. Mae'r Cynllun hefyd yn anelu at welliannau i'r isadeiledd presennol, yn ogystal â throsglwyddo rhwng gwahanol ddulliau trafndiaeth er mwyn helpu i leihau'r galw am deithio a'r ddibyniaeth ar geir. Mae gan hyn botensial ar gyfer effaith grynodol gadarnhaol yn yr hirdymor, ond oherwydd natur wledig y Rhanbarth y mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol gan y bydd yn rhaid i drigolion yr ardaloedd gwledig barhau i deithio i'r aneddiadau mwy i gyrchu ystod ehangach o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth.

### ***Cydberthynas â phynciau eraill***

Gall effeithiau cadarnhaol trafndiaeth a hygyrchedd arwain at effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd. Hefyd mae yna botensial ar gyfer effeithiau negyddol anuniongyrchol dan bynciau amgylcheddol fel ansawdd aer a dŵr.

## **Ansawdd yr Aer**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Yr Aer

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 3: Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd trwy hybu a chynnal mesurau lliniaru ac addasu

### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae polisiau Tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd- gynllun Adneuo yn anelu at ddarpariaeth o 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Mae gan y datblygiad arfaethedig y potensial o gynyddu lefelau trafndiaeth ac felly i gynyddu llygredd yr awyrgylch yn ardal y Cynllun, a allai gael effeithiau negyddol ar ansawdd yr aer. Yn y byrdymor ac yn y tymor canol gallai fod rhai mân-effeithiau negyddol ar ansawdd yr aer yn yr ardaloedd lle mae'r tagfeydd mwyaf ar hyn o bryd, yn arbennig mewn ardaloedd cyflogaeth a mân-werthu allweddol megis Bangor a Chaerdybi sy'n denu trigolion o bob rhan o ardal y Cynllun, yn ogystal â Phont Britannia. Mae hyn yn debygol o wella yn y dyfodol wrth i gerbydau newydd gyflawni safonau rheoli allyriadau caeth yr Undeb Ewropeaidd, ond mae hynny'n ansicr ar hyn o bryd. Mae gwell cysylltiadau trafndiaeth cyhoeddus i'r ardaloedd hyn yn debygol o leihau'r effeithiau negyddol, ond y mae'n dal i fod yn debygol y bydd mwy o drafnidiaeth yn yr ardaloedd hynny.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu ansawdd yr aer yn eu hardal o bryd i'w gilydd i ganfod a yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu cyflawni. Nid yw'r gwaith monitro a chofnodi a wneir gan gynghorau Ynys Môn<sup>2</sup> a Gwynedd<sup>3</sup> yn dangos bod unrhyw broblemau o bwys gydag ansawdd yr aer o fewn ardal y Cynllun ar hyn o bryd.

Mae Polisi PS2 yn anelu at ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy annog teithio trwy ddulliau eraill heblaw ceir, yn ogystal â chynyddu'r sinciau carbon sydd ar gael, er enghraifft trwy ddarparu coed ac isadeiledd gwyrdd. Mae Polisi TRA1 yn anelu at welliannau i isadeiledd presennol, yn ogystal â throsglwyddo rhwng gwahanol ddulliau teithio er mwyn cynorthwyo i leihau'r galw i deithio a gostwng dibyniaeth ar geir, ynghyd ag asesiadau trafndiaeth i fynd gyda chynigion datblygu. Mae gan Bolisi TRA4 y potensial i wneud mân-welliannau cadarnhaol gan ei fod yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd yn rhoi sylw priodol i'w heffaith ar deithio ac yn cyfrannu at leihau dibyniaeth ar geir preifat. Cefnogir y polisiau trafndiaeth gan bolisiau cyffredinol megis Polisi PS1 ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n ailddatgan y dyhead i sicrhau mwy o hunangynhwysiant mewn Canolfannau a Phentrefi lle mae dewis o wahanol ddulliau trafndiaeth.

Â chymryd y dystiolaeth bresennol ar ansawdd yr aer yn ardal y Cynllun, ystyrir na fydd y polisiau sydd yn y Cynllun na'r datblygiad arfaethedig yn cael effeithiau negyddol mawr ar ansawdd aer yn yr hirdymor. Yn y byrdymor mae potensial ar gyfer effaith negyddol; ond mae polisiau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at roi sylw i effeithiau datblygiad arfaethedig ar y rhwydwaith ffyrdd a gwella mynediad i ddulliau trafndiaeth cynaliadwy. Dylai'r effeithiau cadarnhaol a'r mesurau lliniaru a ddarparir gan Bolisi PS2 a pholisiau trafndiaeth sicrhau na fydd yr effeithiau negyddol byrdymor ddim yn sylweddol.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Ystyrir bod effeithiau negyddol crynodol mawr ar ansawdd yr aer yn annhebygol o ddigwydd o ganlyniad i'r Cyd-gynllun Adneuo. Mae polisiau yn anelu at ddelio ag effeithiau datblygiadau arfaethedig ar y rhwydwaith

<sup>2</sup> Cyngor Sir Ynys Môn Ansawdd Aer. Ar gael ar lein.: <http://www.anglesey.gov.uk/planning-and-waste/environmental-health/pollution/air-quality/>

<sup>3</sup> Cyngor Gwynedd Rheoli Ansawdd Aer Lleol : Ar gael ar lein: [http://www.gwynedd.gov.uk/gwy\\_doc.asp?doc=22183&Language=1&p=1&c=1](http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?doc=22183&Language=1&p=1&c=1)



ffyrdd ac at wella mynediad at ddulliau cynaliadwy o deithio. Er y gallai fod rhai effeithiau byrdymor mewn rhai ardaloedd lleol cyfyngedig o ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig, bydd y mesurau lliniaru a gynigir ym mholisiau'r Cynllun Lleol yn gofalu nad yw'r rhain yn arwyddocaol.

### ***Cyberthynas â phynciau eraill***

Mae cysylltiad agos rhwng ansawdd yr aer a thrafnidiaeth a hygyrchedd, gan fod lefelau uwch o draffig yn gallu arwain at lefelau uwch o lygredd yn yr awyrgylch. Ar sail canfyddiadau'r Asesiad Strategol mewn perthynas ag ansawdd aer a thrafnidiaeth a hygyrchedd, ystyrir bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol anuniongyrchol hirdymor ar ansawdd yr aer. Mae gan hyn y potensial o gael effeithiau negyddol anuniongyrchol hirdymor ar iechyd, ansawdd dŵr a'r amgylchedd naturiol.

### **Newid hinsawdd**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Ffactorau Hinsawdd

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 3: Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd trwy hybu a chynnal mesurau lliniaru ac addasu

### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae Polisiâu tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Mae gan hyn botensial o effeithiau negyddol ar newid hinsawdd gan y gallai darparu tai newydd a chyflogaeth arwain at lefelau uwch o drafnidiaeth ac felly at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Serch hynny, ar sail canfyddiadau'r Asesiad Strategol mewn perthynas â phynciau trafndiaeth a hygyrchedd ac ansawdd yr aer, uchod, ystyrir hi'n annhebygol y bydd polisiâu'r Cynllun Lleol yn cael effeithiau negyddol ar newid hinsawdd trwy gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, at y pynciau trafndiaeth a hygyrchedd ac ansawdd yr aer, uchod.

Mae potensial hefyd ar gyfer effeithiau negyddol trwy'r ynni corfforedig cynhenid a ddefnyddir i adeiladu a chynnal datblygiad. Mae dulliau a thechnolegau yn debygol o wella'r gostyngiad ym maint yr ynni corfforedig a ddefnyddir; ond mae hynny'n ansicr. Mae'r polisiâu cyffredinol wedi cael eu trefnu o amgylch y thema o fyw'n gynaliadwy, sy'n cynnwys rhoi sylw i'r ffactorau sy'n achosi newid hinsawdd yn ogystal ag ymaddasu i effeithiau presennol a chynyddol newid hinsawdd fel a amlinellir ym Mholisi PS1. Mae Polisi PS2 yn ymwneud yn benodol â'r agwedd hon, gan fynnu bod datblygiad yn ymateb i neu'n rhoi cyfrif am:

- Yr hierarchaeth ynni; lleihau'r galw am ynni, effeithiolrwydd ynni, a defnyddio technolegau ynni carbon isel a dim carbon;
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Gweithredu mesurau rheoli dŵr cynaliadwy, ac anelu at safonau uchel o effeithlonrwydd dŵr;
- Osgoi ardaloedd lle mae risg o lifogydd;
- Safonau uchel o ddylunio ac adeiladu cynaliadwy;
- Diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, ac amddiffyn ansawdd y pridd;
- Hybu rhandiroedd a chynhyrchu bwyd yn lleol; a
- Profi mesurau rheoli carbon, megis cysgod naturiol ac oeri, Isadeiledd Gwyrdd a choed.

Rhagwelir y bydd effeithiau llifogydd yn gwaethygu oherwydd newid hinsawdd. Trafodir effeithiau'r Cynllun ar ansawdd dŵr a'r risg o lifogydd yn yr adran berthnasol ar ddŵr.

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

Ystyrir bod mesurau lliniaru addas ar gael trwy gyfrwng y Cynllun ac ar lefel prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Mae potensial ar gyfer effeithiau crynodol hirdymor negyddol ar newid hinsawdd o ganlyniad i ddatblygu tir glas i gwrdd â'r targedau twf a ddynodir yn y Cynllun. Gall effeithiau crynodol negyddol eraill godi o'r cynnydd tebygol yn y boblogaeth, gwastraff, dŵr gwastraff, a thrafnidiaeth. Hefyd mae potensial ar gyfer effeithiau crynodol cadarnhaol o ganlyniad i gynnydd yn nifer y coed a'r isadeiledd gwyrdd mewn ardaloedd trefol, gan weithredu fel sinciau carbon yn ogystal â darparu cysgod.

### ***Cyberthynas â phynciau eraill***

Mae cysylltiad agos rhwng natur ac arwyddocad newid hinsawdd a llifogydd, ar y naill law, a thai, cyflogaeth a thrafnidiaeth ar y llall. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng llifogydd a chymunedau ac iechyd dynol, yn ogystal ag ansawdd dŵr. Gall cynnydd yn y risg o lifogydd gael effeithiau negyddol ar iechyd dynol yn ogystal â chael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar ansawdd dŵr a'r economi. Mae cysylltiad hanfodol rhwng llifogydd a newid hinsawdd ac mae'n effeithio'n sylweddol ar y defnydd o dir.

### **Adnoddau Dŵr, Ansawdd Dŵr a'r Risg o Lifogydd**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Dŵr

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 11: Diogelu ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy a lleihau i'r eithaf y risg o lifogydd

### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth yn fwyaf tebygol o godi o ganlyniad i bolisiau sy'n pennu maint a lleoliad twf arfaethedig. Ystyrir bod polisiau lefel uwch, megis Polisi PS1, yn cael effaith ansicr gan fod maint a lleoliad datblygiadau yn cael eu rhestru mewn polisiau eraill o'r Cyd-gynllun Adneuo polisiau. Mae Polisiau tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun i ddiwallu anghenion y Dosbarth yn y dyfodol, gyda'r potensial o gael effeithiau negyddol hirdymor ar adnoddau dŵr ac ansawdd trwy gynyddu maint y dŵr a echdynnir ar gyfer yfed a chynyddu lefelau'r gwaciadau a ganiateir.

Gall y cynnydd yn arwynebedd anhydraidd o ganlyniad i ddatblygu gael effaith ar ansawdd dŵr hefyd, trwy drosglwyddo llygryddion yng ngorlif y dŵr wyneb. Rhestrir lleoliadau datblygiad ym Mholisiau CFY1 a TA1/10 i TA1/12 ac er bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol; mae'n fwy priodol rhoi sylw i'r rheini trwy ystyried dyraniadau safle penodol.

Mae Polisi Strategol trosfwaol PS1 ar Ddatblygu Cynaliadwy yn anelu at:

- Leihau faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio a'i wastraffu;
- Lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr a'i ansawdd
- Rheoli'r risg o lifogydd;
- Mwyhau'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy; a
- Hybu amcanion Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru.

Cefnogir hyn mewn mwy o fanylder ym Mholisi Strategol PS2, sy'n anelu at fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd, ac mae llifogydd yn ffactor bwysig yn hynny. Mae'r polisi yn hyrwyddo profion cyfresol er mwyn

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

osgoi'r ardaloedd lle mae'r risg mwyaf o lifogydd, yn ogystal â safonau uchel o effeithiolrwydd dŵr a mesurau i wrthsefyll sychder a gwella ansawdd dŵr. Mae'r safonau hyn yn cael eu hailadrodd ym Mholisiau CYFF2 a CYFF3 ar ddylunio, tirweddu a ffurfio lleoedd, lle disgwylir bod datblygiad yn sicrhau y cyfyngir ar orlif dŵr wyneb a lle darparir arwynebau hydraid.

Mae Polisi CYFF5 yn anelu at sicrhau bod cynigion datblygu yn ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS). Y mae hefyd yn anelu at sicrhau bod datblygiad yn lleiafu'r risg o lifogydd ac yn osgoi ail-leoli'r risg o lifogydd. Ymhellach at hyn, mae Polisi AMG3 yn anelu at ddiogelu ansawdd dŵr ar hyd yr arfordiroedd sydd mor werthfawr.

Mae Polisiau'r Cyd-gynllun yn cydymffurfio â'r Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru<sup>4</sup>, sy'n gosod allan gyfeiriad polisi hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dŵr ac yn anelu at gydbwysio anghenion hirdymor yr amgylchedd gyda'r angen i sicrhau bod digon o adnoddau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff ar gael.

Â chymryd y mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisiau'r Cyd-gynllun Adneuo uchod, a phrosesau rheoleiddio cyfredol, megis y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr<sup>5</sup> a gynhyrchir gan Dŵr Cymru, ystyrir y gellir mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol sylweddol posibl a all ddigwydd yn sgil polisiau'r Cynllun. Ystyrir bod gweddill yr effeithiau yn niwtral, gydag elfen o ansicrwydd gan y byddant yn ddibynnol ar weithredu mesurau lliniaru.

Ystyrir bod y gwahanol bolisiau yn darparu mesurau lliniaru digonol i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr na'r risg o lifogydd o ganlyniad i ddatblygiadau arfaethedig. Bydd datblygiadau yn cael eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd lle mae risg o lifogydd a bydd potensial ar gyfer mân-effeithiau hirdymor cadarnhaol ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr.

Argymhellir y dylai Polisi CYFF5 restru targedau penodol ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth o safbwynt cadwraeth dŵr.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Rhwng popeth, ystyrir bod gan y Cyd-gynllun Adneuo botensial ar gyfer mân-effeithiau crynodol negyddol o dan y pwnc hwn, trwy ddarparu 7,184 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Mae polisiau'r Cyd-gynllun Adneuo yn amddiffyn yr amgylchedd dŵr ac yn annog cynnwys mesurau effeithlonrwydd dŵr a systemau draenio cynaliadwy yn ogystal â darparu'r isadeiledd angenrheidiol. Y maent hefyd yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae risg o lifogydd, gan ddefnyddio'r prawf cyfresol. Dylai mesurau lliniaru sicrhau na fydd effeithiau negyddol crynodol ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr a'r risg o lifogydd yn sylweddol. Ond mae elfen o ansicrwydd ynglŷn â hyn gan fod natur ac arwyddocad yr effaith grynodol yn dibynnu yn y pen draw ar i'r mesurau gael eu gweithredu.

### ***Cyberthynas â phynciau eraill***

Mae nifer o'r pynciau sy'n cael sylw yn yr Asesiad Strategol hwn yn effeithio ar, ac yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd dŵr. Gall effeithiau negyddol posibl ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr hefyd gael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd dynol a'r amgylchedd naturiol. Yn yr un modd, gall gwelliannau i adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr hefyd wneud budd o dan y pynciau hyn. Â chymryd bod y gwerthusiad wedi canfod nad yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd dŵr, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol sylweddol o dan unrhyw dopig arall.

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (2014) Drafft Ymgynghorol Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru.

<sup>5</sup> Dŵr Cymru (Ebrill 2014) Final Water Resources Management Plan Technical Report.

## Tirwedd

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Tirwedd

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 8: Gwerthfawrogi, diogelu a gwella tirwedd gwledig a threfweddau dinesig ardal y cynllun

### **Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau**

Mae gan y polisiau sy'n gosod allan faint (Polisiau SP11 & CYF1), dosbarthiad a lleoliad datblygiad (Polisiau PS3, TA1/10 to TA1/14) y potensial o gael effeithiau negyddol ar y dirwedd. Bydd natur ac arwyddocad yr effeithiau yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys union leoliad, graddfa, dwysedd a dyluniad y datblygiad yn ogystal â sensitifrwydd y dirwedd lle bydd yn digwydd. Hefyd mae potensial i'r datblygiad gael effeithiau cadarnhaol ar drefwedd neu dirwedd trwy adfywio safleoedd tir llwyd neu adeiladau a ystyrir yn ddolur llygad.

Bydd datblygiad tai yn cael ei ddsrannu yn ôl yr hierarchaeth o aneddiadau a restrir ym Mholisi PS3. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Mae rhai o'r aneddiadau hyn yn gorwedd o fewn neu yn agos at Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn a Llŷn yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Eryri. Nodir union leoliad y datblygiadau ym mholisiau TA1/10, TA1/11 a CYF1 ac er bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar y dirwedd ar lefel leol mae'n fwy priodol i'r rheini gael sylw trwy ystyried dyraniadau safleoedd penodol.

Mae polisiau yn anelu at gyfyngu ar ddatblygu yng nghefn gwlad agored ac yn cyfeirio datblygiad tuag at ardaloedd adeiledig sydd â mynediad addas i wasanaethau a chyfleusterau, gan roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir sydd wedi cael ei ddefnyddio yn flaenorol (e.e. Polisiau PS1 a CYFF1). Er gwaethaf y blaenoriaeth a roddir i ddefnyddio tir llwyd y mae'n anochel y bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at golli rhywfaint o dir glas a gallai hynny gael effaith negyddol ar y dirwedd.

Mae polisiau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddiogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Polisi AMG1), yn ogystal â hybu nodweddion a phriodweddau sy'n unigryw i gymeriad y dirwedd leol (Polisi AMG2), gan gynnwys nodweddion trefwedd traddodiadol fel patrwm strydoedd, strwythurau a'r ffordd y mae anheddau wedi cael eu gosod allan. Mae Polisi AMG2 yn cydnabod lleoliad ehangach yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol a'r Parc Cenedlaethol ac yn anelu at amddiffyn cymeriad y dirwedd sydd o amgylch yr ardaloedd hyn sydd wedi eu dynodi ar lefel genedlaethol. Mae ffin orllewinol ardal y Cynllun yn derfyn arfordirol ac yn nodwedd amlwg o'r dirwedd. Gan hynny mae'n cael ei ddiogelu ym Mholisi AMG3, sy'n cynnwys cefnogaeth i adleoli busnesau presennol o fewn y Parth Rheoli Newid Arfordirol.

Mae polisiau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at wella tirweddau a threfweddau trwy ddylunio o ansawdd uchel sy'n amddiffyn tirweddau, golygfeydd, awyrlin, asedau hanesyddol a lleoliadau o werth ac sy'n cynnwys manau agored newydd (e.e. Polisiau CYFF2 a CYFF3). Mae Polisi Strategol PS2 yn anelu at ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas er mwyn amddiffyn a gwella'r amgylchedd gwledig, yn ogystal â sicrhau nad yw gallu tirweddau i ymaddasu ar gyfer newid hinsawdd yn cael ei amharu, a bod amgylcheddau cyfatebol yn cael eu darparu i wneud iawn am golledion os oes angen.

Ystyrir bod y mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisiau'r Cyd-gynllun Adneuo yn ddigonol i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr ar y dirwedd. Mae datblygiad yn cael ei gyfeirio i ac oddi amgylch aneddiadau sy'n bodoli'n barod, gan roi blaenoriaeth i dir sydd wedi cael ei ddatblygu yn flaenorol. Mae ardaloedd tirwedd pwysig a sensitif yn cael eu gwarchod a bydd yn rhaid i bob cynnig datblygu ddangos ansawdd uchel o ddyluniad sy'n parchu'r dirwedd leol.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Mae gan y lefel twf a gynigir yn y Cynllun botensial i gael effeithiau negyddol hirdymor mawr ar y dirwedd. I fynd i'r afael â'r broblem y mae'r Cynllun yn anelu at gyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth yr amgylcheddau mwyaf sensitif, yn cefnogi datblygiad o ansawdd uchel sy'n parchu ac yn hyrwyddo'r dirwedd yn ogystal ag yn darparu mannau agored newydd ac Isadeiledd Gwyrdd o fewn y datblygiad newydd. Dylai'r mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisiau'r Cynllun ac sydd ar gael ar lefel prosiect leihau effeithiau negyddol er mwyn sicrhau nad ydynt yn arwyddocaol; serch hynny mae'r effaith grynodol gyffredinol yn parhau i fod yn ansicr. Mae datblygiad yn debygol o arwain at golli tir glas a thir amaethyddol, ac at newid y dirwedd i ryw raddau, a allai gael mân-effeithiau negyddol yn yr hirdymor.

### ***Cyberthynas â phynciau eraill***

Mae'r dirwedd yn dylanwadu ar ac yn cael ei effeithio gan nifer o'r pynciau sy'n cael eu hystyried yn yr Asesiad Strategol. Gall effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd dŵr, ansawdd aer, bioamrywiaeth, treftadaeth a phridd hefyd gael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar y dirwedd. Gall newidiadau yn y dirwedd effeithio yn gadarnhaol ac yn negyddol ar gymunedau ac iechyd.

#### **Bioamrywiaeth**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 1: Cynnal a hybu buddiannau a chysylltiadau bioamrywiaeth

### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth yn fwyaf tebygol o godi o ganlyniad i bolisiau sy'n pennu maint a lleoliad twf arfaethedig. Ystyrir bod polisiau lefel uwch, megis Polisi PS1 yn rhwym o gael effaith ansicr gan fod maint a lleoliad penodol y datblygiad yn cael eu nodi mewn polisiau eraill o'r Cyd-gynllun Adneuo. Mae Polisiau tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth i ddiwallu anghenion y Dosbarth yn y dyfodol ac mae gan hynny botensial i gael effeithiau negyddol hirdymor mawr ar fioamrywiaeth.

Mae Polisi PS1 yn rhoi blaenoriaeth i wneud defnydd effeithiol o dir, gan roi blaenoriaeth lle bo modd i aildefnyddio tir sydd wedi cael ei ddatblygu yn flaenorol o fewn ffiniau'r anheddiad. Mae hyn yn gadarnhaol o ran bioamrywiaeth oherwydd, er cydnabod y gall safleoedd tir llwyd fod yn bwysig, safleoedd tir glas sydd gan amlaf yn fwyaf gwerthfawr. Bydd datblygiad tai yn cael ei ddosrannu yn ôl yr hierarchiaeth o aneddiadau a restrir ym Mholisi PS3. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Er cydnabod bod nifer sylweddol o safleoedd dynodedig yn bodoli o amgylch aneddiadau, yn arbennig mewn safleoedd arfordirol, bydd y strategaeth ddosrannu o leiaf yn canolbwyntio twf yn yr aneddiadau presennol ac o'u hamgylch, gan osgoi'r ardaloedd mwy sensitif sydd heb gael eu datblygu.

Nodir union leoliad datblygiad ym mholisiau TA1/10, TA1/11 a CYF1 ac er bod potensial ar gyfer canlyniadau negyddol ar lefel leol trwy golli cynefinoedd; y mae'n fwy priodol rhoi sylw i'r rhain trwy ystyried dyraniadau safleoedd penodol. Mae perthynas rhwng y brif effaith negyddol sy'n debygol o godi o ganlyniad i bolisiau

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

datblygu strategaeth, a cholli a darnio cynefinoedd yn gyffredinol. Dylid gwarchod a chynnal coridorau cynefinoedd gan fod cydgyssylltiad cynefinoedd yn bwysig o ran hyfywedd bioamrywiaeth yn yr hirdymor.

Mae polisiau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at warchod a hybu bioamrywiaeth, ac mae gan hynny botensial i gael effeithiau cadarnhaol o'r byrdymor i'r hirdymor. Mae Polisi PS1 yn anelu at amddiffyn a gwella ardaloedd o werth bioamrywiol uchel, ac yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd mwyaf sensitif. Mae Polisi PS2 yn cydnabod rôl bioamrywiaeth mewn newid hinsawdd ac yn anelu'n arbennig at sicrhau'r buddion y gall rhai nodweddion naturiol penodol eu darparu (e.e. yr effaith o oeri sy'n gysylltiedig â choed). Mae Polisi CYFF3 yn anelu at adnabod a diogelu nodweddion naturiol megis coed, gwrychoedd a chrysiâu dŵr mewn datblygiadau, neu ddarparu rhai yn eu lle pan na fydd yn bosibl eu cadw.

Mae Polisiau AMG4 ac AMG5 yn ymrwmo i warchod a gwella ardaloedd cadwraeth bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol, a chyfeirio datblygiad oddi wrth yr amgylcheddau sensitif hynny. Mae'r rhain yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) A Safleoedd Bywyd Gwyllt (WS). Mae'r polisiau hefyd yn anelu at sicrhau rhwydwaith isadeiledd gwyrdd sydd wedi ei gyd-gysylltu er mwyn cynnal symudiad bywyd gwyllt yn ogystal â chynnal Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol (LBAP), gan anelu at ddatblygiad a fydd yn cyfrannu at dargedau LBAP. Lle bo angen mae Polisi EMG4 hefyd yn mynnu Asesiad Ecolegol i gyd-fynd â'r cais cynllunio.

Ystyrir bod polisiau'r Cyd-gynllun Adneuo, a amlinellir uchod, yn darparu mesurau lliniaru addas i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol o ganlyniad i lefel gyffredinol y twf arfaethedig.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Mae gan lefel y twf a gynigir yn y Cynllun y potensial o gael effeithiau negyddol hirdymor ar yr amgylchedd naturiol. I ddelio â hyn y mae'r Cynllun yn ceisio: cyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth yr amgylcheddau mwyaf sensitif, rhoi cefnogaeth i hybu cynefinoedd naturiol presennol a darparu mannau agored newydd ac isadeiledd gwyrdd o fewn datblygiadau newydd. Dylai'r mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisiau'r Cynllun ac sydd ar gael ar lefel prosiect, leihau effeithiau negyddol er mwyn sicrhau nad ydynt yn arwyddocaol o ran bioamrywiaeth; ond mae'r effaith grynodol gyffredinol yn parhau i fod yn ansicr. Mae datblygiad yn debygol o arwain at golli tir glas, a newid neu amharu ar gynefinoedd presennol i ryw raddau, naill ai trwy golli cydgyssylltiad neu trwy ddarnio cynefinoedd.

### ***Cyberthynas â phynciau eraill***

Mae'r amgylchedd naturiol yn dylanwadu ar ac yn cael ei heffeithio gan nifer o'r pynciau sy'n cael eu hystyried drwy'r Asesiad Strategol. Gall effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd naturiol, hefyd gael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd dynol, newid hinsawdd ac ansawdd dŵr. Yn yr un modd, gall gwelliannau i'r amgylchedd naturiol gael effaith fuddiol hefyd o dan y penawdau hyn. Ystyrir bod digon o fesurau lliniaru ar gael yn y Cynllun i sicrhau ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol sylweddol o dan unrhyw dopig arall.

#### **Pridd**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Pridd

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 9: Defnyddio pridd ac asedau mwynol yn effeithlon a hybu mecanweithiau i leihau gwastraff, aildefnyddio ac ailgylchu

#### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

Lle bo modd, mae'r polisïau yn blaenoriaethu'r defnydd o dir sydd wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol (Polisi PS1) ac yn ceisio osgoi datblygu yng nghefn gwlad agored ac mewn ardaloedd lle mae tir o ansawdd arbennig o dda, er enghraifft, mae Polisi Strategol PS2 yn ceisio gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Mae adran benodol ar fwynau yn dynodi Ardaloedd Diogelu Mwynau at y dyfodol (Polisi MWYN/1) a chyflenwad cynaliadwy o fwynau (Polisi MWYN/2). Ymhellach at hynny mae Polisi MWYN/3 yn dynodi'r Ardaloedd Blaenoriaeth Chwilio ar gyfer cyflenwadau'r dyfodol o dywod, graean a chreigiau mâl. Mae polisïau eraill yn gosod y meini prawf ar gyfer datblygiadau mwynol (Polisi MWYN/4) ac yn cefnogi cynhyrchu cerrig adeiladu lleol (Polisi MWYN/5) er mwyn cynnal arddull ac ymddangosiad adeiladau traddodiadol yn yr ardal. Mae Polisi MWYN/6 yn sicrhau y cynhelir parthau clustogi oddi amgylch safleoedd mwynol er mwyn lleiafu effeithiau echdynnu. Mae Polisi MWYN/10 yn caniatáu ar gyfer datblygu Pyllau Benthgylg lle bo'n briodol; mae pyllau benthgylg yn gyfryngau cyflenwi dros dro sy'n gallu lleihau effeithiau trafndiaeth a'r effeithiau amgylcheddol cysylltiedig.

Bydd twf yn ardal y Cynllun yn arwain yn anochel at golli tir glas a rhai ardaloedd o dir amaeth da, ac mae gan hynny botensial o effaith hirdymor negyddol ar dir a phriddoedd. Ond ystyrir bod mesurau lliniaru addas yn bodoli yn fframwaith y polisi er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Mar gan y twf a gynigir yn y Cyd-gynllun Adneuo botensial i gael effeithiau hirdymor negyddol ar briddoedd. I roi sylw i hyn y mae'r Cynllun yn anelu at: gyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth y tir o'r ansawdd uchaf, a darparu manau agored newydd ac isadeiledd gwyrdd o fewn datblygiadau newydd. Dylai'r mesurau lliniaru a ddarparir gan bolisïau'r Cynllun ac sydd ar gael ar lefel prosiect leihau effeithiau negyddol fel nad ydynt yn arwyddocaol o ran priddoedd, ond serch hynny mae'r effaith grynodol gyffredinol yn parhau i fod yn ansicr. Mae datblygiad yn debygol o arwain at golli tir glas a thir amaethyddol, a newid yn ansawdd y pridd mewn rhai ardaloedd.

### ***Cydberthynas â phynciau eraill***

Mae'r amgylchedd naturiol yn dylanwadu ar, ac yn cael ei heffeithio gan nifer o'r pynciau sy'n cael eu hystyried drwy'r Asesiad Strategol. Gall effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd naturiol, hefyd gael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd, newid hinsawdd a llifogydd, ansawdd yr aer ac ansawdd dŵr. Yn yr un modd, gall gwelliannau i'r amgylchedd naturiol gael effaith fuddiol hefyd o dan y penawdau hyn. Ystyrir bod digon o fesurau lliniaru ar gael yn y Cynllun i sicrhau ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol sylweddol o dan unrhyw dopig arall.

### **Cultural Heritage**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Treftadaeth ddiwylliannol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 4: Diogelu, hybu ac atgyfnerthu'r iaith Gymraeg
- Amcan Asesiad Strategol 5: Diogelu, hybu ac atgyfnerthu adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol

### ***Gwerthusiad o bolisïau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae Polisïau tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth er mwyn diwallu anghenion y Dosbarth yn y dyfodol. Er bod potensial i gael effeithiau negyddol arwyddocaol o ganlyniad i'r lefel twf a gynigir y mae natur ac arwyddocad yr effeithiau a ddaw yn sgil y polisïau hyn yn aneglur, gan eu bod yn dibynnu ar union leoliad y datblygiad arfaethedig a nodir mewn polisïau eraill.

## Atodiad 4 – Rhan 1 ARFARNIAD CYNALADWYEDD SAFLEOEDD

Bydd datblygiad tai yn cael ei ddsbarthu yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi PS3. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Trwy ganolbwyntio datblygiad mewn ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) mae potensial i gael effeithiau hirdymor negyddol arwyddocaol ar dreftadaeth yn yr ardaloedd hyn, sy'n cynnwys Henebion Rhestredig, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Yn groes i hynny, bydd hefyd yn helpu i osgoi a lleiafu effeithiau negyddol posibl ar asesiadau treftadaeth y tu allan i'r ardaloedd hynny. Gall datblygiad gael effaith gadarnhaol ar dreftadaeth hefyd trwy helpu i wella arwyddion neu hygyrchedd neu trwy adfywio safle tir llwya oedd cynt yn cael effaith negyddol ar dirwedd neu drefwedd. Mae natur ac arwyddocad yr effaith yn dibynnu ar union leoliad y datblygiad arfaethedig.

Mae Polisiâu TA1/10 a TA1/11 yn rhestru'r safleoedd a gynigir ar gyfer datblygiad yn y ganolfan isranbarthol, canolfannau gwasanaeth isranbarthol a chanolfannau gwasanaeth lleol. Mae'r safleoedd cyflogaeth a gynigir yn cael eu rhestru ym Mholisi CYF1. Mae'n fwy priodol ymdrin â materion sy'n ymwneud a safleoedd penodol trwy ystyried y dyraniadau safle, sy'n cael eu rhestru isod o dan bennawd ar wahân.

Mae'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at amddiffyn asedau treftadaeth gwerthfawr a'u lleoliadau a lleiafu effeithiau datblygu. Mae Polisi AT1 yn sicrhau bod datblygiadau yn rhoi ystyriaeth i strategaethau a fabwysiadwyd, gan gynnwys; Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth, Cynlluniau a Strategaethau Cyflawni, Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd a'r Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol arbennig yng Nghymru. Lle bo'n briodol mae hyn yn cynnwys yr angen am Aseiad Effaith Treftadaeth. Er yr anelir at ddiogelu asedau gwerthfawr, mae Polisi AT2 yn cydnabod hefyd y gall datblygu sicrhau cadwraeth ac y gall hybu rhai asedau (er enghraifft Adeiladau Rhestredig nas defnyddir) a thrwy hynny hyrwyddo eu hamgylchedd lleol a gwella lleoliadau treftadaeth. Gan hynny mae'r polisi yn gosod y meini prawf ar gyfer galluogi datblygu asedau hanesyddol.

Ymhellach, mae Polisi AT3 yn cyfeirio at asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi, ond eu bod o bwys lleol neu ranbarthol, ac mae'n ceisio diogelu'r asedau hyn a'u hamgylcheddau trwy ddatblygu cydymdeimladol sy'n cefnogi'r cymeriad a'r hunaniaeth leol. Gweithredir yn yr un ffordd i ddiogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi cael eu dynodi a gall fod angen asesiadau archeolegol lle bernir fod angen hynny, Yn yr achos hwn mae treftadaeth ddiwylliannol yn cynnwys diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel a fynegir ym Mholisi PS1.

Mae polisiâu'r Cynllun Lleol yn anelu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac osgoi datblygiad a fydd yn cael effaith ar arwyddocad asedau treftadaeth. Mae mesurau yn bodoli i sicrhau y bydd cynigion datblygu yn cymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl ar dreftadaeth, gan ddarparu mesurau lliniaru priodol lle bo angen. Gan hynny ystyrir bod mesurau lliniaru addas yn bodoli i sicrhau na fydd polisiâu'r Cyd-gynllun Adneuo yn cael effeithiau negyddol mawr ar dreftadaeth. Ond mae elfen o ansicrwydd yn parhau hyd nes y bydd asesiadau lefel prosiect wedi cael eu gwneud a mesurau lliniaru wedi cael eu gweithredu.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Rhwng popeth, mae'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddiogelu a hybu treftadaeth, yn ogystal ag osgoi datblygiad a fydd yn cael effaith negyddol ar arwyddocad asedau treftadaeth neu eu lleoliad. Er cydnabod bod gan ddatblygiad y potensial i gael effaith negyddol ar dreftadaeth ystyrir hefyd bod cyfle i sicrhau effeithiau cadarnhaol trwy wella asedau a hyrwyddo gwell mynediad. Mae mesurau lliniaru addas ar gael i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol er mwyn sicrhau nad ydynt yn arwyddocaol; ond mae effeithiau crynodol cyffredinol y Cynllun Lleol ar dreftadaeth yn parhau i fod yn ansicr.

### ***Cyberthynas gyda phynciau eraill***

Mae gan Dreftadaeth gysylltiadau gyda nifer o bynciau eraill gan y gall tai a chyflogaeth effeithio ar hyn, yn ogystal â'r amgylchedd naturiol (effeithiau tirwedd). Gall diogelu a hybu treftadaeth gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd hefyd.



## **Gwastraff ac Ailgylchu**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Asedau materol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 9: Defnyddio pridd ac asedau mwynol yn effeithlon a hybu mecanweithiau i leihau gwastraff, aildefnyddio ac ailgylchu

### ***Gwerthusiad o bolisiau'r CDLI ar y Cyd Adnau***

Mae potensial y gall darparu tai a thwf mewn cyflogaeth (Polisiau PS11 a CYF1) gael effaith negyddol ar wastraff o'r byrdymor i'r hirdymor. Yn y byrdymor bydd mwy o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnodau adeiladu, ac yn yr hirdymor o ganlyniad i'r gwastraff a gynhyrchir o ddydd i ddydd gan y teuluoedd ychwanegol a'r ardaloedd cyflogaeth.

Mae Polisi Strategol trosfwaol PS1 at Ddatblygu Cynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i wneud defnydd effeithiol o dir, yn arbennig tir sydd wedi cael ei ddefnyddio yn flaenorol, ac mae'n ceisio lleihau effaith datblygiad ar adnoddau lleol; osgoi llygredd, ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu at gadwraeth ynni ac effeithiolrwydd trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy, lleihau ac ailgylchu gwastraff, a defnyddio defnyddiau o ffynonellau cynaliadwy.

Mae Polisi CYFF1 yn sicrhau bod y datblygiad yn darparu'r ardal amwynderau priodol a'i fod y rhoi sylw priodol i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff. Mae'r polisi hefyd yn amddiffyn iechyd, diogelwch a mwynderau pobl yn ardal leol y datblygiad rhag lefelau annerbyniol o amhariad, dirgryniad, sŵn, llwch, tARTHau, sbwriel, draeniad, llygredd aer a niwsans. Mae defnyddio adnoddau yn effeithiol yn fater sy'n cael ei ailadrodd mewn llawer o bolisiau unigol ac mae adran bolisi benodol yn delio â gwastraff, er mwyn sicrhau bod isadeiledd digonol ar gyfer rheoli gwastraff ac ailgylchu dros gyfnod y Cynllun (Polisi G1), ac y gall datblygu rheoli gwastraff ddigwydd y tu allan i ffiniau aneddiadau neu safleoedd a ddyrennir pan fydd angen cydnabyddedig am ddatblygiad o'r fath (Polisi G2). Mae'r polisiau hyn yn darparu mesurau lliniaru priodol ar lefel strategol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol o ganlyniad i'r gwastraff byrdymor neu hirdymor a gynhyrchir o ganlyniad i dwf mewn tai a chyflogaeth.

Dylid nodi hefyd bod Polisi G3 yn caniatáu ar gyfer trin, storio a gwaredu gwastraff ymbelydrol Lefel Isel ac Isel lawn, ac yn gosod y meini prawf i wneud y gweithgareddau hynny yn dderbyniol. Mae'r polisi yn cefnogi datblygu'r sector ynni, sydd o berthnasedd mawr yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r polisi hwn yn bwysig oherwydd y potensial o ddatblygu gorsaf ynni niwclear newydd yn y Wylfa ar Ynys Môn.

### ***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

Ystyrir bod gan y Cynllun y potensial i gael mân-ffeithiau crynodol negyddol ar wastraff ac ailgylchu o'r byrdymor i'r hirdymor trwy ddarparu ar gyfer twf mewn tai, cymuned a chyflogaeth, gan gynyddu cyfradd gyffredinol cynhyrchu a gwaredu gwastraff. Y ffordd y mae Ynys Môn a Gwynedd wedi gweithredu ar hyn yw mabwysiadu dull strategol llyfn a di-dor o gynllunio ac mae gan ardal y Cynllun botensial ar gyfer mân-ffeithiau crynodol gadarnhaol trwy reoli a chynllunio gwastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy ar raddfa ehangach.

### ***Cydberthynas â phynciau eraill***

Gall gwastraff effeithio yn negyddol yn anuniongyrchol ar ansawdd tir a phridd, iechyd, ansawdd dŵr a'r aer, yn arbennig wrth ymdrin â gwastraff ymbelydrol lefel isel. Ond dylai'r dull o storio a thrin gwastraff a amlinellir uchod sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol mawr ar unrhyw un o Amcanion eraill yr Asesiad Strategol.

## **DRAFFT Aseiad Cynladwyedd o'r CDLI ar y cyd Adnau – Safleoedd**

### ***Opsiynau Safleoedd***

Cydweithiodd Enfusion a'r Cynghorau ar y cyd yn ystod yr hydref/gaeaf 2013 i integreiddio Amcanion yr AC i Broses a Methodoleg Safleoedd Posib y CDLI ar y Cyd<sup>1</sup>. Pwrpas y gwaith hwn oedd creu cysylltiad amlwg rhwng y broses AC a dull arfarnu safleoedd y Cynghorau eu hunain, a sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth i faterion AC yn erbyn yr holl safleoedd posib. Mae'r broses safleoedd posib wedi caniatáu i'r Cynghorau adnabod nifer o opsiynau safleoedd rhesymol<sup>2</sup>.

Yn y cam hwn, nid yw'n debygol y bydd y mwyafrif o'r opsiynau safle a ystyrir drwy AC yn cael effeithiau arwyddocaol eu hunain, ac nid yw hyn yn syndod o ystyried bod y Broses a'r Fethodoleg Safleoedd Posib yn rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau a derbynyddion sensitif. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd sydd mewn perygl uchel o orlifo, ynghyd ag ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer bioamrywiaeth, treftadaeth neu bwysigrwydd y dirwedd. Un o agweddau allweddol y gwaith AC sy'n parhau fydd ystyried ac ymdrin ag effeithiau cronus posib yr opsiynau safle, yn enwedig o ran aneddiadau.

Bydd yr Adroddiad AC fydd yn cyd-fynd â'r CDLI ar y Cyd – Drafft Adneuo yn yr ymgynghoriad, yn nodi canfyddiadau'r gwaith hwn ynghyd â nodi'r rhesymau pam y dewiswyd neu y gwrthodwyd opsiynau safle rhesymol.

---

<sup>1</sup> Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Ionawr 2014) JLDP Y Broses a'r Fethodoleg Safleoedd Posib – Wedi'i diweddaru i gynnwys Materion AAS. Ar gael ar-lein:

[http://www.gwynedd.gov.uk/gwy\\_doc.asp?cat=8151&doc=29662&Language=1&p=1&c=1](http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=8151&doc=29662&Language=1&p=1&c=1)

<sup>2</sup> O ran y CDLI ar y Cyd a'r AC, mae safle rhesymol yn un sy'n realistig ac yn un y mae modd ei gyflwyno o fewn sgôp ac amserlen y Cynllun.

## ASESIAD EFFAITH IEITHYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o wead cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac yn adlewyrchiad o'u traddodiadau a'u diwylliant. Er mwyn sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol wrth feddwl am newid ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa, a bod y datblygiadau newydd a gynllunnir yn addas a pherthnasol. Mae'r broses gynllunio gwlad a thref yn rheoleiddio datblygiadau newydd, ac oherwydd hynny mae'n un elfen bwysig a dylanwadol wrth lunio newid mewn cymdeithas.

### 2. Cefndir

2.1 Er bod methodoleg sefydledig yn bodoli ar gyfer asesu effaith ieithyddol (AEIG) ceisiadau datblygu penodol, cydnabyddir bod y maes asesiadau iaith yng nghyd-destun cynlluniau datblygu yn arbenigedd sydd yn dal i gael ei ddatblygu. At ddibenion asesu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd sy'n dod i'r amlwg, crëwyd methodoleg sy'n seiliedig ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) '*Cynllunio a'r Iaith Gymraeg*' Ynys Môn a Gwynedd a phapur '*Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen*' (2005).

2.2 Cydnabyddir bod Asesiad o Effaith Ieithyddol y Cynllun yn broses ailadroddus a bydd angen adolygu'r asesiad pan fydd agweddau o'r cynllun yn newid. Dylid nodi hefyd bod y fethodoleg AEIG yn broses oddrychol a fwriedir i sefydlu'r effeithiau tebygol sy'n deillio o bolisi neu gais.

2.3 Gall AEIG y Cynllun gael ei rannu'n dri cham gwahanol o ddatblygiad Cynllun: y Strategaeth a Ffefrir; Safleoedd Datblygu a'r Polisiau manwl a gynhwysir yn y Cynllun Adnau. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canlyniadau AEIG y Strategaeth a Ffefrir ac yn rhoi canlyniadau asesiad ieithyddol y Safleoedd Datblygu a Pholisiau manwl.

### 3. AEIG y Strategaeth a Ffefrir

3.1 Bu'r Strategaeth a Ffefrir (sy'n darparu gweledigaeth, amcanion y Cynllun sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â'r opsiynau twf a ffefrir) yn destun i Asesiad Effaith Ieithyddol fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth. Gweler isod grynodedb o ganlyniadau'r asesiad.

#### AEIG o'r Opsiwn Twf Tai

3.2 Roedd y Strategaeth a Ffefrir, a oedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ym Mai 2013, yn cynllunio ar gyfer 7,665 o unedau tai yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun (2011-2026). Roedd hyn yn cyfateb i 3,373 o unedau tai yn Ynys Môn a 4,252 yng Ngwynedd. Gyda lwfans llithriad o 10%, roedd y gofyniad tai cyffredinol yn cynyddu i 8,431 o unedau.

3.3 Mynegwyd pryderon gan Lywodraeth Cymru a phartïon eraill ynghylch y lefelau hyn o dwf tai. Roedd y rhain yn amrywio o Lywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cyfiawnhad digonol yn

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

cael ei ddarparu ynghylch gwyro oddi wrth yr amcanestyniadau cenedlaethol i wahanol safbwyntiau yn bennaf o du'r diwydiant datblygu a thirfeddianwyr y dylai fod yn uwch, a rhai cymunedau, unigolion neu grwpiau lleol yn credu y dylai fod yn is.

- 3.3 Mewn ymateb i'r sylwadau ac adolygiad o amgylchiadau lleol, adolygwyd y targedau tai. Seiliwyd y ffigyrau tai diwygiedig ar ddadansoddiad o nifer o senarios twf ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru (sail 2011), yn ogystal ag ystyriaeth o ffactorau dylanwadol, a oedd yn cynnwys amcanestyniadau canol-blwyddyn wedi'u diweddarau, newidiadau mewn penderfyniadau buddsoddwyr sydd wedi arwain at oedi mewn prosiectau arbennig e.e. Wylfa Newydd, a thwf ar ôl y dirwasgiad, sydd wedi bod yn raddol.
- 3.4 Awgryma'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2011 tra bydd twf aelwydydd yn parhau ar draws Gwynedd, rhagwelir y bydd lefel y newid rhwng 2011 a 2026 yn is nag yr awgrymwyd gan yr amcanestyniadau aelwydydd blaenorol yn seiliedig ar 2008. Mae gwahaniaeth amlwg yn yr amcanestyniadau 2011 ar gyfer Ynys Môn, gyda'r prif amcanestyniad 75% yn is, a'r tueddiad mudo 10 mlynedd 52% yn is, na phrif amcanestyniadau sail-2008.
- 3.5 Golyga'r lefel twf tai diwygiedig ar gyfer yr ardal y ceir tua 526 o unedau tai y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y CDLI ar y Cyd. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 7,902 o unedau tai ychwanegol erbyn 2026 (mae hyn yn cynnwys lwfans llithriad o 10%). Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r newid trawsnewidiol a ragwelir i'r economi leol o ganlyniad i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun ac mewn ardaloedd cyfagos. Rhagwelir y bydd llawer o'r angen am dai newydd yn digwydd yn ystod ail hanner cyfnod y Cynllun. Bydd y raddfa o newid yn gysylltiedig â llwyddiant strategaethau pob Cyngor i gadw cyfran uwch o bobl leol o oedran gwaith yn yr ardal. O'r herwydd, credir y bydd yr opsiwn twf hwn yn cwrdd ag anghenion y poblogaethau lleol.
- 3.6 Oherwydd natur strategol yr opsiwn twf tai, roedd yn anodd rhagweld yn fanwl union amrediad yr effeithiau posib ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Gall tai newydd arwain at fewnllifiad o nifer gyfrannol fawr o drigolion di-Gymraeg i ardal a, gan ddibynnu ar eu dosbarthiad gofodol, gallai danseilio'r cymunedau iaith llai sy'n rhai iaith Gymraeg yn bennaf. Ar y llaw arall, gallai lefel y twf gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol. Fodd bynnag, mae data gwaelodlin yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl sy'n symud i gartrefi newydd eisoes yn byw yn naill ai Gwynedd neu Ynys Môn, sy'n awgrymu na fydd unrhyw effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg, yn ôl pob tebyg. Mae p'un a yw patrwm a graddfa'r datblygiad yn effeithio ar nifer siaradwyr Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar broffil ieithyddol aneddiadau unigol lle cyfeirir y datblygiad, argaeledd seilwaith cymunedol lleol sy'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, yn ogystal â, er enghraifft, cyfleoedd i weld, clywed a defnyddio'r iaith yn y gweithle. Yn wir, bydd yr union effaith ar yr iaith yn dibynnu ar ffactorau niferus, a dim ond rhan o'r fformiwla yw lleoliad a graddfa'r datblygiad.

3.7 Er mwyn cynorthwyo'r asesiad o effaith bosibl, diweddarwyd y proffil iaith Gymraeg, lluniwyd proffiliau aneddiadau, a chynhaliwyd asesiadau effaith ieithyddol mewn aneddiadau unigol fel y'u diffinnir yn y Strategaeth a Ffefrir.

3.8 **Ystyriwyd bod y lefel twf tai diwygiedig yn realistig ac yn annhebygol o gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg** am y rhesymau canlynol:

- Mae'r lefel twf tai arfaethedig yn cwrdd â'r angen yn ardal y Cynllun, tra'n caniatáu niferoedd digonol i gefnogi dyheadau twf economaidd, ac mae darparu digon o dai a thwf economaidd yn elfennau pwysig o leihau allfudiaeth o bobl (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) o'u cymunedau.
- Rhagwelir y bydd y gyfradd twf tai yn raddol yn ystod camau cynnar gweithredu'r Cynllun, cyn cynyddu'n sylweddol yn ystod yr hanner olaf y cyfnod y cynllun. Bydd y patrwm datblygu hwn yn caniatáu i gymunedau addasu i dwf tai.
- Mae'r targed diwygiedig ar gyfer tai a argymhellir yn cyfuno'r rhagolygon economaidd a demograffig mwyaf diweddar yng nghyd-destun y farchnad dai leol, cynladwyedd cymunedol a chyfyngiadau amgylcheddol yn ardal y Cynllun, sy'n golygu bod y nifer arfaethedig o dai yn briodol. Hefyd mae dosbarthiad cymesur o ddatblygiad a gynigir gan y Strategaeth a Ffefrir yn golygu na fydd tai yn cael eu harwain yn ormodol i aneddiadau penodol. Felly, mae'n annhebygol iawn y bydd y twf arfaethedig mewn tai yn arwain at naill ai gorddarpariaeth na phrinder tai – y gallant ill dau gael effeithiau andwyol ar gymunedau ac yn dilyn o hynny, ar fywiogrwydd yr iaith Gymraeg.
- Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar anghenion datblygiad a aseswyd ac a flaenoriaethwyd yn wrthrychol ar draws ardal y Cynllun. Hefyd mae'r Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth o Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai bob Cyngor, Asesiadau o'r Farchnad Dai, Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy, Astudiaeth Llety Gweithwyr Adeiladu Ynys Môn, Tybiaethau Ynys Ynni. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol ac felly'r Strategaethau Tai hefyd yn arwain dull y Cyngor o annog tai i gwrdd ag amgylchiadau lleol. Mae hyn wedi sicrhau ymhellach bod nifer y tai arfaethedig yn briodol, a dylai hynny gyfrannu at ddatblygiadau cynaliadwy yn Ardal y Cynllun, ac felly osgoi effeithiau andwyol ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.
- Mae'r broses o sefydlu lefel y twf wedi dilyn gofynion polisi cynllunio cenedlaethol gan adlewyrchu amgylchiadau lleol, ac mae wedi ystyried ymatebion yn ystod cyfnodau ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Felly mae'r ffigyrau wedi eu seilio ar broses ddemocrataidd gynaliadwy.

#### AEIG o Opsiwn Gofodol Tai

3.9 Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol a gynhaliwyd fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir yn dangos bod y strategaeth ofodol **yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg**. Dylai dosbarthiad cymesur o ddatblygiad ar hyd a lled ardal y Cynllun, gan gynnwys y cefn gwlad,

helpu i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, a chyfleusterau a gwasanaethau cymorth yn lleol. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth gynhenid, ac felly dylai hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg, ar y cyd â mesurau eraill (sy'n cynnwys Siarter Iaith Gymraeg mewn ysgolion cynradd, mentrau gan Hunaniaith a Menter Iaith Môn). Bydd y dosbarthiad gofodol tai a ffefrir hefyd yn golygu y bydd y dosbarthiad datblygiadau yn aneddiadau ardal y Cynllun ar raddfa addas, yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau, sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o aneddiadau gwahanol. Mae hyn yn golygu na fydd gorddarpariaeth o dai yn cael ei gyfeirio i unrhyw un anheddiad unigol.

### Crynodeb

- 3.10 Oherwydd natur strategol y cynllun ar y cam hwn, roedd yn anodd rhagweld yr union amrediad o effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg. Golygai diffyg polisiâu a cheisiadau datblygu penodol (gan gynnwys safleoedd) bod llawer o'r asesiad yn seiliedig ar ragdybiaethau. Bydd yr union effaith ar yr iaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys lleoliad a maint y datblygiad.
- 3.11 Fodd bynnag, ar y cyfan mae'r asesiad wedi dangos bod y Strategaeth a Ffefrir yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Mae'r asesiad wedi dangos nad yw'r strategaethau gofodol a thwf yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal, a allai effeithio ar hyfywedd yr iaith. Mae'r ystod o gyfleoedd a ddarperir gan y strategaeth sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys: cymysgedd o fathau o dai (gan gynnwys tai fforddiadwy) sy'n diwallu anghenion lleol, twf economaidd lleol, cyfleusterau cymunedol, gwelliannau amgylcheddol, yn ogystal â gwarchod a gwella asedau diwylliannol gan gynnwys yr iaith Gymraeg; dylai hyn wella dymunoldeb yr ardal. Yn ei dro, dylai hyn hefyd helpu cadw'r boblogaeth bresennol sy'n siarad Cymraeg, a hyd yn oed ddenu trigolion sy'n siarad Cymraeg yn ôl i'r ardal.

## **4. AEIG o Safleoedd Datblygu**

- 4.1 Er mwyn asesu effaith potensial ar yr iaith Gymraeg mor gywir ag y bo modd, roedd yn hanfodol bod effaith gronol datblygu'r holl safleoedd posibl mewn anheddiad penodol yn cael ei gwerthuso. Cafodd bob safle ei asesu ar y dybiaeth bod dwysedd tai o 30 uned yr hectar (uph) yn cael ei ddatblygu ar bob safle; dyma a ddefnyddir fel dwysedd datblygu cyffredinol ar gyfer pob safle a ddyrannwyd yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd a fabwysiadwyd, a Chynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd. Dylid cofio, fodd bynnag, y bydd dwysedd gwirioneddol safle datblygu yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys lleoliad, topograffi, a chymeriad cyffredinol yr ardal gyfagos. Felly bydd y dybiaeth o ddwysedd o 30 uph yn cael ei defnyddio'n fras, a dim ond fel canllaw.
- 4.2 A chymryd bod dwysedd o 30 uned yr hectar yn cael ei ddefnyddio ym mhob safle, gellir amcangyfrif faint o unedau a fyddai ym mhob safle ymgeisiol, a gellir gwneud tybiaeth fwy cywir ynglŷn â'r effaith botensial ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â'r canllawiau a gynhwysir yn CCA

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' Gwynedd a Môn, dim ond y safleoedd sydd â lle i 5 neu fwy o unedau yn seiliedig ar y canllaw dwysedd o 30 uned yr hectar fu'n destun i Asesiad Ieithyddol.

- 4.3 Er mwyn arwain yr asesiad o safleoedd datblygu, rhoddwyd ystyriaeth i feini prawf penodol, a addaswyd o'r fframwaith asesu ar gyfer Datganiadau Ieithyddol ac Asesiad Effaith Ieithyddol fel yr amlinellir hwy yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' mabwysiedig.
- 4.4 Er mwyn hwyluso asesiad deallus, gwnaed penderfyniadau'n seiliedig ar broffiliau aneddiadau a gynhyrchwyd fel rhan o'r broses. Roedd y proffiliau hyn yn cynnwys amrywiaeth o ystadegau a ystyrir yn bwysig o ran dylanwadu ar ddefnydd a bywiogrwydd yr iaith Gymraeg. Hefyd defnyddiwyd data ar lefel y ward fel rhan o'r broses asesu. Byddai hyn i gyd yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail data gwaelodlin cadarn, gwybodus a chywir. Felly gwnaed penderfyniadau ar ddata meintiol, gan ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu ar faint a thebygolrwydd yr effaith bosibl a gâi'r datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Cytunwyd drwy drafodaethau gyda swyddogion iaith perthnasol y dylai ardaloedd lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn llai na 70% gael eu hystyried yn anghynladwy o ran yr iaith Gymraeg, a dylid ystyried hyn fel rhan o'r broses asesu. Gweler asesiad cynhwysfawr o'r holl aneddiadau yn Atodiad 1.

### 5. AEIG o Bolisiau Manwl

- 5.1 Mae polisiau manwl y Cynllun yn darparu gofynion perthnasol mwy penodol o ran datblygu, er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir. Darperir asesiad cynhwysfawr o'r Polisiau manwl yn Atodiad 2.
- 5.2 Mae'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys nifer o bolisiau manwl a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, ac ar yr un pryd yn lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar fywiogrwydd yr iaith. Mae darparu tai addas a fforddiadwy yn hanfodol i gadw poblogaethau yn eu cymunedau. Mae polisiau tai y Cynllun, yn arbennig, TAI/1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI/4 (Tai Marchnad Leol) a TAI/8 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy) yn anelu at hwyluso datblygiad y math cywir o dai sy'n cwrdd ag anghenion lleol, a ddylai annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau. Gallai darpariaeth o'r fath hefyd arwain at annog pobl sy'n siarad Cymraeg a oedd wedi gadael yr ardal yn flaenorol i ddod yn ôl.
- 5.3 Mae bywiogrwydd a hyfywedd cymunedol hefyd yn cael ei wella drwy wahanol bolisiau yn y Cynllun. Bydd y rhain yn helpu mentrau cymorth sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf, sy'n cynnwys parchu a gwella'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Bydd Polisiau ISA1 (Darpariaeth Isadeiledd) ac ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol), er enghraifft, yn diogelu ac yn sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a gwell lle bo'n briodol, a ddylai wedyn wella cydlynid cymdeithasol ac integreiddio. Byddai cyfraniadau i sicrhau seilwaith cymunedol priodol drwy fecanweithiau cynllunio lle bo hynny'n briodol yn adeiladu ar fentrau a hyrwyddir gan y Cyngor, Hunaniaith a Menter Iaith Môn.

- 5.4 Hwylusir cyfleoedd gwaith drwy'r Cynllun. Bydd polisiâu manwl yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau o fewn ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd gwledig, a dylai hynny gyfrannu at ddatblygiad economaidd amrywiol. Bydd datblygu economaidd gwledig hefyd yn helpu i gadw trigolion gwledig Cymraeg eu hiaith yn eu cymunedau, a thrwy hynny bydd o fudd i'r iaith Gymraeg. Mae nifer o bolisiâu economaidd yn hwyluso datblygiad i ddefnydd cyflogaeth, gan gynnwys arallgyfeirio amaethyddol ac adfywio safleoedd, a fydd yn y pen draw yn cynyddu y nifer o swyddi, yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Gallai cyfleoedd cyflogaeth priodol hefyd arwain at annog pobl sy'n siarad Cymraeg, a oedd wedi gadael yr ardal yn flaenorol i chwilio am waith, i ddod yn ôl.
- 5.5 Mae fframwaith polisi'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn creu fframwaith ar gyfer hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn effeithiol. Dylai'r holl ystod o gyfleoedd a ddarperir gan bolisiâu manwl, gan gynnwys darparu amrywiaeth o fathau o dai, twf economaidd lleol a diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gyfrannu at wella bywiogrwydd yr iaith Gymraeg. Mae'n bwysig nodi na all y Cynllun ddylanwadu ar fywiogrwydd yr iaith Gymraeg ar ei ben ei hun. Felly mae'n hanfodol bwysig ei fod yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynlluniau a strategaethau perthnasol eraill, fel bod unrhyw effeithiau andwyol posibl yn cael eu lleihau a'u lliniaru.



## APPENDIX 1: LIA OF DEVELOPMENT SITES WITHIN SETTLEMENTS

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL PORTHMADOG

## Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

## Porthmadog

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae Porthmadog wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **301** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Porthmadog (hyn yn cynnwys ffigur o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).
- Mae rhan helaeth o'r dref a'r tiroedd ymylol yn dioddef o berygl o llifogydd ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y Twf disgwylidig o fewn y ganolfan.

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Porthmadog	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	72.1	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	13.3	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Dwyrain Porthmadog -2.4 Gorllewin Porthmadog -14.5 Porthmadog-Tremadog -14%	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Dwyrain Porthmadog -4.9 Gorllewin Porthmadog -12 Porthmadog-Tremadog -3.7	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Dwyrain Porthmadog 5.7 Gorllewin Porthmadog	6.1

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

	8 Porthmadog-Tremadog 8.1	
<b>Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)</b>	3.9%	3.5%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 301 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 20 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 72.1%, sydd 2.1% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad gymharol sylweddol yn nghanran siaradwyr Cymraeg wedi digwydd rhwng 2001 a 2011 yn arbennig felly yn wardiau Gorllewin Porthmadog (-14.5%) a Phorthmadog-Tremadog (-14%).
- Fforddiadwyedd tai yn amrywio o fewn y ganolfan gyda thai yn llai fforddiadwy na chyfartaledd Gwynedd yng Ngorllewin Porthmadog a Phorthmadog-Tremadog.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (71% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 94 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.9% o'r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Eifion Wyn yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Yn ôl ffigyrau 2012, mae 15 o lefydd gwag yn yr ysgol.
- Cyfradd uchel o ail gartrefi yn yr ardal.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod 65.2% o boblogaeth rhwng 16-74 mlwydd oed ym Mhorthmadog mewn gwaith. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth rhwng 3 a 64 sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng ers 2001 yn y tair ward yn enwedig yn wardiau Gorllewin Porthmadog a Porthmadog-Tremadog. Mae'n bwysig, felly, hyrwyddo datblygiad fyddai'n denu'r boblogaeth hwn / cadw'r boblogaeth bresennol yn y gymuned.

### Casgliadau

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **301** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Porthmadog (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).*

Mae Porthmadog yn ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym Mhorthmadog gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal -

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

72.1%, sydd 2.1% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer siaradwyr Cymraeg yn wardiau Porthmadog-Tremadog a Gorllewin Porthmadog. Gwelwyd gostyngiadau sylweddol hefyd yng nghyfran siaradwyr Cymraeg. Nodir fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd. Mae ail gartrefi'n broblem arwyddocaol ym Mhorthmadog ac mae posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn. Am y rhesymau hyn, ystyrir y dylid ymgorffori mesurau lliniaru penodol yn yr ardal yn enwedig felly, darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Yn amodol ar weithrediad llwyddiannus mesurau lliniaru priodol, ni ddylai lefel twf disgwylidig y ganolfan gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a byddai'n cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal.

Mae rhan helaeth o'r dref a'r tiroedd ymylol yn dioddef o berygl o llifogydd ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y twf disgwylidig o fewn y ganolfan. Oherwydd prinder safleoedd posib y tu allan i'r ardal perygl o lifogydd bydd yn rhaid ail-ddosbarthu oddeutu 180 o unedau twf porthmadog gabnolfannau cyfagos sef Criccieth a Phenrhyndeudraeth.

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Penrhyndeudraeth	Criccieth	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	76.5	64.2	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	Penrhyndeudraeth 4	8.6	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Penrhyndeudraeth 2.2	-4.4	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Penrhyndeudraeth -2.5	-1.4	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Penrhyndeudraeth 5.6	8.6	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	2.4%	4.8%	3.5%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.			

### Penrhyndeudraeth

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 68 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Canolfan hunan-gynhaliol gydag amrywiaeth enag o gyfleusterau a gwasanaethau.

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 74.8%, sydd 4.8% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 2.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (73.3% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 23 o unedau yng nghyngor cymuned Penrhyndeudraeth rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai ddim yn broblem sylweddol yn yr ardal ond diffyg yn yr amrywiaeth o dai.
- Mae Ysgol Gynradd Cefn Coch yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 20-29 oed wedi gostwng 6.1% tra bo cyfran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 16% rhwng 2001 a 2011 yn y ward.
- Nodir fod canran mudwyr yn ward Penrhyndeudraeth wedi cynyddu o 169 i 242 (+43.2%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto). Fodd bynnag, nid yw'r mewnfudiad i weld fel ei fod yn broblem arwyddocaol wrth ystyried fod nifer siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu dros yr un cyfnod.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwyledig yn y Cynllun = **68 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **4 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae agosrwydd y ganolfan at Borthmadog sydd ag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau, yn gwneud y ganolfan yn le deniadol i fywn ynddi. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym Mhenrhyndeudraeth, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod nifer siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr dros yr un cyfnod. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal a'r math o unedau tai. Nodir fod twf adeiladu wedi bod yn is na'r hyn a welwyd yng Ngwynedd gyfan.

Am y rhesymau hyn, teimlir y gellid tywys cyfran uwch na'r disgwyl o dai i'r anheddle gyda sicrwydd uchel na fyddai datblygiad o raddfa perthnasol yn cael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn amodol ar ddarpariaeth digonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol a bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam. Adnabuwyd safleoedd adeiladu ym Mhenrhyndeudraeth a fyddai'n gallu cael ei ddynodi er mwyn darparu **143 uned** yn uwch na'r twf disgwyledig sydd yn gyfystyr a **14 uned** ar gyfartaledd y flwyddyn.

### **Criccieth**

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwyledig yn y Cynllun = 68 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Canolfan dwristiaeth boblogaidd sy'n gwasanaethu anghenion dyddiol y boblogaeth leol, yn ogystal ag anghenion y twristiaid.

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Cyfran llai o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 64.2%, sydd 5.8% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 7.5% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ward Llanystumdwy rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran llai o bobl wedi eu geni yng Nghymru (61.9% o gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod poblogaeth pobl hŷn (dros 65 mlwydd oed) ward Llanystumdwy wedi cynyddu 10.8% rhwng 2001 a 2011. Ar y llaw arall gweleyd ostyngiad o 5% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed oedd yn gallu siarad Cymraeg. Awgryma hyn fod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd.
- Adeiladwyd 63 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 6.3% o'r stoc dai yn 2011.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 68 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Ar y cyfan, mae'r darlun a welir yng Nghriccieth yn adlewyrchu'r hyn a welir yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae fforddiadwyedd tai yn fwy o broblem yng Nghriccieth ac fe welwyd mwy o ostyngiad yn nifer siaradwyr Cymraeg. Am y rhesymau hyn, ystyrir y dylid ymgorffori mesurau lliniaru penodol yn yr ardal yn enwedig felly, darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Yn amodol ar weithrediad llwyddiannus mesurau lliniaru priodol, ni ddylai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a byddai'n cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal. Am y rhesymau hyn, teimlir y gellid tywys cyfran ychydig yn uwch na'r disgwyl o dai i'r anheddle gyda sicrwydd uchel na fyddai datblygiad o raddfa perthnasol yn cael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol. Ail Ddosbarthu Twf = 60 uned sy'n gyfystyr ag 8 uned ar gyfartaledd y flwyddyn.

### Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

#### Tremadog

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Tremadog	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	76.5	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)	Porthmadog 13.3	+8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Porthmadog- Tremadog	-0.6

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

	-14	
<b>% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)</b>	Porthmadog- Tremadog -3.7	-4.8
<b>Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)</b>	Porthmadog- Tremadog 8.1	6.1
<b>Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)</b>	3.9%	3.5%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Anheddle gymharol fychan o gymharu â Phorthmadog.
- Lefel gyfyngiedig o wasanaethau ond yn hygyrch i ganolfan Porthmadog.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 14% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Porthmadog-Tremadog rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uchel iawn o ail gartrefi (13.3% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Tai yn llai fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan.
- Adeiladwyd 14 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.9% o'r stoc dai yn 2011 .
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod poblogaeth ward Porthmadog-Tremadog rhwng 0-19 a 20-29 mlwydd oed wedi gostwng -21.8% a -30.3% yn eu trefn rhwng 2001 a 2011. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Y Gorlan, Tremadog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd. (Nodir fod prinder tir addas yn golygu mai dim ond **12 uned** ellir ei gyfarch yn yr anheddle sy'n golygu fod yr unedau nad ellir eu cyfarch (**28 uned**) i gael eu hail-ddosbarthu i anheddle Penrhyndeudraeth )*

Mae'r darlun a welir yn Nhremadog yn debyg i'r hyn a welir ym Mhorthmadog. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal -

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, gwelwyd gostyniag sylweddol yn nifer siaradwyr Cymraeg yn ward Porthmadog-Tremadog. Ynglwm a hyn, gostyngodd y boblogaeth dan 65 mlwydd oed yn sylweddol yn yr un cyfnod. Nodir fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd. Mae ail gartrefi hefyd yn broblem arwyddocaol yn yr ardal ac mae posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn. Awgryma hyn i gyd fod cyflenwad anigonol o dai addas ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd ifanc lleol.

### DOSBARTHIAD TWF ARDAL CAERNARFON

#### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

#### Caernarfon

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **416** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Caernarfon (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Caernarfon	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	85.6	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	0.5	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Seiont -1.5 Peblig -2.2 Cadnant -2.6 Menai +3	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Seiont -2.1% Peblig -0.7% Cadnant +0.8 Menai +0.2	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Seiont 6.1 Peblig 6.7 Cadnant 6.8 Menai (Caernarfon) 4.8	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	2.5%	3.5%
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

## Caernarfon

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 415 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 27 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 85.6%, sydd 15.6% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Caernarfon. Cynnydd yn nghyfran siaradwyr Cymraeg yn ward Menai a gostyngiad yn y gyfran yn Cadnant, Peblig a Seiont.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i ddarlun y Sir.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (85.7% o gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 147 o unedau tai newydd rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.2% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran mudwyr Caernarfon wedi gostwng 1.8% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu a chynnydd Gwynedd o +47.5%. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95%) o gymharu â Gwynedd sef 88.7% yn 2011.
- Cyfradd isel iawn o ail gartrefi yn yr ardal.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod cyfran y boblogaeth 0-19 mlwydd oed wedi gostwng ym mhob ward Caernarfon, yn enwedig wardiau Seiont a Menai (Caernarfon), sy'n awgrymu fod teuluoedd ifanc yn symud o'r ardal. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.

### Casgliadau

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **416 o unedau** tai ei adnabod ar gyfer Caernarfon (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).*

Mae Caernarfon yn ganolfan mawr yng Ngwynedd lle ceir amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach iawn yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 85.6%, sydd 15.6% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn wir, ystyrir Caernarfon yn gadernle'r iaith Gymraeg. Ar y cyfan, mae fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol ac nid oes problem gyda'r nifer o dai haf yn yr ardal. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yma ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Mae patrwm datblygiadau yn y ganolfan dros y degawd diwethaf wedi bod yn llai na'r twf a welwyd yng Ngwynedd gyfan. Ymddengys nad yw mduwyr di-Gymraeg yn broblem yn yr ardal. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol. Mae posibil y byddai'r gwrthwyneb yn fwy tebygol, gyda rhagor o gyfleusterau preswyl yn helpu cadw'r boblogaeth Gymreig yn yr ardal.



### Cyfleon i Gyfarch y Twf

- Gwaith dechreuol o Asesu Safleoedd Posib ynghyd a Chapasiti Trefol ac adolygiad o'r Banc Tir presennol ynghyd a nifer o unedau wedi eu cwblhau ers Ebrill 2011 yn golygu gellid cyfarch oddeutu **415** unedau o'r lefel twf disgwylidig sydd gyfystyr ag adeiladu oddeutu 22 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

### Diffinio Ardal

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Caernarfon a Chanolfan Trefol arall sef Llanberis, Llanrug a Penygroes.
- Yn ogystal ceir 3 Pentref Gwasanaethol sef Bethel, Bontnewydd a Deiniolen.

#### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Llanberis	Llanrug	Penygroes	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	75.6	87.8	86.8	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	Llanberis 3.8	Llanrug 1.9	Llanllyfni 3.1	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Llanberis -6.1	Llanrug 7.4	Penygroes 1.4	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Llanberis -6.6	Llanrug 1.4	Penygroes -1.2	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Llanberis 5.7	Llanrug 4.7	Penygroes 3.5	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	4%	3.4%	3.3%	3.5%
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.				

### Llanberis

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 70 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn ganolfan dwristiaeth pwysig sy'n darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol ar gyfer ei phoblogaeth.

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 74.7%, sydd 4.7% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 6.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ward Llanberis rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (74.6% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 44 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thair newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.2% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r patrwm sirol a diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai ar gael.
- Poblogaeth economaidd weithiol uchel.
- Cyfran y boblogaeth rhwng 0-19 a 20-29 wedi gostwng 16% a 11.9% yn eu trefn. Ynglwm â hyn, gwelwyd lleihad o 23% yn nifer siaradwyr Cymraeg rhwng 3 a 15 mlwydd oed. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grwpiau hyn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai addas a fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.
- Nodir fod canran mudwyr yn ward Llanberis wedi cynyddu o 176 i 204 (+15.9%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%)). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (96.1% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd), tra bo canran y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg hefyd yn gymharol uchel (31.6% o gymharu ag 23.2% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal a bod cyfleoedd dysgu'r Gymraeg yma.
- Mae Ysgol Gynradd Dolbadarn yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Yn 2012, roedd 64 lle gwag yn yr ysgol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **70 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **4 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd (nodir nad ellir cyfarch 5 uned o fewn anheddle Llanberis sy'n golygu fod yr unedau hyn i gael ei ail-ddosbarthu i anheddle Deiniolen).*

Mae lleoliad y ganolfan ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach fel Caernarfon yn gwneud Llanberis yn le poblogaidd i fyw ynddi. Mae Llanberis yn ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 75.6%, sydd 5.6% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ar y cyfan mae tai ychydig fwy fforddiadwy na'r cyfartaledd sirol. Gwelwyd gostyngiad yn nifer a chyfradd siaradwyr Cymraeg yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol ym Llanberis ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Yn nodweddiadol gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y boblogaeth iau. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae twf datblygiadau tai yn Llanberis ychydig yn fwy na thwf Gwynedd gyfan. Wrth ystyried y ffactorau uchod, felly, ni chredir fod graddfa'r twf arfaethedig yn debygol o achosi tyfiant sylweddol yn y boblogaeth a all effeithio'n andwyol ar yr iaith Gymraeg.

### **Llanrug**

Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 61 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diwylliant Gymraeg gryf sy'n bwysig iawn i'r gymuned.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn economaidd weithiol.
- Cyfran isel ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai ddim yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.
- Cyfran uchel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 87.8%, sydd 17.8% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 1.4% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (72.5% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 34 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 5.4% o'r stoc dai yn 2011
- Nodir fod nifer siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oed 3-15, 16-64 a 65+ wedi cynyddu 5%, 4% a 27% yn eu trefn. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95.3% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem yn yr ardal.

Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **61 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Y ganolfan hon sydd a'r gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ac mae'n gadarnle pwysig i'r iaith. Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 17.8% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd yn nifer a chyfran siaradwyr Cymraeg o fewn y boblogaeth breswyl. Mae lefelau fforddiadwyedd tai yn adlewyrchu'r hyn a welir yng Ngwynedd gyfan. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg ar gynnydd sy'n awgrymu fod teuluoedd ifanc yn tyfu. Mae'n bwysig fod rhain yn aros yn yr ardal a bod unrhyw dai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn adlewyrchu'r angen lleol.

**Penygroes**

Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 89 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 6 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diwylliant Gymraeg gryf sy'n bwysig iawn i'r gymuned.
- Diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai sydd ar gael.
- Nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Cyfran uchel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 84.5%, sydd 14.5% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 1.2% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Nodir fod canran mudwyr yn ward Penygroes wedi cynyddu o 100 i 184 (+84%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%) (ffigyrau 2011 ddim ar gael). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (97.2% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Adeiladwyd 23 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.6% o'r stoc dai yn 2011

### Casgliadau

Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **89 uned** ar sail ei rôl fel *Canolfan Wasanaethol Lleol* sydd gyfystyr a **6 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

Fel Llanrug, mae Penygroes hefyd yn gadarnle pwysig i'r iaith Gymraeg gyda 86.8% o'r boblogaeth yn siaradwyr yr iaith sydd 16.8% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, dylid nodi fod canran siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig (-1.2%). Tynnir sylw i'r ffaith fod y gostyngiad hwn yn parhau i fod yn sywleddol is na'r gostyngiad a welwyd yng Ngwynedd gyfan. Nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn y ganolfan. Teimlir fod y lefel twf disgwylidig yn dderbyniol ar gyfer y ganolfan. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

### Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Bethel	Bontnewydd	Deiniolen	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	87.3	85.9	81.2	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)	Llanddeiniolen 2.3	Bontnewydd 0.8	Llanddeiniolen 2.3	+8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Penisarwaun -2.4	Bontnewydd -1.6	Deiniolen 7.1	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Penisarwaun -4.7	Bontnewydd -2.1	Deiniolen -1.6	-4.8
Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)	Penisarwaun 4.3	Bontnewydd 6.4	Deiniolen 5.7	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor	2.6	1.3	2.6	3.5%

<b>cymuned)</b>				
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.				

## Bethel

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diwylliant Gymraeg sy'n bwysig i'r gymuned.
- Amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol sy'n diwallu anghenion y boblogaeth breswyl.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 87.3%, sydd 17.3% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 0.3% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi yn y ward (2.3% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Fforddiadwyedd tai ddim yn broblem arwyddocaol.
- Adeiladwyd 7 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.5% o'r stoc dai yn 2011.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad (2011) fod cyfran y boblogaeth rhwng 20-29 wedi gostwng 20.3% rhwng 2001 a 2011 tra bo cyfran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 55.9% yn yr un cyfnod. Nodir hefyd fod canran siaradwyr Cymraeg sydd dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 51% rhwng 2001 a 2011.
- Mae Ysgol Gynradd Bethel, yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 46 o lefydd gwag yn yr ysgol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith yn iach iawn ym Methel (fel ag y mae ym Montnewydd a Deiniolen). Mae 87.3% o'r boblogaeth breswyl yn siaradwyr Cymraeg sydd 17.3% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad o 2.4% a 4.7% yn nifer a chyfran siaradwyr Cymraeg yn ward Penisarwaun rhwng 2001 a 2011. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth oed gweithiol. Yn nodweddiadol, mae 40.2% o'r boblogaeth a aned a tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg – y ffigwr uchaf yng Ngwynedd. Awgryma hyn fod cyfleoedd da i fewnfudwyr ddysgu'r iaith. Yn wir, mae bodolaeth ysgol gynradd ac amrywiaeth o gyfleusterau cymdeithasol yn golygu bod yna gyfleon i siarad Cymraeg du allan i'r aelwyd. Am y rhesymau hyn, teimlir fod y lefel twf disgwylidig yn addas ar gyfer y pentref. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

## Bontnewydd

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 uned y flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 85.9%, sydd 15.9% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw.
- Gostyngiad o 2.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (0.8% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 4 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol.
- Nodir fod canran mudwyr yn ward Bontnewydd wedi gostwng o 99 i 82 (-17.2%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%)). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95.3% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Bontnewydd yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 nad oes rhagor o lefydd gwag yn yr ysgol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 uned** y flwyddyn ar gyfartaledd.*

Fel a welir ym Methel, mae cyfran uchel iawn o breswylwyr Bontnewydd yn siaradwyr Cymraeg – 85.9% o'r boblogaeth, sydd 15.9% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg fod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad bach (2.1%) yng nghyfran a nifer (1.6%) siaradwyr Cymraeg ers rhwng 2001 a 2011. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth dan 65 mlwydd oed tra cynyddodd y gyfran o bobl dros 65 mlwydd oed. Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth iau yn digwydd oherwydd prinder gwaith neu brinder tai addas a fforddiadwy. Nodir fod tai ychydig yn llai fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan. Nodir hefyd fod y cynnydd yn nhwf unedau tai newydd wedi bod yn gyfyngedig dros y degawd ddiwethaf. Teimlir fod y lefel twf disgwylidig yn addas ar gyfer y pentref. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

## Deiniolen

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai a chyflwr tai yn is-safonol ar y cyfan.
- Anheddle mwy o ran maint na Botwnnog ac Y Ffor.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 81.2%, sydd 11.2% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 1.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (2.3% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 9 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.5 % o'r stoc dai yn 2011.
- Nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem arwyddocaol q'rth gymharu ag ardaloedd eraill yng Ngwynedd.
- Nodir fod canran mudwyr yn wardiau Deiniolen/Bethel / Penisarwaun wedi cynyddu o 359 i 418 (+16.4%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%)). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (93.7% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 24 o lefydd gwag yn yr ysgol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach ym mhentref Deiniolen gydag 81.2% yn siarad sydd 11.2% yn uwch na'r lefel trothwy o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg fod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, nodir er fod cyfran siaradwyr Cymraeg wedi lleihau rhywfaint, fe welwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr. Yn ogystal a hyn, nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn yr ardal. Nodir fod canran mudwyr yn wardiau Deiniolen/Bethel/Penisarwaun wedi cynyddu o 359 i 418 (+16.4%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd 9521 i 14,046 (47.5%). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (93.7% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl di-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal. Credir y byddai darpariaeth o dai newydd yn ddeniadol iawn o ran denu pobl i fyw yno, oherwydd agosrwydd y pentref at Gaernarfon a Bangor sy'n ganolfannau cyflogaeth pwysig. Oherwydd natur ieithyddol Bangor, ble mae lefel uwch o'r boblogaeth heb sgiliau Cymraeg, mae potensial, felly, i'r datblygiad ddenu pobl sy'n gweithio yno, nad ydynt yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, teimlir fod y lefel twf disgwylidig yn dderbyniol ar gyfer y pentref. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

Am y rhesymau hyn, maint y pentref a'r risg isel i rywfaint o dai gael eu defnyddio fel ail gartrefi teimlir y gellid tywys y twf disgwylidig yn ogystal ac ychydig yn fwy i'r pentref heb i hyn gael dylanwad negyddol ar yr iaith. **Ail-ddosbarthu twf o 5 uned** i'r ganolfan.

### DOSBARTHIAD TWF BLAENAU FFESTINIOG

#### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

#### Blaenau Ffestiniog

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **298** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Blaenau Ffestiniog (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).
- Oherwydd natur griegios y topograffi, mae diffyg tiroedd addas ar gael ym Mlaenau Ffestiniog ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y Twf disgwylidig o fewn y ganolfan.

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Blaenau Ffestiniog	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	80.7	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	5.5	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Bowydd a Rhiw +0.8 Diffwys a Maenofferen -5.0 Teigl -2.1	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Bowydd a Rhiw -1.5 Diffwys a Maenofferen -5.2 Teigl -1.8	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Bowydd a Rhiw 3.8 Diffwys a Maenofferen 3.9 Teigl 4.2	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	1.2%	3.5%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		





Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 298 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 20 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 80.7%, sydd 10.7% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Blaenau Ffestiniog. Cynnydd o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Bowydd a Rhiw a gostyngiad o 5% yn Diffwys a Maenofferen rhwng 2001 a 2011.
- Tai yn fwy fforddiadwy ym Mlaenau Ffestiniog ar y cyfan.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (77.6% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 32 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 g ayda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.6% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran mudwyr Blaenau Ffestiniog wedi cynyddu 29.2% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu a chynnydd Gwynedd o +47.5%. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95%) o gymharu â Gwynedd sef 88.7% yn 2011.
- Mae Ysgolion Cynradd Maenofferen, Manod a Tanygrisiau yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Yn ôl ffigyrau 2012, mae 15, 23 a 51 o lefydd gwag yn yr ysgol yn eu trefn.
- Cyfradd isel o ail gartrefi yn yr ardal.
- Diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai a cyflwr tai yn wael.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod y boblogaeth rhwng 0-19 mlwydd oed wedi gostwng 11.9%, 10.2% a 7.8% yn wardiau Teigl, Maenofferen a Bowydd a Rhiw yn eu trefn rhwng 2001 a 2011. Mae'n debyg, felly bod teuluoedd ifanc yn allfudo o'r ardal oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth neu dai addas.

Casgliadau

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **298 o unedau** tai ei adnabod ar gyfer Blaenau Ffestiniog (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).*

Mae Blaenau Ffestiniog yn ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 80.7%, sydd 10.7% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ystyrir fod Blaenau Ffestiniog, felly, yn gadarnle'r iaith Gymraeg. Wedi dweud hyn, fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr Cymraeg. Mae tai yn llawer fwy fforddiadwy yn y ganolfan o gymharu a Gwynedd gyfan ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg uchel iawn pan gymherir y ffigwr ag ardaloedd eraill yn y sir (31.7%

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

yn ward Bowydd a Rhiw. 32.5 yn Diffwys a Maenofferen a 31.9 yn Teigl). Awgryma'r uchod fod pobl di-Gymraeg sy'n symud i'r ardal yn dueddol i ddysgu'r iaith wedi gwneud hynny. Yn ogystal a hyn, mae patrwm twf adeiladu ym Mlaenau Ffestiniog wedi bod yn is nac yng Ngwynedd gyfa dros y degawd diwethaf. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol. Mae prinder tir yn golygu ei bod hi'n anodd cyfarch y twf disgwylidig gyda phwyslais ar gyfleon hap yn enwedig tai gwag. Amcangyfrif ein bod 20 uned yn brin. Fodd bynnag, ni ystyrir ei bod yn ddilys i ail-ddosbarthu gan nad oes canolfan addas yn gyfagos.

### Diffinio Ardal

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn dalgylch Blaenau Ffestiniog sef Abermaw a Thywyn.
- Nid ydym yn ymwybodol o gyfle unigryw am ddatblygiad o fewn yr is-ardal yma, e.e. tir llwyd strategol.

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Abermaw	Tywyn	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	41.8	36.5	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	Abermaw 10.5	Tywyn 10.9	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg)	Abermaw -1.6	Tywyn -6.4	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg)	Abermaw -4.6	Tywyn -7.3	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012)	Abermaw 6.5	Tywyn 7.2	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	5.5%	5.8%	3.5%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai			

### Abermaw

#### Pwyntiau Allweddol

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 91 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 6 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn brif gyrchfan dwristiaeth efo nifer uchel o ail gartrefi yn y ganolfan.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 30.5%, sydd 39.5% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 4.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (49.3% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 65 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Cyfran uchel o ail-gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Y Traeth yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Dim ond 2% o'r disgyblion sydd o gartrefi Cymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 20-29 wedi gostwng 20.3% a chanran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 55.9% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 a 2011). Yn arwyddocaol nodir fod canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 51% rhwng 2001 a 2011 yn ward Abermaw, sy'n awgrymu fod yr henoedd Cymraeg eu hiaith wedi symud allan o'r ardal a/neu fod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi symud i fewn i'r ardal.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **91 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **6 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 28.2% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o -1.6% yn nifer y siaradwyr Cymraeg a -4.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan. Er nad yw fforddiadwyedd tai yn sylweddol waeth na chymhareb Gwynedd, dengys ffigurau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 20 a 29 oed a'r boblogaeth rhwng 30 a 64 oed wedi gostwng tra bo canran pobl dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011 yn ward Abermaw (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth weithiol lleol yn broblem gyda'r phrinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Ategir hyn gan y ffaith fod cyn lleied o blant ysgol yn dod o gartrefi Cymraeg. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). O ystyried nid yw'n briodol cyfeirio mwy o dwf na'r hyn sydd wedi cael ei adnabod.

### **Tywyn**

#### Pwyntiau Allweddol

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 103 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 7 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Demograffeg oed yr ardal yn anghytwbys gyda chyfran uchel o bobl hyn.
- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 36.5%, sydd 33.5% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 7.3% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 14% tra bo canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 18% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 & 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd gostyngiad o 4% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed sy'n siarad Cymraeg dros yr un cyfnod. Awgryma hyn fod mewnfudiad o bobl hŷn nad ydynt yn siarad Cymraeg yn broblem yn yr ardal.
- Adeiladwyd 124 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.5% o'r stoc dai yn 2011

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **103 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **7 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 33.5% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd ostyngiad o 6.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg a gostyngiad 7.3% yng nghyfran siaradwyr yn y ganolfan. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth hyd at 20 mlwydd oed wedi gostwng tra bo canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011 yn ward Tywyn (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg teuluoedd gyda phlant yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Mae'n hynod bwysig, felly ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg ymysg yr isaf yng Ngwynedd (12.3%). Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). O ystyried nid yw'n briodol cyfeirio mwy o dwf na'r hyn sydd wedi cael ei adnabod. Dylid sicrhau fod mesurau priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma, e.e. sicrhau fod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL BANGOR

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

## BANGOR

Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Is-ranbarthol
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **969** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Bangor (hyn yn cynnwys ffigurwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Bangor	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	38.5	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	0.8	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Garth -34.4 Menai (Bangor) 10.1 Glyder -6.7 Dewi 6.6 Hendre -7.2 Deiniol 1.5 Marchog -11.5 Hirael -9.7	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Garth -33.9 Menai (Bangor) -32 Glyder -5.9 Dewi -10.7 Hendre -12.7 Deiniol -25 Marchog -7.2 Hirael -28.5	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Garth 7 Menai (Bangor) 4.3 Glyder 6.6 Dewi 6.5 Hendre 5.5 Deiniol 4.8 Marchog 6 Hirael 7.5	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	2.8%	3.5%
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 969 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 64 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 38.5%, sydd 31.5% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Bangor. Cynnydd o 10.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Menai (Bangor) a gostyngiad syfrdanol o 34.4% yn Garth rhwng 2001 a 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn amrwio o fewn y ganolfan gyda thai fwyaf fforddiadwy yn Menai (Bangor) a lleiaf fforddiadwy yn Garth.
- Cyfran isel o bobl wedi eu geni yng Nghymru (41.2% o gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 165 o unedau newydd rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran mudwyr Bangor wedi cynyddu 174% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu a chynnydd Gwynedd o +47.5%. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol isel (64.4%) o gymharu â Gwynedd sef 88.7% yn 2011. Awgryma'r uchod fod mewnfudo myfyrwyr ddi-Gymraeg yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i boblogaeth di-Gymraeg yn y ward.
- Cyfradd gymharol isel o ail gartrefi yn yr ardal.

### Casgliadau

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o 969 o unedau tai ei adnabod ar gyfer Bangor (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).*

Gan mai Bangor yw prif ganolfan Gwynedd ceir amrywiaeth dda o gyfleusterau a gwasanaethau yma, a chredir fod rhain, ynghyd a pholisiau i'w gwarchod a hyrwyddo rhai newydd priodol yn ddigonol i gynnal tyfiant yn y boblogaeth a all ddeillio o'r tyfiant arfaethedig. Nid yw'r iaith Gymraeg yn hyfyw yn y dref gyda chyfradd isel iawn o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 38.5%, sydd 31.5% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ym mhob ward o fewn y dref dros y degawd diwethaf. Mae'n amlwg, felly, fod cyflwr bregus yr iaith yn yr ardal wedi parhau i ddirywio dros y cyfnod hwn. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol ym Mangor ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn isel ym mhob ward yn y dref yn arbennig, felly, Marchog (60%), a Menai (Bangor) (63%) o gymharu a 88.8% yng Ngwynedd. Awgryma hyn nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio o fewn teuluoedd sydd eisoes yn byw yn yr ardal. Nodir hefyd fod y canran o bobl a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg hefyd yn isel. Nodir fod canran mudwyr yn wardiau Bangor i gyd wedi cynyddu rhwng 1991 a 2001. Mae'n debyg mai effaith myfyrwyr yn symud i'r ardal sydd wedi achosi hyn. Awgryma'r uchod fod yr ardal yn ddeniadol iawn i aelwydydd ddi-Gymraeg. Mae'n rhesymol tybio bod nifer o'r aelwydydd di-Gymraeg yn rhai myfyrwyr sydd yn aros yn y ddinas am oddeutu 3 mlynedd cyn cael eu disodli gan fyfyrwyr eraill. Nodir fod cyfradd adeiladu tai wedi bod yn llai na'r hyn a welwyd yng Ngwynedd ers 2002. Wrth ystyried y patrymau a'r ffactorau uchod, yn enwedig y ffaith nad yw'r dref yn gadarnle'r iaith Gymraeg, ynghyd a maint y ganolfan, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol anerbyniol ar yr iaith,

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol gan gynnwys elfen ddigonol o dai fforddiadwy. Yn ogystal a hyn, ystyrir fod lefel ddigonol ym Mangor yn golygu bod llai o allfudo i gymunedau fwy Cymreigaidd eu naws yn nalgylch y ganolfan.

### Cyfleon i Gyfarch y Twf

- Gwaith dechreuol o Asesu Safleoedd Posib ynghyd a Chapasiti Trefol ac adolygiad o'r Banc Tir presennol ynghyd a nifer o unedau wedi eu cwblhau ers Ebrill 2011 yn golygu gellid cyfarch oddeutu 969 unedau o'r lefel twf disgwylidig sydd gyfystyr ag adeiladu oddeutu 64 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

### Diffinio Ardal

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 2 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn dalgylch Bangor sef Bethesda a Bangor.
- Nid ydym yn ymwybodol o gyfle unigryw am ddatblygiad o fewn yr is-ardal yma, e.e. tir llwyd strategol.

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Bethesda	Rachub	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	77.5	68.2	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	Bethesda 1	Bethesda 1	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Ogwen 6.3 Gerlan 4.9	Gerlan 4.9	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Ogwen 2.8 Gerlan -0.8	Gerlan -0.8	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Ogwen 5.9 Gerlan 5	Gerlan 5	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	4.6%	4.6%	3.5%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.			

### Bethesda

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 99 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 6 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Diwylliant Gymraeg gryf sy'n bwysig i'r gymuned.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 77.5%, sydd 7.5% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Nodir fod 81.2% o boblogaeth ward Ogwen yn siarad Cymraeg o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd – cynnydd o 5.8%, sy'n dangos fod sefyllfa'r Gymraeg yn gryf yma.
- Adeiladwyd 101 o unedau yng nghyngor cymuned Bethesda rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.6% o'r stoc dai yn 2011.
- Nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Abercaseg, Ysgol Gynradd Penybryn ac Ysgol Gynradd Llanllechid yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed.
- Dengys ffigurau'r Cyfrifiad (2011) fod 78% o boblogaeth rhwng 16-64 oed (sef oed gweithio) yn ward Ogwen yn gallu siarad Cymraeg sydd tipyn uwch na chyfartaledd y Sir (62.5%). Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.
- Nodir fod canran mudwyr yn ward Ogwen wedi cynyddu o 196 i 236 (+20.4%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu a chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%)). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (91.6% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Yn ogystal â hyn, mae cyfran siaradwyr Cymraeg yn y ward wedi cynyddu 5.8% rhwng 2001 a 2011. Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **99 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **6 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae lleoliad y ganolfan ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach fel Bangor yn gwneud Bethesda yn le poblogaidd i fyw ynddi. Mae Bethesda'n ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach iawn yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 77.5%, sydd 7.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigur lle mae'n debygol bod yr iaith yn hyfyw. Ar y cyfan mae tai ychydig fwy fforddiadwy na'r cyfartaledd sirol. Gwelwyd cynnydd yn nifer siaradwyr yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol ym Bethesda ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Dengys ffigurau'r Cyfrifiad (2011) fod 78.1% o boblogaeth rhwng 16-64 oed (sef oed gweithio) yn ward Ogwen yn gallu siarad Cymraeg sydd tipyn uwch na chyfartaledd y Sir (62.5%). Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Yn sgil hyn mae'n hynod o bwysig ystyried y potensial i'r lefel twf ddenu mewnfudwyr di-Gymraeg, yn enwedig, felly, oherwydd agosrwydd Bethesda i Fangor. Fodd bynnag, ar y cyfan, ni chredir fod graddfa'r twf arfaethedig yn debygol o achosi tyfiant sylweddol yn y boblogaeth a all effeithio'n andwyol ar yr iaith Gymraeg. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.



## Rachub

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Anheddle gymharol fychan o gymharu â Bethesda.
- Nifer cyfyngiedig o wasanaethau gyda nifer fawr o dai, yn enwedig, felly tai teras.
- Cyfran ychydig yn uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 68.2%, sydd 1.8% yn î na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 4.9% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn ward Gerlan rhwng 2001 a 2011 ond gostyngiad o 0.8% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r boblogaeth sy'n awgrymu er fod nifer y siaradwyr wedi cynyddu, mae'r nifer nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu fwy fwy.
- Cyfran isel iawn o ail gartrefi (1% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Tai yn fwy fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan.
- Adeiladwyd 29 o unedau yn anheddle Rachub rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 9.1% o'r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Gynradd Llanllechid, Rachub yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 nad oes llefydd gwag yn yr ysgol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Fel Bethesda, mae lleoliad Rachub ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach fel Bangor yn gwneud Rachub yn le poblogaidd i fyw ynddo. Er fod statws yr iaith Gymraeg yn debyg i'r darlun Sirol, mae siaradwyr Cymraeg 1.8% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ar y cyfan mae tai ychydig fwy fforddiadwy na'r cyfartaledd sirol. Gwelwyd cynnydd yn nifer siaradwyr yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Rachub ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Mae prinder amrywiaeth yn y mathau o dai yn y pentref, ac mae cyfle i'r datblygiadau tai arfaethedig gyfarch yr angen hwn. Wrth ystyried y ffactorau uchod, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL PWLLHELI

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

## Pwllheli

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **323** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Pwllheli (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).
- Mae rhan helaeth o'r dref a'r tiroedd ymylol yn dioddef o berygl o llifogydd ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y Twf disgwylidig o fewn y ganolfan.

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Pwllheli	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	78.7	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	3.7	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Gogledd Pwllheli +11.6 De Pwllheli -4.3	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Gogledd Pwllheli -2.9 De Pwllheli -0.2	-4.8
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Gogledd Pwllheli 7.1 De Pwllheli 9.5	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	3.8%	3.5%
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 323 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 21 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 78.7%, sydd 8.7% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Pwllheli. Cynnydd o 11.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Gogledd Pwllheli a gostyngiad o 4.3% yn Ne Pwllheli rhwng 2001 a 2011.
- Tai yn llai fforddiadwy ym Mhwllheli ar y cyfan.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (77.6% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 93 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae Ysgol Gynradd Cymerau yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Yn ôl ffigyrau 2012, mae 36 o lefydd gwag yn yr ysgol.

- Cyfradd isel o ail gartrefi yn yr ardal.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod 76.3% o boblogaeth ward De Pwllheli yn bobl rhwng 25-64 (sef oed gweithio) yn siaradwyr Cymraeg sydd tipyn uwch na chyfartaledd y Sir (65.3%). Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.

### Casgliadau

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **323** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Pwllheli (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).*

Mae Pwllheli'n ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym Mhwllheli gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 78.7%, sydd 8.7% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd gyfan fe gynyddodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yng Ngogledd Pwllheli tra gwelwyd gostyngiad bach yn Ne Pwllheli. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol ym Mhwllheli ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Mae'r ffaith fod y llefydd sy'n draddodiadol ddeniadol fel llefydd i'w defnyddio fel tai haf yn y parth llifogydd, sy'n golygu na fyddai'r Cynllun yn hyrwyddo tai newydd yno yn ffactor bwysig i'w ystyried. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (94.8% yn Ngogledd Pwllheli; 93.1% yn Ne Pwllheli o'i gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl di-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidiedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.

### **Diffinio Ardal**

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgyllch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgyllch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Pwllheli a Chanolfan Trefol arall sef Abersoch, Criccieth a Nefyn.
- Yn ogystal ceir 3 Pentref Gwasanaethol sef Botwnnog, Chwilog ac Y Ffor. Nid ydym yn ymwybodol o gyfle unigryw am ddatblygiad o fewn yr is-ardal yma, e.e. tir llwyd strategol.

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Nefyn	Abersoch	Criccieth	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	76.1	43.5	64.2	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	18.6	39.8 (Cyngor Cymuned Llanengan)	8.6	8
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg)	-2.7	-23.5	-4.4	-0.6
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg)	-3	-13.4	-1.4	-4.8
Fforddiadwyedd tai (2012)	7.4	12	8.6	6.1
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	3.8%	5.3%	4.8%	3.5%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.				

### Abersoch

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 67 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn brif gyrchfan dwristiaeth efo nifer uchel o ail gartrefi yn y ganolfan.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 43.5%, sydd ychydig dros chwarter (26.5%) yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 23.5% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (44.7% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 58 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 7.3% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Abersoch yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed.
- Cyfran sylweddol uwch o bobl hŷn, dros 65 mlwydd oed yn byw yn Abersoch. Yn ogystal a hyn dengys ffigurau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 20 a 34 oed wedi gostwng 36.5% rhwng 2001 a 2011 yn ward Abersoch (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth weithiol lleol yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn un ffactor posib.

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 67 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 26.5% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd ostyngiad o 23.5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ganolfan. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn Abersoch, gyda thai yn llai fforddiadwy yno nag unrhyw ardal arall yng Ngwynedd. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 20 a 29 oed a'r boblogaeth rhwng 30 a 64 oed wedi gostwng 30.6% a 21.4% yn eu trefn rhwng 2001 a 2011 yn ward Abersoch (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth weithiol lleol yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl dros 65 mlwydd sy'n siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 11.5% rhwng 2001 a 2011. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl lleol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). O ystyried hyn a chan fod y ganolfan hon yn disgyn o fewn polisi Tai Marchnad Lleol nid yw'n briodol cyfeirio mwy o dwf na'r hyn sydd wedi cael ei adnabod. Hefyd bydd hyn yn gwarchod twf newydd yn oes y cynllun i gyfarch angen marchnad lleol.

### **Nefyn**

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 73 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 5 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 76.1%, sydd 6.1% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 2.7% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (72.5% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 34 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.5% o'r stoc dai yn 2011

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 73 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 5 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae cyfran gymharol uchel o dai gwag yn yr anheddle ac ystyrir fod y ganolfan yn weddol anghysbell o Ganolfannau eraill. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yn Nefyn, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 76.1%, sydd 6.1% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod tai yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd gyfan ac er fod cyfran uchel o ail gartrefi yn yr ardal, ni ostyngodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol

yma, yn enwedig pan gymherir y ffigwr a ffigyrau cyfatebol Abersoch a Chriccieth. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal a'r math o unedau tai. Yn wahanol i Abersoch, mae cyfleon cyflogaeth yn rhai gydol y flwyddyn. Am y rhesymau hyn, teimlir fod y twf disgwylidig yn Nefyn yn dderbyniol.

### Criccieth

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 68 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran o ail gartrefi yn yr ardal yn debyg i'r cyfran sirol.
- Cyfran ychydig yn is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 64.2%, sydd ychydig yn is (5.8%) na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 4.4% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran ychydig yn is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (61.9% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Tai ychydig yn llai fforddiadwy na chyfartaledd y Sir.
- Adeiladwyd 63 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 6.3% o'r stoc dai yn 2011

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **68 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Ar y cyfan, mae'r darlun a welir yng Nghriccieth yn adlewyrchu'r hyn a welir yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae fforddiadwyedd tai yn fwy o broblem yng Nghriccieth ac fe welwyd mwy o ostyngiad yn nifer siaradwyr Cymraeg. Er fod cysylltiadau trafndiaeth da i Bwllheli, oherwydd y pellter sydd rhwng ddwy ganolfan, ni fyddai'n briodol ail-ddosbarthu twf Pwllheli i'r ganolfan hon. Byddai'n fwy dichonadwy i ail-ddosbarthu ychydig o dwf Porthmadog os bydd angen gwneud hyn. Ar sail y banc tir presennol a chyfleon hap, gall y ganolfan ymdopi gydag oddeutu 60 uned yn fwy na'i lefel disgwylidig, sy'n gyfystyr ag 8 uned y flwyddyn.

### Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Botwnnog	Y Ffor	Chwilog	Gwynedd
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	84.3	85.7	80	65.4
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)	9.9	3.5 (cyngor cymuned Llannor)	5.1 (cyngor cymuned Llanystumdwy)	+8
% Newid 2001-2011 (nifer o	+2.7	(Ward	(Ward	-0.6

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

<b>siaradwyr Cymraeg)</b>		Abererch) -2.1	Llanystumdwy) +7.9	
<b>% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg)</b>	-1.6	3.9	-0.4	-4.8
<b>Fforddiadwyedd tai (2012)</b>	8.1	(Ward Abererch) 6.4	(Ward Llanystumdwy) 6.4	6.1
<b>Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)</b>	5.6%	2.3%	3.1%	3.5%
<i>*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.</i>				

### Botwnnog

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd..
- Anheddle gymharol fychan o gymharu a Chwilog ac Y Ffor.
- Nifer o wasanaethau ond dim llawer o dai.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 84.3%, sydd 14.3% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfiw (sef 70%), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 2.7% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol uchel o ail gartrefi (9.9% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Tai yn llai fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan.
- Adeiladwyd 18 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 10.8% o'r stoc dai yn 2011
- Fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Pont y Gof, Botwnnog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 23 o lefydd gwag yn yr ysgol.

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith yn iach iawn ym Motwnnog (fel ag y mae yn Y Ffor a Chwilog) ac fe welwyd cynnydd o 2.7% yn nifer siaradwyr Cymraeg yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Nodir fod canran ail gartrefi yn uwch na chyfartaledd y Sir a bod tai yn llai fforddiadwy na chyfartaledd Gwynedd. Mae bodolaeth ysgol gynradd, ysgol uwchradd, a meddygfa'n golygu bod yna gyfleon i siarad Cymraeg du allan i'r aelwyd. Codwyd 12 o dai fforddiadwy'n ddiweddar ac mae'r dystiolaeth hyd yma'n dangos nad ydy gwneud hynny wedi cael dylanwad negyddol ar yr iaith. Am y rhesymau hyn, maint y

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

pentref a'r risg isel i rywfaint o dai gael eu defnyddio fel ail gartrefi teimlir y gellid tywys y twf disgwylidig i'r pentref heb i hyn gael dylanwad negyddol ar yr iaith. Er mwyn lleihau'r risgiau posib dylid hefyd sicrhau fod canran ddigonol o dai newydd yn rai fforddiadwy.

### Y Ffor

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 uned y flwyddyn ar gyfartaledd
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 85.7%, sydd 15.7% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw
- Gostyngiad o 2.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (3.5% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 6 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol.
- Mae Ysgol Gynradd Bro Plenydd, Y Ffor yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 69 o lefydd gwag yn yr ysgol.

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 uned** y flwyddyn ar gyfartaledd*

Fel a welir ym Motwnnog a Chwilog, mae cyfran uchel iawn o breswylwyr Y Ffor yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad bach (2.1%) yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ers 2001. Ar y llaw arall, nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ac mae canran gymharol isel o ail gartrefi yn y pentref. Mae'r posibilrwydd y caiff tai newydd eu defnyddio fel ail gartrefi felly'n isel. Nodir hefyd fod y cynnydd yn nhwf unedau tai newydd wedi bod yn gyfyngedig dros y degawd ddiwethaf. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

### Chwilog

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Anheddle mwy o ran maint na Botwnnog ac Y Ffor.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 80%, sydd 10% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.



## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Gostyngiad o 0.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (5.1% o gymharu a 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 13 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.2% o'r stoc dai yn 2011  
Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol. Mae Ysgol Gynradd Chwilog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 13 o lefydd gwag yn yr ysgol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym mhentref Chwilog gydag 80% yn siarad Cymraeg a'r gyfran o siaradwyr wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2001 a 2011. Yn ogystal a hyn, nid yw ail gartrefi yn broblem arwyddocaol yn yr ardal. Ystyrir felly, fod y twf disgwylidig yn dderbyniol heb iddo gael dylanwad negyddol ar yr iaith Gymraeg. Dylid sicrhau fod mesurau priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma, e.e. sicrhau fod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL MENAI

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

#### Cyfleon i Gyfarch y Twf

- Gwaith Asesu Safleoedd Posib ynghyd a Chapasiti Trefol ac adolygiad o'r Banc Tir presennol ynghyd a nifer o unedau wedi eu cwblhau ers Ebrill 2011 yn golygu gellid cyfarch oddeutu 293 unedau o'r lefel twf disgwylidig sydd gyfystyr ag adeiladu oddeutu 22 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

#### Diffinio Ardal

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno. Fodd bynnag, nodir nad oes canolfan o'r fath wedi ei ddynodi yn y dalgylch hon.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn y dalgylch sef Porthaethwy, Llanfairpwll a Biwmares.
- Nid ydym yn ymwybodol o gyfle unigryw am ddatblygiad o fewn yr is-ardal yma, e.e. tir llwyd strategol.

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Porthaethwy	Llanfairpwll	Biwmares	Ynys Môn
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	55.9	71.8	38.3	57.2
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	Porthaethwy 3.3	Llanfairpwll 1.6	Biwmares 8.8	6.2
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Cadnant 5.9	Gwyngyll -2.2	Biwmares -5.4	-0.8
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Cadnant -4.4	Gwyngyll -3.4	Biwmares -0.2	-2.9
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Cadnant 7	Gwyngyll 6.1	Biwmares 8.3	6.3
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	6.3	3.4	3.6	5.6%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.				

### Porthaethwy

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 115 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 7 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 55.9%, sydd 14.1% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 57.2% yn Ynys Môn.
- Cyfran llai o blant yn yr ysgol gynradd yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref (20.5% o gymharu â 35.1% yn Ynys Môn gyfan).
- Cymdeithas amlhiliol.
- Ail-gartrefi ddim yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol.
- Gostyngiad o 5.2% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ward tysilio rhwng 2001 a 2011.
- Adeiladwyd 101 o unedau yn y cyngor cymuned rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 6.3% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 20-29 oed wedi cynyddu 29.8% rhwng 2001 a 2011 (Cyfrifiad 2001 a 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd cynnydd o 47.5% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros yr un cyfnod. Rhaid cofio fodd bynnag efallai fod ffigyrau myfyrwyr wedi dylanwadu ar y ffigwr hwn.

#### Casgliadau

Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **115 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **7 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

Mae cyfran siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan hon yn is na'r ffigwr sirol ac mae'n 14.1% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod tai yn llai fforddiadwy nag yn Ynys Mon gyfan ac er fod cyfran uchel o ail gartrefi yn yr ardal, fe gynyddodd nifer siaradwyr Cymraeg yma, tra gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr. Mae yna ysgol gynradd ac Ysgol Uwchradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal a'r math o unedau tai. Teimlir fod y lefel twf disgwylidig yn dderbyniol ar gyfer y pentref. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

### Llanfairpwll

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 82 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 5 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Poblogaeth weithiol uchel gyda theuleuoedd ifanc.
- Cyfran îs na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 71.8%, sydd 1.8% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu a 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad o 3.4% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl wedi eu geni y tu allan i'r DU (5.1% o gymharu â 3.4% yng Ngwynedd).
- Mae canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi gostwng 37.5% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001). Yn arwyddocaol hefyd, gweleyd cynnydd o 35% yng nghanran siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, gwelwyd ostyngiad yng nghanran siaradwyr Cymraeg grŵp oedran 3-15 a 16-64 (-20% a -8% yn eu trefn) dros yr un cyfnod.
- Adeiladwyd 70 o unedau yng nghyngor cymuned Llanfairpwll rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.4% o'r stoc dai yn 2011.

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **82 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **5 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae gan Llanfairpwll ddiwylliant Gymraeg gryf. Mae lleoliad y ganolfan ger lannau'r Fenai yn gwneud yr ardal yn le deniadol i fyw ynddi. Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 1.8% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag gwelwyd gostyngiad yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan rhwng 2001 a 2011. Mae'r ffaith fod canran y boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg wedi disgyn yn awgrymu nad oes tai addas er mwyn cadw teuluoedd ifanc yn yr ardal. Wrth ystyried yr uchod a'r ffaith fod twf adeiladu wedi bod yn llai na'r cyfartaledd sirol ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.

## **Biwmares**

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 96 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 6 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran gymharol uwch o ail gartrefi yn yr ardal.
- Cyfran sylweddol is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 38.3%, sydd llawer is (31.7%) na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 5.4% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (56.8% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Tai yn llai fforddiadwy na chyfartaledd y Sir.
- Adeiladwyd 66 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.6% o'r stoc dai yn 2011

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **96 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **6 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 31.7% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd ostyngiad o 5.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ganolfan. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ym Miwmares. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng 10.8% rhwng 2001 a 2011 yn ward Biwmares (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg teuluoedd ifanc lleol yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl a aned y tu allan i Gymru ac sydd ddim yn siarad Cymraeg yn isel, sy'n awgrymu nad oes diwylliant Gymraeg gryf yn yr ardal a phrinder cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). O ystyried hyn a chan fod y ganolfan hon yn debygol o ddisgyn o fewn polisi Tai Marchnad Lleol nid yw'n briodol cyfeirio mwy o dwf na'r hyn sydd wedi cael ei adnabod.

## **DOSBARTHIAD TWF ARDAL AMLWCH**

### **Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1**

## **Amlwch**

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **533** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Amlwch (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Amlwch	Ynys Mon
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	63.1	57.2
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	3	6.2
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Amlwch Wledig -1.6 Porth Amlwch (dim ar gael)	-0.8
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Amlwch Wledig -2.7 Porth Amlwch (dim ar gael)	-2.9
Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)	Amlwch Wledig 7.7 Porth Amlwch 4.3	6.3
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	3.6	5.6
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 533 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 35 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 63.1%, sydd 6.9% yn llai na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad bychan o 1.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Amlwch Wledig rhwng 2001 a 2011.
- Fforddiadwyedd tai'n amrywio o fewn y ganolfan gyda thai yn llai fforddiadwy yn Amlwch Wledig a mwy fforddiadwy ym Mhorth Amlwch.
- Cyfran ychydig yn fwy o bobl wedi eu geni yng Nghymru (67.5% yn Amlwch; 66.4% yn Ynys Môn).
- Cyfradd isel o ail gartrefi yn yr ardal.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod cyfran y boblogaeth rhwng 30-64 (sef oed gweithio) wedi gostwng 10% yn ward Amlwch Wledig rhwng 2001 a 2011. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.

### Casgliadau

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o 533 o unedau tai ei adnabod ar gyfer Amlwch (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).*

Mae Amlwch yn ganolfan gymharol fawr yn Ynys Mon gydag amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yn Amlwch gyda chyfradd uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal o gymharu ag Ynys Mon gyfan. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yn parhau i fod 7% yn is na'r trothwy lle ystyrir yr iaith yn hyfyw. Gwelir amrywiaeth yn fforddiadwyedd tai yn y ganolfan gyda thai yn llai fforddiadwy yn ward Amlwch Wledig. Ynghlwm a hyn, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg a hefyd yn y nifer o siaradwyr rhwng 2011 a 2011. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Amlwch ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg yn un o'r uchaf yn yr Ynys sy'n awgrymu nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal gyda chyfran uchel yn dewis dysgu'r Gymraeg. Mae'r twf adeiladu a welwyd yn y ganolfan ers 2002 yn gymharol isel. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.

### Diffinio Ardal

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Amlwch a Chanolfan Trefol arall sef Cemaes, Benllech a Phentraeth.
- Yn ogystal ceir Pentref Gwasanaethol sef Llanerchymedd.
- Nid ydym yn ymwybodol o gyfle unigryw am ddatblygiad o fewn yr is-ardal yma, e.e. tir llwyd strategol.

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Cemaes	Benllech	Pentraeth	Ynys Mon
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	50.5	43.3	60.5	57.2
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	Llanbadrig 10	Llanfair ME 9.3	Pentraeth 6.3	6.2
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Llanbadrig -6.3	Llanbedrgoch -7.9	Pentraeth -1.9	-0.8
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Llanbadrig -2	Llanbedrgoch -1.6	Pentraeth -3.4	-2.9
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Llanbadrig	Llanbedrgoch	Pentraeth	6.3

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

	7.4	7.8	4.9	
<b>Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)</b>	6.8	5.8	1.9	5.6
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.				

### Cemaes

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 81 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 5 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 50.5%, sydd 19.5% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad o 6.3% yng nifer siaradwyr Cymraeg ward Llanbadrig rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (53.1% o'i gymharu â 66.4% yn ynys Mon).
- Adeiladwyd 52 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 6.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Cemaes yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd gymharol uchel o aelwydydd ble nad yw'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 30-64 oed wedi gostwng 8.4% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd cynnydd o 10% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros yr un cyfnod. O gofio'r cyfleon gwaith posib yn sgil datblygu Wylfa Newydd bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig oedolion ifanc sydd yn debygol o ddechrau teulu) yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.
- Nodir fod canran mudwyr yn ward Llanbadrig wedi gostwng 145 i 117 (-19.3%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto), sy'n cynrychioli'r gostyngiad mwyaf o holl wardiau Ynys Môn. Awgryma hyn nad yw mewnfudiad yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **81 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **5 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Ar y cyfan, mae statws yr iaith Gymraeg yn fregus yn y ganolfan hon, gyda chyfradd siaradwyr Cymraeg 20% yn is na'r lefel ystyrir fod yr iaith yn hyfyw. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem ynghyd a'r nifer o dai haf, sy'n golygu fod y tai ar gael i'r boblogaeth leol yn gyfyngiedig. Am y rhesymau hyn, ystyrir y dylid ymgorffori mesurau lliniaru penodol yn yr ardal, yn enwedig felly, darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Yn amodol ar weithrediad llwyddiannus mesurau lliniaru priodol, ni ddylai lefel twf disgwylidig y ganolfan gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a byddai'n cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal.

## Benllech

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 90 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 6 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal. Yn Nhachwedd 2011, roedd 9.3% o dai yng nghyngor cymuned Llanfair ME yn dai haf / ail-gartrefi o gymharu â 6.2% yn Ynys Môn gyfan. Mae hyn yn cyfrannu at leihau'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion lleol.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 43.3%, sydd 26.7% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu a 57.2% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 7.9% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Llanbedrgoch rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (43.2% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Môn).
- Adeiladwyd 108 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 5.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 11.4% a chanran y boblogaeth rhwng 20-29 wedi gostwng 1.8% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 & 2011), sy'n awgrymu fod teuluoedd ifanc yn allfudo o'r ardal.
- Nodir fod canran mudwyr yn ward Benllech wedi cynyddu o 94 i 164 (74.5%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto). Awgryma hyn fod mewnfudiad yn broblem yn yr ardal.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **90 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **6 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 26.7% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o 7.9% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ward. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ym Menllech. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed wedi gostwng 9.3% rhwng 2001 a 2011 yn ward Llanbedrgoch (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth weithiol lleol yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Nodir hefyd fod twf datblygiadau tai ychydig yn uwch na'r lefel twf yn Ynys Môn gyfan. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl lleol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc).

## Pentraeth

### Pwyntiau Allweddol



## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 57 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran o ail gartrefi yn yr ardal yn debyg i'r cyfran sirol.
- Cyfran ychydig yn uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 60.5%, sydd 9.5% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu a 65.4% yn Ynys Mon gyfan.
- Gostyngiad o 1.9% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Tai ychydig yn fwy fforddiadwy na chyfartaledd y Sir.
- Adeiladwyd 12 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.9% o'r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Gynradd pentraeth yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd gymharol uchel o aelwydydd ble bo'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 wedi gostwng 13.3% rhwng 2001 a 2011 yn ward Pentraeth. Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd ostyngiad o 31% yng nghanran siaradwyr Cymraeg yng ngrŵp oedran 3-15. Bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig teuluoedd ifanc) yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **57 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r darlun a welir ym Mhentraeth yn adlewyrchu'r hyn a welir yn Ynys Mon gyfan. Mae statws yr iaith Gymraeg ychydig yn well nac ydyw yn y sir, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 60.5%, sydd 9.5% yn is na'r trothwy 70%. Ni ostyngodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yma, yn enwedig pan gymherir y ffigur a ffigurau cyfatebol Rhosneigr a Benllech. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal a'r math o unedau tai. Yn nodweddiadol, fodd bynnag, dylid tynnu'r sylw i'r ffaith fod y boblogaeth 3-15 mlwydd oed wedi disgyn 31% rhwng 2001 a 2011 – yr ail uchaf ar yr Ynys, sy'n awgrymu fod prinder tai addas ar gyfer cadw teuluoedd yn yr ardal. Am y rhesymau hyn, ystyrir y dylid ymgorffori mesurau lliniaru penodol yn yr ardal yn enwedig felly, darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Yn amodol ar weithrediad llwyddiannus mesurau lliniaru priodol, ni ddylai lefel twf disgwylidig y ganolfan fod yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a byddai'n cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal.

### Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

#### Llanerchymedd

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Llanerchymedd	Ynys Mon
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	75.5	57.2

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

<b>% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)</b>	Llanerchymedd 2.6	6.2
<b>% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)</b>	Llanerchymedd 3.4	-0.8
<b>% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)</b>	Llanerchymedd -2.4	-2.9
<b>Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)</b>	Llanerchymedd 4.6	6.3
<b>Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)</b>	8.9	5.6
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Wedi ei leoli o fewn pellter rhesymol at nifer o ganolfannau mawr.
- Cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 75.5%, sydd 5.5% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu a 57.2% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 3.4% yn nifer siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 2.4 yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (2.6% o gymharu a 6.2% yn ynys Mon).
- Tai yn fwy fforddiadwy nac yn Ynys Mon gyfan.
- Adeiladwyd 55 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 8.9% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae Ysgol Gynradd Llanerchymedd yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Cyfradd uchel iawn o aelwydydd ble fo'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Cynyddodd cyfran y boblogaeth weithiol (20-30 mlwydd oed) 30% rhwng 2001 a 2011 yn ward Llanerchymedd, a dros yr un cyfnod fe gynyddodd y cyfran oedd yn economaidd weithiol oddeutu 27%. Awgryma hyn ei bod yn bwysig fod ddarpariaeth ddigonol o dai addas a fforddiadwy ar gael i'r boblogaeth hwn.
- Nodir fod canran mudwyr i ward Llanerchymedd wedi cynyddu o 133 i 179 (35%) rhwng 1991 a 2001. Wedi dweud hyn, dim ond 10% o boblogaeth y ward sydd yn fewnfudwyr (2001) sy'n awgrymu nad yw mewnfudo yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.

### Casgliadau

Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

Mae diwylliant Gymraeg cryf yn Llanerchymedd. Mae cyfran uchel iawn o breswylwyr Llanerchymedd yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad bach (2.9%) yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ers 2001. Ar y llaw arall, nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ac mae canran gymharol isel o ail gartrefi yn y pentref. Mae'r posibilrwydd y caiff tai newydd eu defnyddio fel ail gartrefi felly'n isel. Nodir fod y cynnydd yn nhwf unedau tai newydd wedi bod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd dros y degawd ddiwethaf. Awgryma hyn fod tai addas wedi cyfrannu at gadw pobl lleol yn yr ardal. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

### DOSBARTHIAD TWF ARDAL CAERGYBI

#### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

#### Caergybi

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **833** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Caergybi (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Caergybi	Ynys Mon
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	42.2	57.2
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	1.5	6.2
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Parc a'r Mynydd -5.5 Porthyfelin -15.3 Maeshyfyd -5 Tref Caergybi -0.9 Morawelon -13.6 Ffordd Llundain -13.1 Kingsland -5	-0.8
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Parc a'r Mynydd -3.4 Porthyfelin -6 Maeshyfyd -3.1 Tref Caergybi -4.1	-2.9

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

	Morawelon -4.9 Ffordd Llundain -6.5 Kingsland -5.1	
<b>Forddiadwyedd tai (2012) (ward)</b>	Parc a'r Mynydd 4.9 Porthyfelin 6.2 Maeshyfyd 5.2 Tref Caerdybi 4.2 Morawelon 5.1 Ffordd Llundain 4.7 Kingsland 4	6.3
<b>Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)</b>	4.8%	5.6%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 833 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 55 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 42.2%, sydd 27.8% yn llai na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad yn nghyfran siaradwyr Cymraeg wedi digwydd ym mhob ward yng Nghaerdybi rhwng 2001 a 2011. Gostyngiadau'n amrywio o -0.9% yn Nhref Caerdybi i -15.3% ym Mhorthyfelin.
- Tai yn fwy fforddiadwy ym Nghaerdybi ar y cyfan.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (74.8% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Darparwyd 271 o unedau yng nghyngor cymuned Caerdybi rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran mudwyr Caerdybi wedi cynyddu 40.9% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd). Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol isel (52.8%) o gymharu ag Ynys Môn sef 78.2% yn 2011.
- Cyfradd gymharol isel o ail gartrefi yn yr ardal.

### Casgliadau

Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **833 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a **55 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.

Caerdybi yw canolfan fwyaf yr Ynys gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfeleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn fregus yng Nghaerdybi gyda chyfradd isel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 42.2%, sydd 27.8% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ym mhob ward o fewn y dref dros y degawd diwethaf. Mae'n amlwg, felly, fod

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

cyflwr bregus yr iaith yn yr ardal wedi parhau i ddirywio dros y cyfnod hwn. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Nghaergybi ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn isel ym mhob ward yn y dref yn arbennig, felly, Morawelon (49%), Tref Caergybi (50%) a Maeshyfyd (50%) o gymharu a 78.2% yn Ynys Mon. Awgryma'r hyn nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio o fewn teuluoedd sydd eisoes yn byw yn yr ardal. Mae gan ardaloedd o fewn Caergybi ganrannau gymharol uchel o fewnfudwyr yn enwedig, felly, wardiau Tref Caergybi (13.4%) a Kingsland (13.1%) (ffigyrau 2001) sy'n awgrymu fod cyfraddau mewnfudwyr yn gymharol uchel. Wrth ystyried y patrymau uchod, yn enwedig y ffaith nad yw'r dref yn gadarnle'r iaith Gymraeg, ynghyd a maint y ganolfan a chyfraddau isel siaradwyr Cymraeg, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol anerbyniol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol gan gynnwys elfen ddigonol o dai fforddiadwy.

### Diffinio Ardal

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Caergybi a Chanolfan Trefol arall sef Yfali, Rhosneigr a Bodedern.
- Yn ogystal ceir Pentref Gwasanaethol sef Gwalchmai.

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Y Fali	Rhosneigr	Bodedern	Ynys Mon
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	54.7	36	70.7	57.2
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	Y Fali 2.7	Llanfaelog 25.5	Llanfihangel Ysgeifiog 3.5	6.2
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Y Fali -2.3	Rhosneigr -13.5	Llanfair yn Neubwll 4.1	-0.8
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Y Fali -0.3	Rhosneigr -6.6	Llanfair yn Neubwll -1	-2.9
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Y Fali 5.6	Rhosneigr 10.2	Llanfair yn Neubwll 3.5	6.3
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	2.9%	9.5%	11.6%	5.6%
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.				

## Y Fali

### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 84 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 5 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol ar gyfer ei phoblogaeth ei hun a'r dalgylich uniongyrchol.
- Cyfran ychydig yn is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 54.7%, sydd 15.3% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad o 2.3% yn nifer siaradwyr Cymraeg a gostyngiad o -0.3% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn ward Y Fali rhwng 2001 a 2011.
- Adeiladwyd 32 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.9% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r patrwm sirol.
- Mae Ysgol Gynradd Y Fali yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd isel o aelwydydd ble fo'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed (44.5%) rhwng 2001 a 2011 tra gwelwyd gostyngiad yng nghyfran grwpiau oed iau. Ynglwm â hyn, cynyddodd canran y boblogaeth dros 65 mlwydd sy'n siaradwyr Cymraeg cymaint â 32% tra gwelwyd gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithiol sy'n siaradwyr Cymraeg (-8%). Bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig oedolion ifanc sydd yn debygol o ddechrau teulu) yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.

### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **84 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **5 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol fregus o gymharu'r a'r darlun sirol. Gyda chyfradd isel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y ganolfan 54.7%, sydd 15.3% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ni ostyngodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yma, yn enwedig pan gymherir y ffigwr a ffigyrau cyfatebol Rhosneigr. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal a'r math o unedau tai. Yn wahanol i Rhosneigr, mae cyfleon cyfyngiedig cyflogaeth yn rhai gydol y flwyddyn. Dylid nodi, fodd bynnag, y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros y degawd diwethaf tra gwelwyd gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithiol. Awgryma hyn fod angen tai addas ar gyfer teuleuoedd ifanc yn yr ardal. Wrth ystyried y patrymau a'r ffactorau uchod, yn enwedig y ffaith nad yw'r dref yn gadarnle'r iaith Gymraeg, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol anerbyniol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol gan gynnwys elfen ddigonol o dai fforddiadwy.

## Rhosneigr

Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 70 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Canolfan dwristiaeth bwysig.
- Proffil oed y boblogaeth yn anghybwys gyda chyfran uchel o bobl wedi ymddeol.
- Cyfran uchel iawn o ail gartrefi yn yr ardal – 1/5 o'r holl dai yn ailgartrefi. Mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd gael eu defnyddio i'r perwyl hwn, felly, yn uchel
- Fforddiadwyedd tai yn broblem fawr yn yr ardal.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 36%, sydd 34% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu a 57.2% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 13.5% yn nifer siaradwyr Cymraeg a gostyngiad o 6.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (72.5% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 117 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 9.5% o'r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Gynradd Y Borth yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd isel o aelwydydd ble bo'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg. Cyfradd gymharol uchel o aelwydydd ble nad yw'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 16.5% tra bo canran y boblogaeth hŷn, dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 10.2% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 & 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd gostyngiad o 10% yn nifer siaradwyr Cymraeg dros 65 mlwydd oed. Awgryma hyn fod mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg i'r ardal yn broblem yn enwedig o ran pobl hŷn. Bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig oedolion ifanc sydd yn debygol o ddechrau teulu) yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.

Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **70 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 34% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o 13.5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn Rhosenigr, gyda thai yn llai fforddiadwy yno nag unrhyw ardal arall yng Ngwynedd. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 16.5% , 2001 a 2011 yn ward Rhosneigr (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg teuleuoedd gyda phlant yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posibil. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl dros 65 mlwydd sy'n siaradwyr

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

Cymraeg wedi cynyddu 10.2% rhwng 2001 a 2011. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). O ystyried hyn a chan fod y ganolfan hon yn disgyn o fewn polisi Tai Marchnad Lleol nid yw'n briodol cyfeirio mwy o dwf na'r hyn sydd wedi cael ei adnabod.

### Bodedern

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 57 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran o ail gartrefi yn yr ardal yn is na'r cyfran sirol.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 70.7%, sydd ychydig yn uwch (0.7%) na'r trothwy 70%, o gymharu a 57.2% yn Ynys Mon.
- Cynnydd o 4.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 1% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (74.9% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Tai ychydig yn fwy fforddiadwy na chyfartaledd y Sir.
- Adeiladwyd 56 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 11.6% o'r stoc dai yn 2011 .
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 a 20-29 oed wedi gostwng 14.5% a 14.1% yn eu trefn rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd cynnydd o 44.5% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros yr un cyfnod. Mae'n bwysig felly fod y boblogaeth ifance rhwng 0-29 sy'n cynrychioli teuluoedd ifanc yn cael eu cadw yn yr ardal ac un ffordd o wneud hyn yw drwy'r ddarpariaeth o dai addas.

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **57 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Ar y cyfan, mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol gryf ym Modedern gyda chyfran uwch na'r cyfartaledd yr ynys o siaradwyr Cymraeg. Ystyrir Bodedern felly yn gadarnle'r iaith Gymraeg a dylid ystyried yn ofalus effaith datblygiadau tai ar yr ardal. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod cyfran y boblogaeth ifanc wedi gostwng yn achosi pryder. Mae fforddiadwyedd tai yn adlewyrchu'r darlun sirol. Mae'n bwysig, felly, fod y ddarpariaeth o dai yn bodloni anghenion y boblogaeth ifanc gan gynnwys teuluoedd.

### Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Gwalchmai	Ynys Mon
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	67.1	57.2



## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)	Tregwalchmai 1.9	6.2
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Bryngwran 6.2	-0.8
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Bryngwran -4.9	-2.9
Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)	Bryngwran 5.1	6.3
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	Tregwalchmai 7.4	5.6
*- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Gwalchmai

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Wedi ei leoli o fewn pellter rhesymol at Langefni a Chaerdybi ble ceir amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau.
- Cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 67.1%, sydd 2.9% yn is na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu a 57.2% yn Ynys Mon.
- Cynnydd o 6.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 4.9% yng nghyfran siaradwyr yn y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran isel o ail gartrefi (1.9% o gymharu a 6.2% yn Ynys Mon).
- Tai ychydig yn fwy fforddiadwy nac yn Ynys Mon ar y cyfan.
- Adeiladwyd 32 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 7.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19, 20-29, 30-64 a 65+ mlwydd oed wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011. Nodir hefyd fod cyfran siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu yn y grwpiau oed 3-15,

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae cyfran uchel o breswylwyr Gwalchmai yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad bach (4.9%) yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ers 2001. Ar y llaw arall, nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ac mae canran isel iawn o ail gartrefi yn y pentref. Mae'r posibilrwydd y caiff tai newydd eu defnyddio fel ail gartrefi felly'n isel. Nodir hefyd fod y cynnydd yn y twf tai a gynigir yn y Cynllun yn llai na'r gyfradd datblygu a welwyd yn y pentref ers 2002. Teimlir

fod y lefel twf disgwylidig yn addas ar gyfer y pentref. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

### DOSBARTHAD TWF ARDAL LLANGEFNI

#### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

#### LLANGEFNI

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o **673** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Llangefni (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Llangefni	Ynys Mon
% Siaradwyr Cymraeg (2011)	80.3	57.2
% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)	1.1	6.2
% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)	Cyngar 10.6 Cefni 0.8 Tudur 1.4	-0.8
% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)	Cyngar -3.9 Cefni -2.6 Tudur -2.9	-2.9
Forddiadwyedd tai (2012) (ward)	Cyngar 6.8 Cefni 6.2 Tudur 5.9	6.3
Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)	9.9%	5.6%
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 673 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 44 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 80.3%, sydd 10.3% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 65.4% yng Ngwynedd.

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESIAID EFFAITH IEITHYDDOL

- Amrywiaeth yn hyfywra'r iaith Gymraeg o fewn Llangefni. Cynnydd o 10.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Cyngar a chynnydd o 0.8% yn ward Cefni rhwng 2001 a 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r patrwm sirol.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (82.7% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Darparwyd 239 o unedau tai newydd yng nghyngor cymuned Llangefni rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 9.9% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran mudwyr Llangefni wedi cynyddu 9.8% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu â gostyngiad o 3.5% yn Ynys Môn. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (92%) o gymharu ag Ynys Môn sef 78.2% yn 2011.
- Cyfradd isel o ail gartrefi yn yr ardal.

### Casgliadau

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf o 673 o unedau tai ei adnabod ar gyfer Llangefni (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).*

Mae lleoliad y ganolfan ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach ar yr Ynys yn gwneud Llangefni yn le poblogaidd i fyw ynddi. Mae Llangefni'n ganolfan gymharol fawr yn Ynys Mon gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach iawn yn Llangefni gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 80.3%, sydd 10.3% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yn Ynys Mon gyfan fe gynyddodd nifer siaradwyr Cymraeg tra gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr yr iaith. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Llangefni ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Wrth ystyried y ffactorau uchod, ystyrir na fyddai lefel twf disgwylidig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.

### **Diffinio Ardal**

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 1 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Llangefni a Chanolfan Trefol arall sef Gaerwen.

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2

DANGOSYDDION ALLWEDDOL	Gaerwen	Ynys Mon
------------------------	---------	----------

## Atodiad 4 – Rhan 2 ASESAD EFFAITH IEITHYDDOL

<b>% Siaradwyr Cymraeg (2011)</b>	76.5	57.2
<b>% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)</b>	Llanfihangel Ysgeifiog 2.4	6.2
<b>% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)</b>	Llanfihangel Ysgeifiog -3.2	-0.8
<b>% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)</b>	Llanfihangel Ysgeifiog -2.5	-2.9
<b>Forddiadwyedd tai (2012) (ward)</b>	Llanfihangel Ysgeifiog 4.4	6.3
<b>Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)</b>	4.8%	5.6%
* - nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.		

### Gaerwen

#### Pwyntiau Allweddol

- Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = 58 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu a 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad o 3.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (78.1% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Adeiladwyd 65 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 8.6% o'r stoc dai yn 2011.
- Tai yn fwy fforddiadwy yn yr ardal nag yng ngweddill Ynys Mon.
- Mae Ysgol Gynradd Esceifiog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed ac mae cyfran gymharol uchel o aelwydydd ble bo'r plant yn defnyddio'r iaith yn y cartref.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 12.4% tra bo canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 31.6% rhwng 2001 a 2011 yn y ward. Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd ostyngiad o 21% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 mlwydd oed. Fe fydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion yn enwedig oedolion a theuleuoedd ifanc yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.

#### Casgliadau

*Lefel twf disgwylidig yn y Cynllun = **58 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **4 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yn Gaerwen, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal, nodir nad yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn y pentref. Er hyn, fe welwyd gostyngiad bach yn nifer a chyfradd siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal a'r math o unedau tai. Yn wahanol i ganolfannau o'r un lefel hierarchiaeth, mae cyfleon cyflogaeth eang yn yr ardal sy'n rai gydol y flwyddyn. Wrth ystyried yr uchod, teimlir fod y lefel twf disgwylidig yn dderbyniol ar gyfer y pentref. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu ymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.

DRAFT

**ATODIAD 2 –POLISIÂU MANWL AEIG**

**1) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad poblogaeth a allai:**

Ystyriwyd symudiad poblogaeth wrth baratoi'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg. Mae angen cyffredinol am fwy o dai i fodloni anghenion y boblogaeth gynyddol. Caiff rhai mathau o ddatblygiad, yn enwedig tai, ddylanwad uniongyrchol ac anuniongyrchol ar boblogaeth ardal. Gall datblygiadau newydd, yn enwedig tai, arwain at fewnlfriad nifer gyfrannol fawr o drigolion di-Gymraeg i'r ardal a gall danseilio cymunedau llai sydd yn rhai iaith Gymraeg yn bennaf. Ar y llaw arall, efallai y caiff y lefel twf effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol. Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i gwrdd ag anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed.

Mae polisiau tai manwl (TAI/ 1 - TAI/ 14) yn hwyluso'n uniongyrchol nifer digonol o dai i fodloni anghenion cymunedau lleol o ran math a fforddiadwyedd. Maent hefyd yn hwyluso datblygu amrediad o fathau o dai a daliadaethau i gwrdd ag anghenion pob rhan o'r boblogaeth, gan gynnwys tai i bobl hŷn. Bydd hyn yn helpu creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol, gan helpu i gadw'r boblogaeth bresennol a lleihau allfudo.

Mae polisiau sy'n ymwneud â datblygu economaidd yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd ledled yr ardal. Dylai hyn hefyd helpu i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig rhai o'r cymunedau mwy gwledig, a thrwy hynny gynnal neu wella cydbwysedd demograffig o fewn cymunedau.

At ei gilydd, felly, ystyrir nad yw'r polisiau manwl fel yr amlinellir hwy yn y Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn debygol o achosi cynnydd/gostyngiad poblogaeth sylweddol a allai effeithio ar gydbwysedd siaradwyr Cymraeg/ Saesneg.

**2) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?**

Dylai dosbarthiad cymesur o ddatblygiad ar hyd a lled ardal y Cynllun, yn cynnwys y cefn gwlad, helpu i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau yn lleol lle bo'u hangen, a rhai sy'n hygyrch trwy amrywiaeth o ddulliau cludiant. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth frodorol, ac felly'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae polisiau tai manwl (TAI/ 1 - TAI/ 14) yn hwyluso'n uniongyrchol nifer digonol o dai i fodloni anghenion cymunedau lleol o ran math a fforddiadwyedd. Maent hefyd yn hwyluso datblygu amrediad o fathau o dai a daliadaethau i gwrdd ag anghenion pob rhan o'r boblogaeth gan gynnwys tai i bobl hŷn. Bydd hyn yn helpu creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol, gan helpu i gadw'r boblogaeth bresennol a lleihau allfudo.

Mae polisiau cyflogaeth hefyd yn ceisio diogelu safleoedd neu wneud dyraniadau cyflogaeth

penodol. Caiff cyfleoedd priodol ar raddfa fach hefyd eu cefnogi oddi mewn ac o amgylch pentrefi, clystyrau a chefn gwlad. Dylai hyn helpu i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau, a thrwy hynny fod o fudd i'r iaith Gymraeg.

### 3) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at allfudo?

Gweler maen prawf 2 uchod.

### 4) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at newid strwythur oed y gymuned?

Bydd polisïau manwl yn y Cynllun yn anelu at ymdrin ag anghenion grwpiau oedran gwahanol o fewn cymunedau. Bydd polisïau tai yn sicrhau y rhoddir sylw i anghenion tai grwpiau oedran gwahanol. Bydd cyfran o gartrefi newydd yn 'dai fforddiadwy', yn amodol ar hyfywedd. Mae polisïau TAI/ 1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI/4 (Tai Marchnad Leol) a TAI/8 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy), sy'n hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella'r cydbwysedd o dai ac yn cwrdd ag anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan, yn arbennig o berthnasol. Mae Polisi - TAI/3 (Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr henoed) yn uniongyrchol yn ymdrin ag anghenion tai pobl hŷn. Bydd polisïau seilwaith yn hwyluso darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol ar gyfer pobl o grwpiau oedran gwahanol, a dylai hynny wella lles a bywiogrwydd cymunedol.

Nod y Cynllun yw diogelu safleoedd cyflogaeth (Polisi CYF1) a hwyluso twf economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig, a ddylai helpu i gadw'r boblogaeth oedran gweithio yn ogystal â phobl ifanc yn eu cymunedau gan wella lles cymunedol. Bydd polisïau cludiant cynaliadwy o fudd i grwpiau oedran iau a hŷn, drwy sicrhau bod mynediad at wasanaethau yn haws, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

### 5) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol?

Mae'r Cynllun yn hwyluso datblygu safleoedd at ddibenion tai a chyflogaeth i ddiwallu'r angen a nodwyd. Ni ystyrir bod y datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd a lles y boblogaeth leol. Dylai'r rhan fwyaf o bolisïau'r Cynllun ddiogelu a gwella ymhellach iechyd a lles y boblogaeth breswyl drwy gryfhau cymunedau, darparu gwasanaethau a seilwaith, a hwyluso datblygiad economaidd.

Mae hwyluso ffordd o fyw well ar gyfer poblogaeth Ynys Môn a Gwynedd yn amcan pwysig yn y Cynllun. Drwy weithredu polisïau manwl, bydd y CDLI ar y Cyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn effeithio ar iechyd a lles trigolion trwy effaith datblygiadau, gan gynnwys darparu datblygiadau tai a chyflogaeth newydd, cynlluniau cludiant, cyfleusterau cymunedol newydd a defnyddiau tir eraill.

Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys polisïau cynllunio a mynediad er mwyn helpu cyflawni amgylcheddau iach a chynaliadwy. Bydd polisïau ISA1 (Darpariaeth Isadeiledd) ac ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) yn ystyried effaith datblygiadau ychwanegol trwy sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a gwell lle bo hynny'n briodol.

Canlyniadau cadarnhaol posibl y Cynllun ar ffyrdd o fyw unigol fydd anogaeth a hyrwyddo

gweithgarwch corfforol drwy wella mynediad at fannau agored a hefyd drwy warchod adnoddau hamdden o'r fath (Polisi ISA/4 Diogelu Mannau Agored Presennol). Bydd hyn yn gwella iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth. Yn ogystal, bydd hwyluso datblygu mewn ardaloedd gwledig yn caniatáu gwell mynediad i gefn gwlad, a ddylai fod o fudd iechyd a lles cyffredinol.

Hefyd bydd polisiâu sy'n gwella cysylltiadau trafndiaeth a hyrwyddo cludiant cynaliadwy (Polisiâu TA1 - Datblygiadau Rhwydwaith Trafnidiaeth a TRA/ 4 - Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth), yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol unigol. Mae polisiâu manwl yn cydnabod yr angen i ddarparu dulliau amgen ymarferol o ran trafndiaeth er mwyn hwyluso gostyngiad yn y defnydd o gerbydau a hyrwyddo beicio a cherdded, a ddylai gyfrannu at wella iechyd corfforol trigolion.

#### **6) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar fwynder yr ardal leol?**

Bydd y Cynllun yn sicrhau bod y datblygiad yn gydnaws o ran ei agosrwydd at ddefnyddiau tir cyfagos, ac mae'n dilyn egwyddorion datblygiad cynaliadwy, er enghraifft, trwy flaenoriaethu datblygu tir llwyd yn hytrach na safleoedd maes glas, ac annog defnyddio cludiant cynaliadwy. Mae'r Cynllun yn anelu at gynnal cymeriad cymysg trefol/gwledig arbennig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol unigryw. Bydd cymeriad unigol a rolau cyflenwol canol trefi yn cael eu gwella trwy ddatblygu, gwelliannau i dir y cyhoedd, ac i gyfleusterau cludiant cyhoeddus.

Mae polisiâu manwl yn y Cynllun yn ymdrin â'r angen i warchod a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig presennol. Yn arbennig o berthnasol mae Polisi AT2 (Galluogi Datblygu) sy'n sicrhau cadw adeiladau rhestredig pwysig. Hefyd mae Polisi CYFF2 (Dylunio a Llunio Lle) yn anelu at wella'r amgylchedd adeiledig presennol lle rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu tir llwyd yn hytrach na maes glas lle bo modd. Dylai polisiâu o'r fath gael effaith fuddiol ar yr amgylchedd adeiledig. Mae'r Cynllun yn anelu at gynnal cymeriad cymysg trefol/gwledig arbennig yr ardal a bydd rolau cyflenwol y canol trefi yn cael eu gwella drwy ddatblygu a gwelliannau i dir y cyhoedd.

Mae Polisi ISA/1 Darpariaeth Seilwaith yn hwyluso datblygiad gwahanol amwynderau cyhoeddus gan ddatblygwyr lle bo darpariaeth yn annigonol. Yn ogystal, mae Polisi ISA/5 yn hwyluso'n uniongyrchol datblygu mannau agored mewn tai newydd, yn achos datblygiadau o 10 neu fwy o anheddau. Dylai'r ddau bolisi arwain at effaith gadarnhaol yn erbyn y cymeriad hwn.

#### **7) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned?**

Ni ragwelir bod polisiâu manwl y Cynllun yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned. Mae polisiâu a gynhwyswyd yn y Cynllun, yn enwedig Polisi CYFF/2 (Dylunio a Llunio Lle) yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dyluniad, y maes cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofn trosedd.

#### **8) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?**

Diffyg cyfleoedd economaidd yw un o'r prif resymau pam fod pobl ifanc yn mudo, felly bydd darparu cyfleoedd newydd yn helpu i gadw'r boblogaeth ifanc yn eu cymunedau. Mae polisiâu economaidd a manwerthu manwl (yn enwedig polisiâu CYF/ 1, CYF/ 6, CYF/ 7 a CYF/ 8) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun, a fydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol. Bydd y



polisiâu hyn yn cynyddu cynnyrch economaidd amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Bydd polisiâu twristiaeth yn helpu i hyrwyddo a chynnal diwydiant twristiaeth llewyrchus, a fydd yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol. Bydd atyniadau a chyfleusterau newydd yn helpu i sicrhau cyflogaeth a chreu incwm. Dylai'r rhain gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau cysylltiedig ag incwm, gan gynnwys grwpiau incwm isel a'r di-waith, ac yn y pen draw helpu i gadw'r gweithlu presennol sy'n siarad Cymraeg.

**9) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?**

Gweler maen prawf 8 uchod.

**10) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?**

Gweler maen prawf 8 uchod.

**11) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflogau yn lleol?**

Gweler maen prawf 8 uchod.

**12) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai?**

Mae'n anodd ar hyn o bryd penderfynu ar yr union effaith a gaiff y Cynllun sy'n dod i'r amlwg ar brisiau tai yn Ardal y Cynllun. Fodd bynnag, dylai'r Cynllun gynyddu argaeledd, fforddiadwyedd a'r ystod o dai yn Ardal y Cynllun.

Mae'r strategaeth dai yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy o ddyluniad a maint priodol. Yn seiliedig ar y senario twf a ffefrir (7902 o gartrefi ychwanegol gyda llithriad o 10%) yn ystod 2011-2026 yn ardal y cynllun, mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer cyfradd uwch o ddatblygiad realistig/hylaw nag a gafwyd dros y ddegawd ddiwethaf. Bydd cyfran o'r cartrefi newydd yn dai fforddiadwy, yn amodol ar hyfywedd. Dylai hyn ei gwneud yn haws i ddarpar berchnogion tai brynu neu rentu cartrefi newydd, yn enwedig felly trigolion gyda chysylltiadau lleol. Bydd hwyluso tai ar draws Ardal y Cynllun yn rhoi mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd i bobl aros yn eu cymunedau. Dylai'r polisiâu manwl canlynol sydd yn y Cynllun helpu i hyrwyddo datblygu tai fforddiadwy sy'n diwallu gofynion y boblogaeth leol:

Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i gwrdd ag anghenion y gymuned leol. Bydd cyfran o gartrefi newydd yn 'dai fforddiadwy' yn amodol ar hyfywedd. Mae polisiâu TAI/1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI/4 (Tai Marchnad Leol) a TAI/8 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy), sy'n hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella'r cydbwysedd o dai ac yn cwrdd ag anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan, yn arbennig o berthnasol. Bydd y Cynghorau yn ceisio sicrhau lefel briodol o dai fforddiadwy ar draws ardal y cynllun trwy weithio mewn partneriaeth â Darparwyr Cofrestredig, datblygwyr a chymunedau lleol i gwrdd â'r targed lleiaf a gyflwynir ym mholisi strategol PS12.

**13) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?**

Gall cadw pobl ifanc yn eu cymunedau a chynnydd yn y gweithlu, ynghyd â darparu tai mewn

ardaloedd gwahanol, effeithio ar ddarpariaeth addysg. Ymgynghorwyd â Gwasanaethau Addysg y ddau Gyngor i sicrhau nad yw'r datblygiad yn gorlwytho capasiti ysgolion yn ardal y Cynllun.

Gall datblygiad o dai ychwanegol yn nalgylchoedd ysgolion roi rhoi pwysau gormodol ac annerbyniol ar eu gallu i weithredu'n effeithiol, oherwydd y plant ychwanegol a fydd angen cefnogaeth. Er mwyn goresgyn hyn, mae Polisi ISA/1 yn sicrhau lle bo datblygiad yn creu angen uniongyrchol am gyfleusterau addysg newydd neu well, yna bydd yn cael ei ariannu gan y datblygiad ar ffurf ymrwymadau ac/neu amodau cynllunio. Ar ben hynny, mae Polisi ISA/3 yn cefnogi ceisiadau datblygu am gyfleusterau neu estyniadau newydd i adeiladau presennol i ddibenion academaidd a chymorth. Mae'r effaith gyffredinol ar y maen prawf hwn, felly, yn gadarnhaol.

#### **14) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar wasanaethau gofal iechyd?**

Cydnabyddir bod cynnydd yn y boblogaeth breswyl yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar allu cyfleusterau gofal iechyd presennol. O ganlyniad, mae potensial i'r cynnydd hwn mewn trigolion roi pwysau annerbyniol ar y gwasanaethau iechyd, gan arwain at wasanaeth gwaeth. Ar y llaw arall, bu darpariaeth gofal iechyd yn ystyriaeth bwysig fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o bolisiau sy'n hwyluso mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau. Ceisia'r Cynllun ddiogelu cyfleusterau cymunedol trwy ei bolisiau seilwaith. Yn ogystal, ceisir gwasanaethau a chyfleusterau newydd neu well pan fo datblygiad newydd yn cynyddu'r galw ar gyfleusterau presennol, a/neu pan nodir prinder cyfleusterau yn unol â Pholisi ISA2 (Darpariaeth Seilwaith). Mae'r Cynllun hefyd yn anelu at leoli datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy, mewn ardaloedd gyda gwasanaethau a chyfleusterau sydd eisoes yn bodoli.

O ran gwasanaethau gofal eraill, mae Polisi TAI/3 yn hwyluso datblygu cartrefi gofal preswyl, tai gofal ychwanegol a llety gofal arbenigol.

#### **15) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol megis siopau?**

Mae polisiau economaidd a manwerthu manwl (yn enwedig polisiau CYF/ 1, CYF/ 6, CYF/ 7 a CYF/ 8) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun, a fydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar wasanaethau a siopau lleol. Bydd y polisiau hyn yn cynyddu cynnyrch economaidd amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Bydd polisiau twristiaeth yn helpu i hyrwyddo a chynnal diwydiant twristiaeth llewyrchus, a fydd yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol. Bydd atyniadau a chyfleusterau newydd yn helpu i sicrhau cyflogaeth a chreu incwm. Dylai'r rhain gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau cysylltiedig ag incwm, gan gynnwys grwpiau incwm isel a'r di-waith.

#### **16) A fydd y strategaeth o bosibl yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned sy'n siarad Cymraeg?**

Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau y bydd y datblygiad yn cael ei ddsbarthu i gryfhau rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun. Bydd y dull hwn yn helpu i gynnal cymeriad cymysg trefol/gwledig arbennig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol unigryw.

Mae'r Cynllun, trwy amrywiol ddyraniadau tir, yn anelu at ddiwallu anghenion lleol, ac yn achos tai,

drwy sicrhau bod yr ystod a dewis o dai sydd ar gael yn ddigon i ateb gofynion lleol. Bydd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy a gaiff ei hwyluso trwy Bolisi TAI/8 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy) yn galluogi grwpiau amrywiol i gael cartrefi addas ac felly integreiddio o fewn cymunedau, a thrwy hynny leihau gwrthdaro a rhaniadau o fewn cymunedau. Mae Polisi Tai TAI/1 (Cymysgedd Tai Priodol) yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn cwrdd ag anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan. Dim ond mewn aneddiadau penodol y mae Polisi TAI/4 (Tai Marchnad Leol) yn hyrwyddo tai marchnad leol a thai fforddiadwy, gyda'r nod o ymdrin â'r anghydbwysedd o fewn y marchnadoedd tai lleol a chynnal a chryfhau cymunedau bregus. Dylai hyn helpu i leihau tensiynau cymdeithasol o fewn cymunedau.

Yn ychwanegol, dylai polisïau sy'n ymwneud â chyfleusterau a seilwaith cymunedol hwyluso gwell rhyngweithio cymdeithasol a thrwy hynny wella cydlyniant o fewn cymunedau. Yn arbennig o berthnasol mae Polisïau ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) ac ISA1 (darpariaeth Seilwaith) sy'n hwyluso'r gwaith o amddiffyn a datblygu cyfleusterau cymunedol a seilwaith yn ardal y Cynllun.

#### **17) A fydd y strategaeth o bosibl yn arwain at newidiadau mewn traddodiadau/ diwylliannau Cymreig?**

Ar y cyfan, mae'r Polisïau a gynhwysir yn y Cynllun yn annhebygol o arwain at newidiadau sylweddol mewn traddodiadau a diwylliannau Cymreig lleol, a allai gael effaith niweidiol ar yr iaith. Fel y trafodwyd yn yr adrannau blaenorol, mae'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn helpu i gadw trigolion ifanc sy'n siarad Cymraeg yn eu cymunedau, drwy hwyluso datblygu tai fforddiadwy a thrwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae polisïau tai yn hwyluso datblygiad cymesur o dai mewn ardaloedd gwledig a threfol a fydd yn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'u rolau. Bydd y dull hwn yn helpu cynnal cymeriad diwylliannol arbennig ardal y Cynllun. Bydd darparu tai fforddiadwy a hwylusir trwy Bolisi TAI/8 yn galluogi grwpiau amrywiol i gael tai priodol a thrwy hynny integreiddio o fewn cymunedau.

Hefyd mae bywiogrwydd a hyfywedd cymunedol yn cael ei wella drwy wahanol bolisïau'r Cynllun. Dylai'r rhain helpu cefnogi mentrau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf, sy'n golygu parchu a gwella'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn arbennig o berthnasol mae Polisïau ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) ac ISA1 (Darpariaeth Isadeiledd) sy'n hwyluso'r gwaith o amddiffyn a datblygu cyfleusterau cymunedol a seilwaith yn ardal y Cynllun.

## ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

### 1) AWDUR (ON) YR ASESIAID

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC)

### 2) PARTNERIAID

Nodwch yr holl unigolion a grwpiau sydd angen eu cynnwys yn y broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, sefydliadau arbenigol ayb

Swyddogion Cydraddoldeb a Chydraddoldeb Iaith (Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn)

### 3) DYDDIAD CYCHWYN

Ionawr 2012 (cam cyn-adneuo)

### 4) DYDDIAD GORFFEN

Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLI ar y Cyd)

### 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae'r CDLI ar y Cyd yn strategaeth datblygu defnydd tir am gyfnod o 15 mlynedd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy. Bydd yn anelu at gyflawni'r canlynol:

- Arwain datblygiad tai, manwerthu, cyflogaeth a defnyddiau eraill;
- Cynnwys polisiâu a fydd yn cynorthwyo penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio;
- Gwarchod ardaloedd i sicrhau cynnal a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

### 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth/swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Mae Rheoliadau'r CDLI yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngorau weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd a thrwy gydol y broses wedi hynny. Diffinnir y prif egwyddorion sy'n sail i ymgysylltu â chymunedau yn y broses CDLI ar y Cyd yn 'CDLI Cymru' (2005) fel a ganlyn:

- Creu amgylchiadau sy'n caniatáu cyfranogiad cynnar ac adborth ar adeg pan fo modd i bobl weld bod cyfle i ddylanwadu ar y Cynllun;
- Annog ymrwymiad yr holl gyfranogwyr i drafodaeth agored a gonest ar ddeusiadau datblygu ymarferol eraill wrth chwilio am gonsensws; a
- Chydnabod yr angen am fabwysiadu dulliau o gynnwys y gymuned, yn cynnwys busnesau, gan geisio barn y bobl hynny na fyddai fel arfer yn chwarae rhan.

Roedd y Cytundeb Cyflawni yn ffurfio rhan bwysig a chyfreithiol o'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Sefydlodd y Cytundeb Cyflawni sut yr oedd y Cynllun i gael ei baratoi. Roedd y Cytundeb Cyflawni drafft yn destun i gyfnod o ymgynghori cyhoeddus rhwng 14<sup>eg</sup> Ebrill ac 2<sup>il</sup> Mehefin 2011.

Elfen allweddol wrth ddatblygu'r CDLI yw nodi safleoedd posibl ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd tir gan gynnwys tai, cyflogaeth a defnyddiau eraill, fel rhai cymunedol a hamdden. Agorwyd y gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ar 11 Hydref 2011. Gwahoddwyd datblygwyr, tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol ac aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno safleoedd posib i'w cynnwys yn ffurfiol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Er bod y broses 'galw am safleoedd' ffurfiol wedi dod i ben ar 13 Chwefror 2012, cafodd cofrestrïadau hwyr ychwanegol a gyflwynwyd cyn 31 Hydref 2012 hefyd eu gosod ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

Darparodd y Strategaeth a Ffeirir amlinelliad o weledigaeth ac amcanion y cynllun. Parhaodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen hon am 6 wythnos, a daeth y cyfnod i ben ar 27 Mehefin 2013. Roedd y cam hwn yn gyfnod allweddol i aelodau o'r cyhoedd ynghyd â rhanddeiliaid eraill roi sylwadau ar y Cynllun.

## 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb.

- Data meintiol o Gyfrifiad 2001 a 2011
- Gwefannau gwybodaeth a seiliedig ar ddata e.e. StatsCymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Dadansoddi data rhanbarthol a lleol ac adroddiadau ymgysylltu/ymgynghori a gynhyrchwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Gwynedd ac Ynys Môn
- Gwybodaeth ansoddol gan swyddogion cydraddoldeb perthnasol y ddau Gyngor

## 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn dystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi.

--

Gwybodaeth yn ymwneud ag ailbennu rhywedd a beichiogrwydd a mamolaeth

DRAFFT

**9) BETH YW'R EFFAITH WIRIONEDDOL / DEBYGOL?**

Dylai hyn amlinellu perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i ddyletswyddau cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchoddedig). Dylech nodi'n glir beth fydd yr effaith wirioneddol neu debygol. Efallai nad oes unrhyw berthnasedd nac effaith mewn perthynas â'r holl ddyletswyddau a nodweddion, ond os canfyddir perthnasedd ac/neu effaith mewn perthynas ag un neu fwy o ddyletswyddau neu nodweddion, yna bydd angen bwrw ymlaen â'r asesiad.

**9a)**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>Perthnasedd i'r Dyletswyddau cyffredinol</b>	<b>Yr effaith wirioneddol neu debygol</b>
<b>Hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol</b>	Oes	Mae gan y broses ymgynghori a'r canlyniadau terfynol y potensial i hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol: rhaid i'r broses gydnabod a gweithredu ar y potensial hwn.
<b>Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon</b>	Oes	Mae gan y broses ymgynghori a'r canlyniadau terfynol y potensial i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon: rhaid i'r broses gydnabod a gweithredu ar y potensial hwn.
<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal</b>	Oes	Dylai ystyriaeth o anghenion cydraddoldeb ar gamau cynllunio cynnar arwain at hyrwyddo cyfle cyfartal fel rhan o'r broses a chanlyniadau'r Cynllun.
<b>Hyrwyddo perthynas dda</b>	Oes	Mae gan y broses ymgynghori a'r canlyniadau terfynol y potensial i hyrwyddo perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau: rhaid i'r broses gydnabod a gweithredu ar y potensial hwn.

DRAFFT



9b)

Nodweddion	Perthnasedd i nodweddion	Effaith wirioneddol neu debygol
Hil	Oes	<p>Dangosodd dadansoddiad o hil yn Ynys Môn a Gwynedd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y gyfran o leiafrifoedd ethnig yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Nodir hefyd bod yr amrywiad mwyaf mewn ethnigrwydd i'w weld yn ardal Bangor. Gall hyn gael ei briodoli i raddau i'r Brifysgol ac Ysbyty Gwynedd. Amlygodd ymgynghoriad â'r ISL (Intercultural Skills Group) ym Mangor yr angen am lety addas ym Mangor, yn enwedig ar gyfer teuluoedd o wledydd tramor sy'n mynychu'r Brifysgol, neu sy'n dod yma i weithio.</p> <p>Ni ragwelir y bydd y polisiâu manwl a gynhwysir yn y Cynllun yn debygol o gael effaith andwyol ar hil. Ar y llaw arall, dylai'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg gael effaith gadarnhaol ar hil drwy gyfrwng gweithredu ei bolisiâu. Gallai polisiâu tai o bosibl gael effaith ar rai grwpiau drwy osod cyfyngiadau ar ddatblygiadau tai penodol e.e. llety addas i deuluoedd o wledydd tramor sy'n mynychu'r Brifysgol neu sy'n dod yma i weithio. Fodd bynnag, ystyrir bod yr ystod o bolisiâu sy'n ymwneud â datblygu tai yn darparu cyfle i ddatblygu amrywiaeth o dai sy'n addas ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig.</p> <p>Mae nifer o bolisiâu hefyd yn hwyluso cynhwysiad cymdeithasol, a fydd yn helpu i integreiddio grwpiau cymunedol lleol. Mae gwella hygyrchedd hefyd yn thema bwysig yn y Cynllun, a bydd hyn yn helpu i integreiddio grwpiau lleiafrifol yn gymdeithasol, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p><u>Polisiâu Perthnasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisiâu TAI9/A a TAI10/B Sipsiwn a Theithwyr – mesurau diogelu tir presennol a darparu ar gyfer tir ychwanegol.</li> <li>• Polisi TAI/1 - Cymysgedd Tai Priodol - yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn cwrdd ag anghenion dynodedig y gymuned gyfan.</li> <li>• Polisi TAI/2 - Isrannu eiddo presennol yn fflatiau hunangynhwysol &amp; Tai Amlfeddiannaeth (HMOs) - yn hwyluso'r broses o isrannu eiddo presennol yn fflatiau</li> </ul>

Atodiad 4 – Rhan 3 ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

		<p>hunangynhwysol a HMOs.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi ISA/2 – Cyfleusterau Cymunedol - yn annog datblygu seilwaith cymunedol priodol i ddarparu ar gyfer anghenion grwpiau sy'n agored i niwed yn y gymuned.</li> <li>• Polisi ISA/1 – Darpariaeth Seilwaith - yn sicrhau bod seilwaith cymunedol, gwasanaethau a chyfleusterau megis rhwydweithiau trafndiaeth, cludiant cynaliadwy, tai fforddiadwy a chyfleusterau iechyd yn cael eu darparu fel rhan o rai mathau o ddatblygiad.</li> <li>• Polisi TRA4 – Rheoli Effaith Trafnidiaeth – yn hybu darparu datblygiadau trafndiaeth diogel, cyfleus a chynaliadwy.</li> </ul>
<p><b>Anabledd</b></p>	<p>Oes</p>	<p>Gan fod Ardal y Cynllun yn gyffredinol wledig o ran ei natur, gydag aneddiadau gwasgareddig ar draws Ynys Môn a Gwynedd, gall mynediad at wasanaethau a chyfleoedd economaidd fod yn anodd i bobl anabl. Mae'n bwysig, felly, bod gwasanaethau a chyfleusterau yn hygyrch. Mae'r Cynllun yn hwyluso'r broses o ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwella mynediad i bawb, a fydd yn ei dro yn cryfhau cymunedau ac yn galluogi pobl ag anableddau i integreiddio'n well â'r gymdeithas ehangach.</p> <p>Mae'r gwahanol bolisiau tai yn y Cynllun yn hwyluso datblygu tai o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer anghenion pobl anabl. I gefnogi'r polisiau hyn, mae Polisi CYFF2 (Dylunio a Llunio Lle) yn sicrhau bod pob datblygiad yn cyflawni dyluniad cynhwysol drwy sicrhau amgylchedd heb rwystrau, sy'n caniatáu mynediad i bawb, a gwneud darpariaeth lawn ar gyfer pobl ag anableddau.</p> <p>Mae'r Cynllun hefyd yn cefnogi'r syniad o weithio o gartref, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n llai hygyrch i fannau gwaith, yn arbennig ar gyfer pobl â phroblemau symudedd.</p> <p><u>Polisiau Perthnasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi ISA/1 – Darpariaeth Seilwaith – yn sicrhau bod seilwaith cymunedol, gwasanaethau a chyfleusterau megis rhwydweithiau trafndiaeth, cludiant cynaliadwy, tai fforddiadwy a chyfleusterau iechyd yn cael eu darparu fel rhan o rai</li> </ul>

Atodiad 4 – Rhan 3 ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

		<p>mathau o ddatblygiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi ISA/2 – Cyfleusterau Cymunedol – yn annog datblygu seilwaith cymunedol priodol i ddarparu ar gyfer anghenion grwpiau sy'n agored i niwed yn y gymuned.</li> <li>• Polisi CYF/5 – Ailddefnyddio a Thrawsnewid Adeiladau Gwledig i Ddefnydd Preswyl - annog gweithio o gartref, a ddylai fod o fudd i bobl anabl.</li> <li>• Polisi TRA4 – Rheoli Effaith Trafnidiaeth – yn hybu darparu datblygiadau trafndiaeth diogel, cyfleus a chynaliadwy.</li> <li>• Polisi TAI/1 - Cymysgedd Tai Priodol - yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai, ac yn cwrdd ag anghenion dynodedig y gymuned gyfan.</li> <li>• Polisi CYFF/2 – Dylunio a Llunio Lle – yn hwyluso mynediad i bawb a gwneud darpariaeth lawn ar gyfer pobl ag anableddau.</li> </ul>
<b>Rhyw</b>	Oes	<p>Mae diogelwch yn y gymuned yn fater a allai effeithio ar rai grwpiau megis merched a dynion iau, a all fod yn fwy agored i droseddau treisgar. Ni ragwelir bod y polisiâu manwl yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar y grwpiau hyn. Mae'r polisiâu a gynhwysir yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dyluniad, tir y cyhoedd, cludiant cyhoeddus ac ofn trosedd a allai effeithio ar rai grwpiau megis merched. Mae'r Cynllun hefyd yn hwyluso mynediad rhwydd i gyfleusterau iechyd a mynediad at y cyfleusterau hynny i ddynion a merched.</p> <p><u>Polisiâu Perthnasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi CYFF/2 – Dylunio a Llunio Lle – yn anelu at gyflawni a chreu llefydd deniadol, diogel a mannau cyhoeddus, gan ystyried egwyddorion 'Diogelu Drwy Ddylunio' .</li> <li>• Polisi TRA/4 –Rheoli Effaith Trafnidiaeth - yn hwyluso datblygu rhwydwaith trafndiaeth effeithlon all fod o fudd i ddynion a merched, yn enwedig merched neu ddynion a all fod â chyfrifoldebau gofal plant ac nad oes ganddynt unrhyw fath o gludiant preifat.</li> </ul>
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Oes	<p>Cwmpas cyfyngedig sydd gan y Cynllun i ddylanwadu ar y grwpiau hyn. Fodd bynnag, gall diogelwch yn y gymuned fod yn fater sy'n effeithio ar y grŵp hwn. Mae'r polisiâu a gynhwysir yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dyluniad, tir y cyhoedd, cludiant cyhoeddus ac ofn trosedd.</p>

Atodiad 4 – Rhan 3 ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

		<p><u>Polisiâu Perthnasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi CYFF/2 – Dylunio a Llunio Lle – yn anelu at gyflawni a chreu lleyfydd deniadol, diogel a manau cyhoeddus, gan ystyried egwyddorion ‘Diogelu Drwy Dylunio’ .</li> </ul>
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Oes	Gweler yr asesiad o 'Ailbennu Rhywedd' uchod.
<b>Crefydd neu gred</b>	Oes	<p>Ni ragwelir bod y polisiâu manwl yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar y grŵp hwn. Mae argaeledd a hygyrchedd cyfleusterau cymunedol penodol yn ystyriaeth bwysig o ran grwpiau crefyddol. Mae'r CDLI ar y Cyd yn hwyluso datblygiad cyfleusterau priodol (gan gynnwys tai, cyfleusterau hamdden a chyfleusterau cymunedol) sy'n addas ar gyfer pob crefydd. Hefyd mae'r Cynllun yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymysgedd o fathau o dai sy'n addas i ystod eang o grwpiau. Dylai hyn fod o fudd i rai grwpiau crefyddol, a all fod â gofynion tai penodol gan gynnwys llety pwrpasol.</p> <p><u>Polisiâu Perthnasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi ISA/2 – Cyfleusterau Cymunedol - annog datblygu a gwarchod cyfleusterau cymunedol.</li> <li>Polisi TAI/1 - Cymysgedd Tai Priodol - yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn cwrdd ag anghenion dynodedig y gymuned gyfan.</li> </ul>
<b>Yr Iaith Gymraeg</b>	Oes	Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol am asesiad manylach ar yr Iaith Gymraeg
<b>Oed</b>	Oes	Mae polisiâu manwl yn y Cynllun yn anelu at ymdrin ag anghenion gwahanol grwpiau o fewn cymunedau. Bydd polisiâu tai yn sicrhau bod anghenion tai grwpiau oedran gwahanol yn cael sylw. Bydd cyfran o gartrefi newydd yn 'dai fforddiadwy', yn amodol ar hyfywfra. O berthnasedd arbennig mae polisiâu TAI/1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI/4 (Tai Marchnad Leol) a TAI/8 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy) sy'n hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl

Atodiad 4 – Rhan 3 ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

		<p>newydd yn cyfrannu at wella'r cydbwysedd tai ac yn cwrdd ag anghenion dynodedig y gymuned gyfan. Mae Polisi – TAI/3 (Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr henoed) yn ymdrin yn uniongyrchol ag anghenion tai pobl hŷn. Bydd polisïau Isadeiledd yn hwyluso darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol ar gyfer pobl o grwpiau oedran gwahanol a ddylai wella lles a bywiogrwydd cymunedol.</p> <p>Nod y Cynllun yw diogelu safleoedd cyflogaeth (Polisi CYF1) a hwyluso twf economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig, a ddylai helpu cadw'r boblogaeth oedran gwaith yn ogystal â phobl ifanc yn eu cymunedau, gan wella lles cymunedol.</p> <p>Bydd polisïau cludiant cynaliadwy o fudd i grwpiau oedran iau a hŷn drwy sicrhau mynediad haws at wasanaethau, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.</p> <p><u>Polisïau Perthnasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi TAI/1 - Cymysgedd Tai Priodol - yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy ddarparu cymysgedd o fathau o dai gan gynnwys tai fforddiadwy a chartrefi preswyl sydd yn cwrdd ag anghenion pobl ifanc a henoed fel ei gilydd.</li> <li>• Polisi TAI/3 - Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr henoed.</li> <li>• Polisi CYF/1 – CYF/8 – bydd polisïau sy'n hyrwyddo twf economaidd yn helpu cadw'r boblogaeth oed gwaith yn ogystal â phobl ifanc yn eu cymunedau.</li> <li>• Polisi TRA4 – Rheoli Effaith Trafnidiaeth – gwella hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau yn allweddol i henoed.</li> <li>• Polisi ISA/2 – Cyfleusterau Cymunedol – dylai hwyluso darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol i bobl o wahanol grwpiau oedran, a ddylai wella lles a bywiogrwydd cymunedol.</li> </ul>
<p><b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b></p>	<p>Oes</p>	<p>Bydd y grŵp hwn yn cael ei effeithio fwyaf o ran lleoliad tai mewn perthynas â chyfleusterau gofal iechyd a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'n bwysig bod y grŵp hwn yn cael mynediad hawdd at gyfleusterau a chyfleoedd o'r fath fel nad ydynt yn cael eu</p>

Atodiad 4 – Rhan 3 ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

		<p>hynysu oddi wrth eu cymunedau.</p> <p>Bydd polisïau tai yn hwyluso dosbarthiad cymesur o ddatblygiad i ble mae ei angen. Yn wir, un o nodau allweddol y Cynllun yw ceisio sicrhau dosbarthiad daearyddol rhesymol o ddatblygiadau tai a chyflogaeth, gan sicrhau'r mynediad gorau bosibl i swyddi a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol.</p> <p>Bydd polisïau cludiant cynaliadwy hefyd o fudd i'r grŵp hwn drwy sicrhau bod mynediad haws at wasanaethau, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae'r Cynllun hefyd yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau gofal iechyd sy'n hygyrch i bawb yn Ardal y Cynllun.</p> <p><u>Polisïau Perthnasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi ISA/2 – Cyfleusterau Cymunedol - hwyluso darparu cyfleusterau gofal iechyd newydd yn uniongyrchol.</li> <li>• Polisi TRA4 – Rheoli Effaith Trafnidiaeth – cefnogi gwelliannau trafndiaeth sy'n sicrhau'r hygyrchedd gorau bosibl trwy ddulliau trafndiaeth gwahanol.</li> </ul>
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Annhebygol	Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

## 10) YMDRIN Â'R EFFAITH

a)	<b>Nodwch unrhyw effaith (effeithiau) posibl ar gydraddoldeb</b>  Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol.
b)	<b>Pa gamau ellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau hyn?</b>  Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, rhaid i ni sicrhau bod ein hymgysylltiad â'r broses ymgynghori yn hygyrch ac yn briodol ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig. Gellir cyflawni hyn drwy gefnogaeth a dehongli priodol a/neu drwy dargedu grwpiau penodol.
c)	<b>A oes angen i ni ailystyried y cynllun?</b>  Nac oes.

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Cyhoeddir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), a chynhelir adolygiad llawn o'r Cynllun bob 4 blynedd.

## 12) CYNLLUN GWEITHREDU

Dylid atodi cynllun gweithredu, sy'n amlinellu'r gweithrediadau, cyfrifoldebau, amserlen a phrosesau adolygu a gwerthuso.

-

## 13) GWNEUD PENDERFYNIADAU

-

**Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI)**

Mae'r AEI hwn o'r Cynllun Adneuo yn dilyn ymlaen o AEI y Strategaeth a Ffefrir ac Opsiynau Strategol. Mae'r offeryn arfarnu yn anelu at sicrhau yr ystyrir yr holl benderfynwyr perthnasol o iechyd a grwpiau targed yn y boblogaeth leol. Gwnaed yr AEI hwn fel ymarfer pen desg ac mae wedi defnyddio grŵp llywio bychan o swyddogion i archwilio effeithiau iechyd posibl y CDLI wedi'i Adneuo. Mae strwythur yr asesiad yn seiliedig ar dempled sy'n ystyried effaith gadarnhaol a negyddol bosibl y polisiâu yn y CDLI. Pan ddynodir effeithiau negyddol, mae'r Cyngor wedi ymateb trwy addasiadau arfaethedig i bolisiau'r CDLI a'r testun ategol.

**ALLWEDD CATEGORÏAU ASESU EFFAITH**

1. Grwpiau agored i niwed?	
1a	Grwpiau cysylltiedig ag oedran (e.e. plant a phobl ifanc, oedolion 18-64, pobl hŷn)
1b	Grwpiau cysylltiedig ag incwm (e.e. teuluoedd neu unigolion ar incwm isel / economaidd anweithgar / di-waith / yn methu gweithio oherwydd salwch)
1c	Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall (e.e. pobl ag anableddau / grwpiau iechyd meddwl / gofalwyr/ grwpiau ffoaduriaid / pobl sy'n ceisio lloches / teithwyr / teuluoedd un rAEInt / pobl lesbiaidd a hoyw / grwpiau ethnig, ieithyddol a diwylliannol / grwpiau crefyddol)
1d	Materion daearyddol (e.e. pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd â dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael / pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell / pobl sy'n methu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau)

2. Ffyrdd o Fyw Unigol?	
2a	Diet
2b	Gweithgarwch Corfforol
2c	Defnydd o alcohol, sigarêts, cyffuriau heb bresgripsiwn
2d	Gweithgarwch rhywiol
2e	Gweithgarwch cymryd risg arall

3. Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd?	
3a	Trefniadaeth a rolau teulu
3b	Grym a dylanwad y dinesydd
3c	Cymorth cymdeithasol ehangach, rhwydweithAEIu cymdeithasol a chymdogrwydd
3d	Hunaniaeth gymunedol ac ymdeimlad o berthyn
3e	Rhaniadau cymunedol a phwysau cyfoedion
3f	Ynysu cymdeithasol
3g	Ethos diwylliannol ac ysbrydol
3h	Hiliaeth
3i	Allgáu cymdeithasol arall
3j	Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac Ofn Troseddau

4. Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd?	
4a	Amgylchedd adeiledig a/neu dyluniad cymdogaeth
4b	Tai a/neu amgylchedd Dan Do
4c	Sŵn ac/neu Arogl / drawdod
4d	Ansawdd aer a dŵr
4e	Atyniad ardal
4f	Diogelwch cymunedol
4g	Gwaredu gwastraff
4h	Peryglon ffyrdd
4i	Peryglon anafiadau
4j	Ansawdd a diogelwch mannau chwarae

5. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd?	
5a	Diweithdra ac/neu anweithgarwch economaidd
5b	Incwm
5c	Math o gyflogaeth
5d	Amodau gweithle
5e	Caffael

6. Mynediad at ac ansawdd gwasanaethau?	
6a	Gwasanaethau Meddygol a Gofal Iechyd
6b	Gwasanaethau gofalu eraill
6c	Cyngor gyrfaoel
6d	Siopau a gwasanaethau masnachol
6e	Amwynderau cyhoeddus
6f	Cludiant
6g	Addysg a hyfforddiant
6h	Technoleg gwybodaeth

7. Ffactorau Macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd?	
7a	Polisiau'r Llywodraeth
7b	Cynnyrch Domestig Gros
7c	Datblygu economaidd (gwledig a threfol)
7d	Materion Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb
7e	Amrywiaeth fiolegol
7f	Hinsawdd
7g	Dwyieithrwydd a'r Diwylliant Cymreig

++	Cadarnhaol iawn
+	Cadarnhaol
0	Niwtral
-	Gweddol Negyddol
--	Negyddol iawn



Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

GRWPŪAU AGORED I NIWED			
MAEN PRAWF AEI	SGŌR	POLISIŪAU PERTHNASOL	ASESIAD
Grwpiau cysylltiedig ag oedran	+	<p>TRA4 – Rheoli effeithiau trafndiaeth</p> <p>TRA1 – Datblygiadau rhwydwaith trafndiaeth</p> <p>TAI4 Tai Marchnad Leol</p> <p>TAI1 Cymysgedd Tai Priodol</p> <p>TAI8 Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy</p> <p>CYF1 - Diogelu tir ac unedau i ddefnydd cyflogaeth</p> <p>CYF7 -Arallgyfeirio amaethyddol</p> <p>CYF6 - Cyflogaeth mewn canolfannau gwasanaeth lleol neu bentrefi</p> <p>CYF8 - Safleoedd Adfywio</p> <p>MAN6 - Manwerthu yng nghefn gwlad</p>	<p>Mae'r polisiau manwl yn y Cynllun yn anelu at ymdrin ag anghenion gwahanol grwpiau o fewn cymunedau. Bydd polisiau tai yn sicrhau bod anghenion tai grwpiau oedran gwahanol yn cael sylw. Bydd cyfran o gartrefi newydd yn 'dai fforddiadwy', yn destun i hyfywedd. Yn arbennig o berthnasol mae polisiau TAI/1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI/4 (Tai Marchnad Leol) a TAI/8 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy) sy'n hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn cwrdd ag anghenion dynodedig y gymuned gyfan. Mae Polisi - TAI/3 (Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr henoed) yn ymdrin yn uniongyrchol ag anghenion tai pobl hŷn. Bydd polisiau seilwaith yn hwyluso darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol ar gyfer pobl o grwpiau oedran gwahanol, a dylai hynny wella lles a bywiogrwydd cymunedol.</p> <p>Nod y Cynllun yw diogelu safleoedd cyflogaeth (Polisi CYF1) a hwyluso twf economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig, a ddylai helpu i gadw'r boblogaeth oedran gweithio yn ogystal â phobl ifanc yn eu cymunedau gan wella lles cymunedol.</p> <p>Bydd polisiau cludiant cynaliadwy o fudd i grwpiau oedran iau a hŷn, drwy sicrhau bod mynediad at wasanaethau yn haws, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.</p>
		<p>Mae polisiau economaidd a manwerthu manwl (yn enwedig polisiau CYF/1, CYF/6, CYF/7 a CYF/8) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun, a fydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol. Bydd y polisiau hyn yn cynyddu cynnyrch economaidd amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Bydd polisiau twristiaeth yn helpu i hyrwyddo a chynnal diwydiant twristiaeth llewyrchus, a fydd yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol. Bydd atyniadau a chyfleusterau newydd yn helpu i sicrhau cyflogaeth a chreu incwm. Dylai'r rhain gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau cysylltiedig ag incwm, gan gynnwys grwpiau incwm isel a'r di-waith.</p>	

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESAD EFFAITH AR IECHYD

GRWPIAU AGORED I NIWED			
MAEN PRAWF AEI	SGÔR	POLISIÂU PERTHNASOL	ASESIAD
		ISA1 - Darpariaeth seilwaith ISA2 - Cyfleusterau cymunedol	
<b>Gwahaniaethu a mantais gymdeithasol</b>	<b>+</b>		Dylai grwpiau cymdeithasol difreintiedig elwa ar weithredu'r polisiâu seilwaith cymunedol a chludiant. Bydd Polisiâu ISA1 (Darpariaeth Seilwaith) ac ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) yn diogelu ac yn sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a gwell lle bo'n briodol, a ddylai wedyn wella cydlyniad cymdeithasol ac integreiddio. Mae Polisi TRA1 (Datblygiadau rhwydwaith trafndiaeth) yn hwyluso gwelliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth presennol, tra bod Polisi TRA4 (Rheoli Effeithiau Trafndiaeth) yn cefnogi gwelliannau cludiant sy'n gwneud y gorau o hygyrchedd, yn enwedig ar droed, beic a chludiant cyhoeddus, a fydd wedyn yn cyfrannu at gynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant. Mae darparu cymysgedd o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy a hwylusir trwy Polisi TAI/8 hefyd yn galluogi grwpiau amrywiol i gael cartrefi addas a thrwy hynny integreiddio o fewn cymunedau.

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

GRWPIAU AGORED I NIWED			
MAEN PRAWF AEI	SGÔR	POLISIÂU PERTHNASOL	ASESIAD
Materion daearyddol	+/-		<p>Gall effeithiau negyddol posibl godi lle mae cyfyngiadau yn eu lle i gyfyngu ar ddatblygu mewn cefn gwlad agored. Gall hyn arwain at rai ardaloedd gwledig ddod yn ynysig. Fodd bynnag, ystyrir bod hyn yn anochel gan fod polisi cynllunio cenedlaethol yn mynnu y dylai datblygiad sicrhau patrwm datblygu cynaliadwy sy'n ceisio lleihau'r angen i deithio, ac ar yr un pryd, amddiffyn yr amgylchedd. Ar y llaw arall, mae'n bwysig nodi bod llawer o bolisiâu'n hwyluso datblygiad cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig.</p> <p>Drwy gydol y Cynllun, ceir pwyslais ar hyrwyddo a hwyluso datblygiad ledled yr ardal, mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Bydd dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau'n lleihau anghydraddoldeb drwy hwyluso dosbarthiad twf mwy cyfartal mewn termau gofodol. Bydd polisiâu tai yn hwyluso dosbarthiad cymesur o ddatblygiad i ble mae ei angen. Yn wir, un o nodau allweddol y Cynllun yw ceisio sicrhau lledaeniad daearyddol rhesymol o dai a datblygiadau cyflogaeth, gan sicrhau'r mynediad mwyaf bosibl at swyddi a gwasanaethau allweddol a chyfleusterau. Yn arbennig o berthnasol mae: Polisiâu TAI/8 – TAI/14 sy'n hwyluso datblygiadau tai ledled ardal y Cynllun; Polisiâu MAN/3 – MAN/6 sy'n hyrwyddo datblygiadau manwerthu mewn canolfannau prysur ac mewn cefn gwlad; Polisiâu CYF/5 – CYF/7 sy'n hwyluso datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig; a Pholisi TRA/4 sy'n anelu at wella mynediad at wasanaethau drwy rwydweithiau cludiant cynaliadwy.</p>
<p><b>Argymhellion</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnosod maen prawf ychwanegol i Bolisi CYFF/2 i gyfeirio at yr angen i ystyried iechyd a lles fel rhan o geisiadau datblygu: <b><u>“Mae'n helpu creu amgylcheddau iach a bywiog, ac yn ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol.”</u></b></li> </ul>			

FFYRDD O FYW UNIGOL

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

MAEN PRAWF AEI	SGÔR	POLISIÂU PERTHNASOL	ASESIAD
<b>Gweithgarwch corfforol</b>	<b>+</b>	CYFF 1 - Meini prawf datblygu	Mae hwyluso ffordd o fyw well ar gyfer poblogaeth Ynys Môn a Gwynedd yn amcan pwysig yn y Cynllun. Drwy weithredu polisiau manwl, bydd y CDLI ar y Cyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn effeithio ar iechyd a lles trigolion drwy effaith datblygiadau, gan gynnwys darparu datblygiadau tai a chyflogaeth newydd, cynlluniau cludiant, cyfleusterau cymunedol newydd a defnyddiau tir eraill.
		TRA4 – Rheoli effeithiau trafndiaeth	Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys polisiau dylunio a mynediad er mwyn helpu i gyflawni amgylcheddau iach a chynaliadwy. Bydd polisiau ISA1 (Darpariaeth seilwaith) ac ISA2 (Cyfleusterau cymunedol) yn ystyried effaith datblygiadau ychwanegol drwy sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a gwell lle bo hynny'n briodol.
		TRA1 – Datblygiadau rhwydwaith trafndiaeth	
		ISA/4 – Diogelu mannau agored presennol	Canlyniadau cadarnhaol posibl y Cynllun ar ffyrdd o fyw unigol fydd anogaeth a hyrwyddo gweithgarwch corfforol drwy wella mynediad at fannau agored a hefyd drwy warchod adnoddau hamdden o'r fath. Bydd hyn yn gwella iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth. Yn ogystal, bydd hwyluso datblygu mewn ardaloedd gwledig yn caniatáu gwell mynediad i gefn gwlad, a ddylai fod o fudd i iechyd a lles cyffredinol.
		ISA/5 – Diogelu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd	
		Hefyd bydd polisiau sy'n gwella cysylltiadau trafndiaeth a hyrwyddo cludiant cynaliadwy yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol unigol. Mae polisiau manwl yn cydnabod yr angen i ddarparu dulliau amgen ymarferol o ran trafndiaeth er mwyn hwyluso gostyngiad yn y defnydd o gerbydau a hyrwyddo beicio a cherdded, a ddylai gyfrannu at wella iechyd corfforol trigolion.	
<b>Diet</b>	<b>0</b>		Ni nodwyd unrhyw effeithiau.
<b>Defnydd o alcohol a chyffuriau</b>	<b>0</b>		
<b>Gweithgarwch rhywiol</b>	<b>0</b>		
<b>Arall</b>	<b>0</b>		

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

**Argymhellion**

Ni fwriedir gwneud diwygiadau i'r Cynllun.

DYLANWADAU CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL AR IECHYD			
MAEN PRAWF AEI	SGÔR	POLISIÂU PERTHNASOL	ASESIAD
<b>Grym y dinesydd</b>	+	<p>CYFF 1 - Meini prawf datblygu</p> <p>CYFF 2 - Dylunio a llunio lle</p> <p>CYFF 3 - Dylunio a thirlunio</p> <p>TAI/4 Tai Marchnad Leol</p> <p>TAI/1 Cymysgedd Tai Priodol</p> <p>TAI/8 Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy</p>	<p>Drwy gydol y Cynllun, ceir pwyslais ar hyrwyddo a hwyluso datblygiad ledled yr ardal, mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Bydd dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau'n lleihau anghydraddoldeb drwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o dwf mewn termau gofodol. Bydd polisiau tai yn hwyluso dosbarthiad cymesur o ddatblygiad i ble mae ei angen. Bydd hyn yn debygol o arwain at ddosbarthiad gwastad o rym a dylanwad y dinesydd.</p> <p>Mae'r Cynllun yn cynnwys polisiau penodol sy'n ymwneud â chymunedau cynaliadwy sy'n gynhwysol ac yn diogelu treftadaeth ddiwylliannol (Polisiau TC1 i TC4). Mae'r Cynllun yn hwyluso creu ardaloedd cymunedol, mannau gwyrdd agored, mannau chwarae a chyfleusterau cymunedol yn y Cynllun. Mae'r rhain yn themâu allweddol o fewn y CDLI ar y Cyd, yn anelu at ysgogi cydlynid cymdeithasol a chynhwysiad pellach drwy adfywio canol trefi, gwell hygyrchedd a chludiant a gostwng nifer y teithiau mewn car.</p>
<b>Cymorth cymdeithasol a rhwydweithiau</b>	+		<p>Trwy amrywiol ddyraniadau tir, mae'r Cynllun yn anelu at ddiwallu anghenion lleol, ac, yn achos tai, drwy sicrhau bod ystod a dewis digonol o dai ar gael i ateb gofynion lleol. Yn ogystal, dylai polisiau sy'n ymwneud â chyfleusterau a seilwaith cymunedol hwyluso gwell rhyngweithio cymdeithasol a thrwy hynny wella cydlynid o fewn cymunedau.</p>
<b>Hunaniaeth gymunedol</b>	+		<p>Mae polisiau tai yn hwyluso datblygiad cymesur o dai mewn ardaloedd gwledig a threfol a fydd yn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'u rolau. Bydd y dull hwn yn helpu i gynnal cymeriad cymysg arbennig trefol/gwledig ardal y Cynllun, yn ogystal â'i chymeriad diwylliannol unigryw.</p>
<b>Rhaniadau</b>	+		

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESAD EFFAITH AR IECHYD

<b>cymunedol</b>		Bydd darparu tai fforddiadwy a hwylusir trwy Polisi TAI/8 yn galluogi grwpiau amrywiol i gael cartrefi addas a thrwy hynny integreiddio o fewn cymunedau.
<b>Ynysu cymdeithasol</b>	<b>+</b>	
<b>Ethos ddiwylliannol</b>	<b>+</b>	
<b>Allgáu cymdeithasol arall</b>	<b>+</b>	
<b>Ymddygiad gwrthgymdeithasol</b>	<b>+</b>	Mae'n annhebygol y bydd y Cynllun yn arwain at fygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned. Mae amddifadedd cymdeithasol wedi'i gysylltu'n anorfod â throsteddu. Fel arfer nodweddir ardaloedd o amddifadedd gan gyfraddau diweithdra uchel, tai o ansawdd gwael a diffyg gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Mae darpariaeth uniongyrchol o gyfleusterau tai, cyflogaeth a chymunedol, a hwylusir gan bolisiau manwl yn debygol o leihau amddifadedd yn Ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd, a fydd yn helpu i leihau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn trosedd. Yn ogystal, bydd troseddu'n cael ei negyddu trwy faen prawf 5 Polisi CYFF1 (Meini Prawf Datblygu) sy'n hyrwyddo'n benodol safonau uchel o ddylunio i leihau trosedd ac ofn trosedd.
<b>Hiliaeth</b>	<b>0</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau.
<b>Trefniadaeth deuluol</b>	<b>0</b>	
<b>Argymhellion</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnosod maen prawf ychwanegol yn rhan 1 Polisi ISA/2 i hyrwyddo datblygiad hygyrch: <b>“(v) y datblygiad arfaethedig yn hawdd ei gyrraedd ar droed, beic a chluant cyhoeddus”</b></li> </ul>		

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

- Mewnosod y testun ym Mholisi ISA/2 i annog cydleoli ac integreiddio cyfleusterau:  
[Paragraff newydd ar ôl y pwynt bwled olaf ym maen prawf 5] **“Anogir darparu cyfleusterau cymunedol amldefnydd newydd neu well, gan gynnwys cydleoli cyfleusterau gofal iechyd, ysgolion, llyfrgelloedd a hamdden mewn lleoliadau hygrych.”**

AMODAU BYW AC AMGYLCHEDDOL SY’N EFFEITHIO AR IECHYD			
MAEN PRAWF AEI	SGÔR	POLISIÏAU PERTHNASOL	ASESIAD
Amgylchedd adeiledig	+	CYFF 1 - Meini prawf datblygu	Mae polisiâu manwl yn y Cynllun yn ymdrin â'r angen i warchod a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig presennol. Yn arbennig o berthnasol mae Polisi AT2 (Galluogi Datblygu) sy'n sicrhau cadw adeiladau rhestredig pwysig. Hefyd mae Polisi CYFF2 (Dylunio a Llunio Lle) yn anelu at wella'r amgylchedd adeiledig presennol lle rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu tir llwyd yn hytrach na maes glas lle bo modd. Dylai polisiâu o'r fath gael effaith fuddiol ar yr amgylchedd adeiledig. Mae'r Cynllun yn anelu at gynnal cymeriad cymysg trefol/gwledig arbennig yr ardal, a bydd rolau cyflenwol y canol trefi yn cael eu gwella drwy ddatblygu a gwelliannau i dir y cyhoedd.
Atyniad ardal	+	CYFF 2 - Dylunio a llunio lle CYFF 3 - Dylunio a thirlunio  TRA4 – Rheoli effeithu trafniadaeth	
Tai	++	TRA1 – Datblygiadau rhwydwaith trafniadaeth  TAI/4 - Tai Marchnad Leol TAI/1 - Cymysgedd Tai Priodol TAI/8 - Trothwy a Dosbarthiad Tai	
Sŵn/arogl	+/-	Fforddiadwy	Gall rhai mathau o ddatblygiad greu sŵn neu fathau eraill o lygredd. Mae datblygu ynddo'i hun yn debygol o gynyddu sŵn, er y bydd y maint effaith o'r fath yn dibynnu ar y math, graddfa a lleoliad y datblygiad. Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn debygol o arwain at gynydd
Aer a dŵr	+/-	AMG2 - Gwarchod a	

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESAD EFFAITH AR IECHYD

		<p>gwella nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i gymeriad y dirwedd leol</p> <p>ISA/2 - Cyfleusterau cymunedol</p> <p>ISA/1 - Darpariaeth seilwaith</p> <p>ADN1 - Ynni gwynt ar y lan</p> <p>ADN2 - Technolegau ynni adnewyddadwy eraill</p>	<p>mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau eu hunain yn ogystal â'r traffig newydd a gynhyrchir. Nod y Cynllun yw atal niwed annerbyniol i iechedd oherwydd llygredd aer, sŵn, a golau, neu bresenoldeb lefelau annerbyniol o halogi tir. O ran ansawdd yr aer a dŵr, mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd helpu i ymdrin â'r heriau sy'n gysylltiedig ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae Polisi TRA1 (Datblygiadau rhwydwaith trafndiaeth) yn hwyluso gwelliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth presennol, tra bod Polisi TRA4 (Rheoli Effeithiau Trafndiaeth) yn cefnogi gwelliannau cludiant sy'n gwneud y gorau o hygyrchedd, yn enwedig ar droed, beic a chludeant cyhoeddus, a fydd wedyn yn lleihau'r defnydd o gludiant preifat, a thrwy hynny wella ansawdd yr aer. Mae polisiâu ynni adnewyddadwy yn y Cynllun yn annog y defnydd o gynlluniau ynni adnewyddadwy a all gael effaith sylweddol ar lefel leol drwy sicrhau bod allyriadau ynni carbon o ddatblygiadau newydd yn cael eu cyfyngu i'r swm ymarferol lleiaf bosibl.</p>
<b>Diogelwch cymunedol</b>	<b>+</b>		Gweler y maen prawf 'Ymddygiad gwrthgymdeithasol' uchod.
<b>Gwaredu gwastraff</b>	<b>+/-</b>	<p>ISA/4 – Diogelu manau agored presennol</p> <p>ISA/5 – Diogelu manau agored mewn datblygiadau tai newydd</p>	<p>Mae cynnydd crynodedig mewn datblygu a'r boblogaeth breswyl uwch ddilynol yn debygol o arwain at gynnydd yn y gwastraff a gynhyrchir. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff trwy Bolisiâu G1 a G2 sy'n hwyluso datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff. Awgrymir cryfhau Polisiâu G/1, G/2 a MWYN/4 o ran ystyriaethau iechedd (gweler yr argymhellion isod).</p>
<b>Peryglon ffyrdd</b>	<b>+</b>	<p>CYFF5 - Cadwraeth dŵr</p>	<p>Mae polisiâu trafndiaeth yn y Cynllun, yn enwedig TRA/1 a TRA/4 yn hwyluso datblygu rhwydwaith trafndiaeth diogel a chynaliadwy a ddylai wella diogelwch ar y ffyrdd. Awgrymir bod pwysigrwydd ymgorffori mesurau diogelwch ar y ffordd i ddyluniad datblygiadau yn cael ei bwysleisio ym Mholisi CYFF2 (gweler yr argymhellion isod).</p>
<b>Peryglon anafiadau</b>	<b>0</b>	G1 - Darparu rheolaeth wastraff a seilwaith ailgylchu	Ni nodwyd unrhyw effeithiau.
<b>Ansawdd/diogelwch manau chwarae</b>	<b>+</b>		<p>Mae Polisi ISA/1 Darpariaeth Seilwaith yn hwyluso datblygiad gwahanol amwynderau cyhoeddus gan ddatblygwyr lle bo darpariaeth yn annigonol. Yn ogystal, mae Polisi ISA/5 yn hwyluso'n uniongyrchol datblygu manau agored mewn tai newydd, yn achos datblygiadau o 10 neu fwy o anheddau. Dylai'r ddau bolisi arwain at effaith gadarnhaol yn erbyn y cymeriad hwn.</p>



## Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

### Argymhellion

- Mewnosod y testun ym maen prawf 6 ym Mholisi CYFF/2 i gyfeirio at ddiogelwch ar y ffordd:  
“Eu bod yn chwarae rôl lawn wrth gyflawni a gwella rhwydwaith cludiant a chyfathrebu **diogel ac** integredig gan hyrwyddo buddion cerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus a sicrhau cysylltiadau gyda’r gymuned sy’n bodoli o’i amgylch;
- Ym maen prawf 7 Polisi TAI/1, rhoi “sicrhau” yn lle “annog”:  
7. ~~annog~~ **sicrhau** safonau dylunio uchel sy’n creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol yn unol â Pholisi CYFF2.
- Ym maen prawf 3 Polisi TAI/3, rhoi “rhaid” yn lle “dylai”:  
3. Yn achos cartrefi gofal preswyl a thai gofal ychwanegol, ~~dylai~~ **rhaid** i’r safle fod o fewn pellter cerdded rhesymol...
- Mewnosod cyfeiriad at iechyd ym maen prawf 1 Polisi MWYN/4:  
1. nid oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau **nac iechyd** trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu, arogleuon a golau o ganlyniad i’r gwaith ei hun neu’r symudiadau traffig a geir yn ei sgil
- Mewnosod paragraff newydd ar ddiwedd Polisi G/1 i gyfyngu ar ddatblygiad a allai gael effaith ar iechyd:  
**“Rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd fod yn addas o ran maint a graddfa ac ni ddylai gael effaith andwyol ar y dirwedd, yr amgylchedd naturiol nac amwynder ac iechyd y boblogaeth leol.”**
- Mewnosod y testun i’r 3<sup>yd</sup> pwynt bwled ym Mholisi G/2 i ddynodi iechyd ac amwynder:  
Bydd y cynnig yn ymgorffori mesurau i liniaru’r effaith ar yr amgylchedd **ac iechyd ac amwynder** y boblogaeth leol;

### AMODAU ECONOMAIDD SY’N EFFEITHIO AR IECHYD

MAEN PRAWF AEI	SGÔR	POLISIÂU PERTHNASOL	ASESIAD
-------------------	------	---------------------	---------

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESAD EFFAITH AR IECHYD

<b>Diweithdra</b>	<b>+</b>	CYFF 1 - Meini prawf datblygu	Mae polisiau economaidd a manwerthu manwl (yn enwedig polisiau CYF/1, CYF/6, CYF/7 a CYF/8) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun, a fydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y grŵp hwn. Bydd y polisiau hyn yn cynyddu cynnyrch economaidd amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Bydd polisiau twristiaeth yn helpu i hyrwyddo a chynnal diwydiant twristiaeth llewyrchus, a fydd yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol. Bydd atyniadau a chyfleusterau newydd yn helpu i sicrhau cyflogaeth a chreu incwm. Dylai'r rhain gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau cysylltiedig ag incwm, gan gynnwys grwpiau incwm isel a'r di-waith.
<b>Incwm</b>	<b>+</b>	CYF1 - Diogelu tir ac unedau i ddefnydd cyflogaeth	
<b>Math o gyflogaeth</b>	<b>+</b>	CYF2: Defnyddiau ategol ar safleoedd cyflogaeth CYF3: Unedau diwydiannol / busnes newydd i safleoedd unigol ar safleoedd nad ydynt yn cael eu diogelu i ddibenion cyflogaeth CYF4: Defnyddiau amgen o safleoedd cyflogaeth CYF5: Aildefnyddio ac addasu adeiladau gwledig ar gyfer defnydd preswyl neu fusnes CYF6: Cyflogaeth mewn canolfannau gwasanaeth lleol neu bentrefi CYF7: Arallgyfeirio amaethyddol CYF8: Safleoedd Adfywio	
		MAN6- Manwerthu yng nghefn gwlad	

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

<b>Amodau gweithle</b>	<b>0</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau.
<b>Caffael</b>	<b>0</b>	
<b>Argymhellion</b>		
Ni fwriedir gwneud diwygiadau i'r Cynllun.		

<b>MYNEDIAD AT AC ANSAWDD GWASANAETHAU</b>			
<b>MAEN PRAWF AEI</b>	<b>SGÔR</b>	<b>POLISIÂU PERTHNASOL</b>	<b>ASESIAD</b>
<b>Gofal iechyd</b>	<b>+/-</b>	CYFF 1- Meini prawf datblygu  TRA4 – Rheoli effeithiau trafndiaeth TRA1 – Datblygiadau rhwydwaith trafndiaeth	Cydnabyddir bod cynnydd yn y boblogaeth breswyl yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar allu cyfleusterau gofal iechyd presennol. O ganlyniad, mae potensial i'r cynnydd hwn mewn trigolion roi pwysau annerbyniol ar y gwasanaethau iechyd, gan arwain at wasanaeth gwaeth. Ar y llaw arall, bu darpariaeth gofal iechyd yn ystyriaeth bwysig fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o bolisiâu sy'n hwyluso mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau. Ceisia'r Cynllun ddiogelu cyfleusterau cymunedol trwy ei bolisiâu seilwaith. Yn ogystal, ceisir gwasanaethau a chyfleusterau newydd neu well pan fo datblygiad newydd yn cynyddu'r galw ar gyfleusterau presennol, a/neu pan nodir prinder cyfleusterau yn unol â Pholisi ISA2 (Darpariaeth Seilwaith). Mae'r Cynllun hefyd yn anelu at leoli datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy, mewn ardaloedd gyda gwasanaethau a chyfleusterau sydd eisoes yn bodoli.
<b>Gwasanaethau gofalu eraill</b>	<b>+</b>	ISA2- Cyfleusterau cymunedol ISA2 - Darpariaeth seilwaith	O ran gwasanaethau gofal eraill, mae Polisi TAI/3 yn hwyluso datblygu cartrefi gofal preswyl, tai gofal ychwanegol a llety gofal arbenigol.
<b>Cyngor gyrfaol</b>	<b>0</b>	CYFF 2 - Dylunio a llunio lle	Ni nodwyd unrhyw effeitAEIu.
<b>Siopau</b>	<b>+</b>	CYFF 3 - Dylunio a thirlunio	Mae'r Cynllun Adneuo sy'n dod i'r amlwg yn ymdrin yn uniongyrchol â'r angen i ddarparu cyfleusterau manwerthu lle maent yn ofynnol. Mae polisiâu manwerthu yn hwyluso datblygiadau manwerthu yng nghanol trefi y canolfannau mwy, a datblygiadau o unedau manwerthu priodol o ran maint a graddfa

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

		yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar ddatblygiad o'r fath yng nghefn gwlad agored. Ar y cyfan, bydd yr effaith debygol ar y maen prawf hwn yn gadarnhaol.
<b>Amwynderau cyhoeddus</b>	<b>+</b>	Mae Polisi ISA/1 Darpariaeth Seilwaith yn hwyluso datblygiad gwahanol amwynderau cyhoeddus gan ddatblygwyr lle bo darpariaeth yn annigonol. Yn ogystal, mae Polisi ISA/5 yn hwyluso'n uniongyrchol datblygu mannau agored mewn tai newydd, yn achos datblygiadau o 10 neu fwy o anheddau. Dylai'r ddau bolisi arwain at effaith gadarnhaol yn erbyn y cymeriad hwn
<b>Cludiant</b>	<b>++</b>	Hwylusir mynediad effeithlon at wasanaethau drwy gyfrwng polisiau cludiant. Mae Polisi TRA1 (Datblygiadau rhwydwaith trafndiaeth) yn hwyluso gwelliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth presennol, tra bod Polisi TRA4 (Rheoli Effeithiau Trafndiaeth) yn cefnogi gwelliannau cludiant sy'n gwneud y gorau o hygyrchedd, yn enwedig ar droed, beic a chludiant cyhoeddus, a fydd wedyn yn cyfrannu at leihau'r defnydd o gludiant preifat.
<b>Addysg a hyfforddiant</b>	<b>+</b>	Gall datblygiad o dai ychwanegol yn nalgylchoedd ysgolion roi pwysau gormodol ac annerbyniol ar eu gallu i weithredu'n effeithiol, oherwydd y plant ychwanegol a fydd angen cefnogaeth. Er mwyn goresgyn hyn, mae Polisi ISA/1 yn sicrhau lle bo datblygiad yn creu angen uniongyrchol am gyfleusterau addysg newydd neu well, yna bydd yn cael ei ariannu gan y datblygiad ar ffurf ymrwymadau ac/neu amodau cynllunio. Ar ben hynny, mae Polisi ISA/3 yn cefnogi ceisiadau datblygu am gyfleusterau neu estyniadau newydd i adeiladau presennol i ddibenion academiaidd a chymorth. Mae'r effaith gyffredinol ar y maen prawf hwn, felly, yn gadarnhaol.
<b>Technoleg gwybodaeth</b>	<b>+</b>	Mae Polisi ISA/1 yn cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu datblygiadau seilwaith TG fel rhan o rwymedigaethau cynllunio lle mae'r seilwaith presennol yn annigonol. Mae'r effaith gyffredinol felly yn debygol o fod yn gadarnhaol.
<b>Argymhellion</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnosod y testun ym Mholisi ISA/5 i nodi sut y dylid darparu mannau agored fod yn hygyrch: <ul style="list-style-type: none"> <li>☐ “Ddarparu darpariaeth addas oddi ar y safle sy'n agos at y datblygiad ac yn hygyrch iddo <b>o ran cerdded a beicio</b>, neu, ble nad yw hyn yn hyfyw/ymarferol:</li> </ul> </li> </ul>		

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

FFACTORAU MACRO-ECONOMAIDD, AMGYLCHEDDOL A CHYNALIADWYEDD			
MAEN PRAWF AEI	SGÔR	POLISIÂU PERTHNASOL	ASESIAD
Polisiâu'r Llywodraeth	++	CYFF 1 - Meini prawf datblygu	Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf yn cefnogi datblygiad economaidd uniongyrchol yn ogystal â darparu ar gyfer cyfleoedd addysg a hyfforddiant, tra'r un pryd yn cefnogi datblygiadau twristiaeth a ddylai fod o fudd i gymunedau lleol a chefnogi'r economi leol. O ran yr hinsawdd, mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd helpu i ymdrin â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae Polisi TRA1 (Datblygiadau rhwydwaith trafndiaeth) yn hwyluso gwelliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth presennol, tra bod Polisi TRA4 (Rheoli Effeithiau Trafndiaeth) yn cefnogi gwelliannau cludiant sy'n gwneud y gorau o hygyrchedd, yn enwedig ar droed, beic a chludiant cyhoeddus, a fydd wedyn yn cyfrannu at leihau'r defnydd o gludiant preifat ac felly gwella ansawdd aer. Mae polisiâu ynni adnewyddadwy yn y Cynllun yn annog y defnydd o gynlluniau ynni adnewyddadwy a all gael effaith sylweddol ar lefel leol drwy sicrhau bod allyriadau carbon o ddatblygiadau newydd yn cael eu cyfyngu i'r swm ymarferol lleiaf. Eifen bwysig arall a bwysleisir yn gryf yw diogelu'r amgylchedd naturiol, sy'n ffocws allweddol yn y cynllun, fel y mae rheolaeth gynaliadwy. Mae polisiâu amddiffyn amgylcheddol manwl yn darparu ar gyfer diogelu a gwella bioamrywiaeth, sydd wedi'i dynodi'n bwysig yn yr ardal leol.
		CYF7- Arallgyfeirio amaethyddol	
		CYF5: Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig ar gyfer defnydd preswyl neu fusnes	
		MAN6- Manwerthu yng nghefn gwlad	
CDG	+	AMG4 – cadwraeth bioamrywiaeth leol	Gweler y meini prawf Amodau Economaidd uchod.
Datblygiad economaidd	+	ADN1 - Ynni gwynt ar y lan	Ni nodwyd unrhyw effeithiau.
Cyfiawnder cymdeithasol a chyfartaledd	0	ADN2 - technolegau ynni adnewyddadwy eraill	
Amrywiaeth fiolegol	-		Ar y cyfan, bydd y Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd fod datblygu'n golygu colli a darnio cynefinoedd. Mae cynnydd mewn datblygiad yn debygol o arwain at gollu cynefinoedd, ac felly mae bioamrywiaeth yn yr ardal yn debygol o ostwng. Ar y llaw arall, bydd polisiâu amgylcheddol, yn enwedig Polisi AMG4, yn helpu i liniaru effaith datblygiad ar asedau

Atodiad 4 – Rhan 4 ASESIAID EFFAITH AR IECHYD

			bioamrywiaeth pwysig.
<b>Hinsawdd</b>	<b>+/-</b>		Gweler y maen prawf ‘Aer a dŵr’ uchod.
<b>Diwylliant Cymreig</b>	<b>0</b>		Gweler Aseiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg am aseiad cynhwysfawr.
<b>Argymhellion</b>			
Ni fwriedir gwneud diwygiadau i’r Cynllun.			

DRAFT